
# Adroddiad Lles Blynyddol
2017-18




CARDIFF
CAERDYDD



## Cynnwys


| | |
|---|---|
| Am yr Adroddiad hwn | 4 |
| Cip ar y Cyngor | 5 |
| Cerrig Milltir yn 2017-18 | 6 |
| Gwobrau Cyngor Caerdydd | 9 |
| Ein Cyllid a'r heriau sy'n ein hwynebu | 10 |
| Sut yr ydym yn gwario ein cyllideb | 11 |
| Ymwneud â'n Dinasyddion | 12 |
| Sur yr ydym yn Hunanasesu ein Hamcanion Lles | 13 |
| Ein Hunanasesiad o'n Hamcanion Lles | 14 |
| **Blaenoriaeth 1: Gwell addysg a sgiliau i bawb** | 16 |
| **1.1** Mae pob ysgol yng Nghaerdydd yn ysgol wych | 17 |
| **1.2** Mae plant sy'n derbyn gofal yng Nghaerdydd yn cyrraedd eu potensial | 22 |
| **1.3** Cefnogi pobl i waith ac addysg | 26 |
| **Blaenoriaeth 2: Cefnogi pobl fregus** | 29 |
| **2.1** Mae pobl mewn perygl yng Nghaerdydd yn cael eu diogelu | 30 |
| **2.2** Gall pobl yng Nghaerdydd gyrchu tai o ansawdd da | 32 |
| **2.3** Cefnogir pobl yng Nghaerdydd i fyw yn annibynnol | 36 |
| **Blaenoriaeth 3: Economi sydd o fudd i'n holl ddinasyddion** | 40 |
| **3.1** Mae gan Gaerdydd fwy o swyddi a rhai sy'n talu'n well | 41 |
| **3.2** Mae gan Gaerdydd amgylchedd dinesig o safon uchel lle mae twf poblogaeth ac anghenion trafnidiaeth yn cael eu rheoli'n gynaliadwy | 46 |
| **3.3** Mae pob person ifanc yng Nghaerdydd yn trosi'n llwyddiannus i waith, addysg neu hyfforddiant | 48 |
| **3.4** Mae gan y Cyngor ddarpariaeth uchel  a chynaliadwy o fannau diwylliannol, hamdden a chyhoeddus yn y ddinas | 50 |
| **Blaenoriaeth 4: Gweithio gyda'n gilydd i drawsnewid gwasanaethau** | 55 |
| **4.1** Mae Cymunedau a Phartneriaid yn ymwneud ag ail-lunio, datblygu a chyflwyno gwasanaethau cyhoeddus lleol | 56 |
| **4.2** Mae gan y Cyngor drefniadau llywodraethiant effeithiol a gwell perfformiad mewn meysydd allweddol | 59 |
| **4.3 Trawsnewidir ein gwasanaethau i'w gwneud yn fwy hygyrch, hyblyg ac effeithiol** | 61 |
| Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus – Perfformiad 2017-18 | 64 |
| Atodiad 1 | 66 |

## Am yr Adroddiad hwn

Cynllun Corfforaethol y Cyngor yw map y sefydliad, sydd yn gosod y weledigaeth, y blaenoriaethau a'r amcanion am flwyddyn i ddod ac am y tymor canol. Mae'r adroddiad hwn yn gosod allan ddadansoddiad cynhwysfawr o berfformiad y sefydliad yn erbyn yr ymrwymiadau a wnaed yn y Cynllun Corfforaethol am 2017-19.

**Cynllun Corfforaethol 2017-19**

Mae Cynllun Corfforaethol 2017-19 yn gosod allan y pedwar maes blaenoriaeth ar gyfer gweithredu:

1. Gwell addysg a sgiliau i bawb
2. Cefnogi pobl fregus
3. Economi sydd o fudd i'n holl ddinasyddion
4. Gweithio gyda'n gilydd i drawsnewid gwasanaethau

Ym mhob blaenoriaeth, cytunwyd ar amcanion clir, ymrwymiadau i weithredu, a dangosyddion perfformiad allweddol, a gosodwyd targedau.

**Mae Cynllun Corfforaethol 2017-19 yn cynnwys:**

- **Amcanion Lles:** Roedd gan Gynllun Corfforaethol 2017-19 13 Amcan Lles oedd yn gosod allan yr hyn mae'r Cyngor am wneud.
- **Ymrwymiadau:** Am bob Amcan Lles, nododd y Cyngor nifer o ymrwymiadau fyddai'n helpu i gyrraedd yr Amcan Lles hwnnw.
- **Mesurau Perfformiad Allweddol:** Nododd y Cyngor nifer o fesurau perfformiad gweithredol sy'n dangos a yw'r camau mae'r Cyngor yn gymryd yn effeithiol.
- **Targedau:** rhain yn gosod allan werth rhifol ar Fesurau Perfformiad Allweddol i'w cyrraedd.
- **Cyfraddau CAG:** Neilltuir cyfradd CAG i Fesurau Perfformiad Allweddol: Gwyrdd lle mae'r canlyniad yn cyrraedd y targed neu'n uwch; Ambr lle mae'r canlyniad o fewn 10% o'r targed, a Choch lle mae'r canlyniad ymhellach na 10% o'r targed.

**Mae'r Adroddiad Blynyddol yn rhoi:**

- Crynodeb o bob Amcan Lles ac asesiad strategol o'r cynnydd a wnaed.
- Cyfoesiad yn erbyn pob un o'r ymrwymiadau.
- Cyfoesiad yn erbyn pob un o'r Mesurau Perfformiad Allweddol.
- Syniad clir ynghylch a gyrhaeddwyd y targedau ai peidio.
- Darperir asesiad CAG am berfformiad y Cyngor yn erbyn ei ymrwymiadau a'r Mesurau Perfformiad Allweddol.

Mae'r wybodaeth am berfformiad sydd yn yr adroddiad hwn yn cael ei ddefnyddio fel sail i ddatblygu a gosod blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor. Ym Mai 2018 cytunodd y Cyngor ar gyfres newydd o Amcanion Lles fel rhan o Gynllun Corfforaethol 2018-21. Mae mwy o wybodaeth am ddatblygu'r gyfres newydd hon o amcanion yn Atodiad 1. Buasem yn croesawu eich adborth am yr adroddiad hwn; cysylltwch â:

Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau,
Ystafell 401
Neuadd y Sir
Glanfa'r Iwerydd
Bae Caerdydd CF10 4UW

# Cip ar y Cyngor


Bob blwyddyn mae'r Cyngor yn cyflwyno tua **700 o wasanaethau** i fwy na **360,000 o drigolion** ar **151,000 o aelwydydd**, gan helpu i gefnogi cymunedau lleol a gwella bywydau trigolion Caerdydd. Ymysg y gwasanaethau mae'r Cyngor yn gyflwyno mae:

- Casglu biniau
- Torri gwair a glanhau strydoedd
- Darparu gwasanaethau i bobl hŷn a phobl ag anableddau
- Rhedeg ysgolion
- Rheoli'r stoc tai
- Edrych ar ôl plant sydd mewn gofal
- Cynnal ffyrdd a phriffyrdd
- Glanhau strydoedd
- Cynnal parciau

Mae gan Gaerdydd record hir a llwyddiannus o gynnal digwyddiadau o bwys ym myd y campau. Mae'r ddinas wedi croesawu gemau  Cwpan Rygbi'r Byd, gemau Prawf Criced y Lludw, Hanner Marathonau'r Byd, gemau terfynol Cynghrair y Pencampwyr a Râs y Cefnfor Volvo, sydd oll yn dangos gallu'r ddinas i  gyflwyno digwyddiadau a gydnabyddir ledled y byd.

Yn ogystal â'r sawl sy'n byw yn y ddinas, mae dros 80,000 o bobl yn cymydu i Gaerdydd bob dydd – dros draean o weithlu'r ddinas.

Yn gyffredinol, pa mor fodlon neu anfodlon ydych chi â Chaerdydd fel lle i fyw?




Mae boddhad â Chaerdydd fel lle i fyw (Arolwg Holi Caerdydd 2017) yn cyd-fynd yn agos â chanlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru, a gynhaliwyd yn 2016, a ddywedodd fod boddhad â Chaerdydd fel lle i fyw yn 88 %, yr 8fed uchaf yng Nghymru a'r ardal drefol uchaf yng Nghymru.

## Cerrig Milltir yn 2017-18

| Ebrill 2017 | Mai 2017 | Mehefin 2017 | Gorffennaf 2017 |
|---|---|---|---|
| Rhestrwyd Caerdydd yn drydydd mewn rhestr o'r 100 dinas a thref orau y tu allan i Lundain am botensial ei marchnad swyddfeyd | Dyfarnwyd safon 'dwbl ragorol' i Ysgol Uwchradd Fitzalan gan arolygwyr Estyn a oedd yn amlwg wedi cael argraff ffafriol o'i gweledigaeth glir a hyrwyddo lefelau hynod uchel o ddyhead ac uchelgais | Lansiodd y Cyngor ap newydd i gadw trigolion Caerdydd ac ymwelwyr yn ddiogel petai argyfwng mawr yn digwydd, megis tân mawr, llifogydd neu weithred derfysgol | Agorodd Canolfan Ailgylchu Gwastraff Cartref (CAGC) newydd gwerth £1.2m ar Ffordd Lamby sydd yn cynnig y CAGC mwyaf yn y ddinas |
| Enwyd Amgueddfa Hanes Caerdydd yn Gyrchfan Hamdden a Thwristiaeth Orau yng Ngwobrau Bywyd Caerdydd | | Daeth y nifer uchaf erioed o ymwelwyr i Gaerdydd am gêm derfynol Cynghrair Pencampwyr UEFA. Mwynhaodd 314,264 o ddilynwyr yr awyrgylch wrth i Real Madrid o Sbaen guro Juventus o'r Eidal 4-1 ar 3 Mehefin | Caerdydd oedd yr ail Awdurdod Lleol yng Nghymru i lofnodi'r siarter Marw i Weithio er mwyn sicrhau bod gweithwyr â salwch terfynol yn cael eu gwarchod yn ddigonol o ran cyflogaeth. |
| | | | Dathlodd Grŵp Chwarae Fun Start y ffaith mai hwy oedd cyn-ysgol gyntaf Caerdydd i gwblhau Cynllun Cyn-ysgolion Iach a Chynaliadwy Caerdydd, sy'n cydnabod iechyd a lles plant ifanc yn y cyfnod cyn-ysgol |
| | | | Dychwelodd y 18fed Gŵyl Fwyd a Diod Ryngwladol i Fae Caerdydd gyda mwy na 100 o gynhyrchwyr lleol, cenedlaethol a rhyngwladol yn arddangos eu cynnyrch |

## Cerrig Milltir yn 2017-18

| Awst 2017 | Medi 2017 | Hydref 2017 | Tachwedd 2017 |
|---|---|---|---|
| Lansiwyd 'Os na thyfodd, ddaw e ddim i mewn' gyda'r nod o atal halogi gwastraff gardd | Lansiwyd Gwasanaeth Integredig Awtistiaeth Caerdydd a'r Fro i fod yn un pwynt cyswllt i oedolion awtistig, teuluoedd gyda phlant awtistig a gofalwyr oedolion neu blant ag awtistiaeth | Canmolwyd Storey Arms am yr effaith gadarnhaol a gaiff ar ddisgyblion pan fyddant yn dychwelyd i'r ysgol wedi cymryd rhan mewn amrywiaeth o brofiadau yn y Ganolfan addysg awyr agored | Lansiwyd 6ed Gŵyl Llenyddiaeth Plant Caerdydd gan y seiclwr Olympaidd Syr Chris Hoy |
| Cynhaliodd Caerdydd y Gyfres Hwylio Eithafol am y chweched flwyddyn yn olynol, gan groesawu hwylwyr gorau'r byd i Fae Caerdydd | | | Lansiodd y Cyngor yr ap parcio clyfar newydd i helpu gyrwyr i ddod o hyd i le parcio rhydd trwy ddefnyddio ap 'parcio Caerdydd' |
| | | | Enwyd Cyngor Caerdydd yn Bencampwr Cyflog Byw Cymru 2017-18 am gyfraniad eithriadol i ddatblygu'r Cyflog Byw yng Nghaerdydd |

| Rhagfyr 2017 | Ionawr 2018 | Chwefror 2018 | Mawrth 2018 |
|---|---|---|---|
| Lansiodd y Cyngor wefan newydd, 'Gwirfoddoli Caerdydd', i hybu cyfleoedd gwirfoddoli yng Nghaerdydd i annog pobl i wirfoddoli yn y ddinas a chaniatáu i grwpiau cymunedol, partneriaid a gwasanaethau'r Cyngor rannu amrywiaeth o gyfleoedd gwirfoddoli | Agorodd y Campws Cymunedol Dwyreiniol i gynnig amgylchedd dysgu addas i'r 21ain Ganrif, gyda'r cyfleusterau diweddaraf i hyd at 1500 o ddisgyblion | Gwnaed buddsoddiad o £150,000 yn yr ardal leol o gwmpas siopau Rhodfa Burnham yn Llanrhymni, gan wella'r rhodfa i drigolion a busnesau lleol. | Gweithiodd staff Cyngor Caerdydd bob awr o'r dydd a'r nos i ymateb i amodau'r tywydd garw a achoswyd gan y Bwystfil o'r Dwyrain a Storm Emma. Cludwyd 335 o brydau poeth, triniwyd 8267 o alwadau teleofal, gwnaed 390 o dasgau trwsio argyfwng, gwnaed 556 o ymweliadau gofal cartref ac mewn un noson, rhoddwyd llety i 81 o bobl ddigartref |
| Dathlodd Ysgol Arbennig Riverbank yng Nghaerau gael ei symud o fonitro gan Estyn, arolygwyr addysg Cymru | Agorodd y Cynghorydd Hinchey Ganolfannau Teulu Swan Dwyrain a Gorllewin Caerdydd sydd yn rhoi amgylchedd diogel a saff, cyfeillgar i blant lle gall Plant sy'n Derbyn Gofal gwrdd â'u rhieni, brodyr a chwiorydd ac aelodau eraill y teulu | | |
| Penododd y Cyngor Sefydliad Prydeinig y Galon fel eu partner ail-ddefnyddio gwastraff newydd i roi cyfle i drigolion Caerdydd droi eu heitemau diangen ar gyfer ymchwil i'r galon fyddai'n achub bywydau | | | |
| Ail-agorodd Llwybr Cerdded Ymyl Bae Caerdydd yn dilyn gwaith gwella mawr i'w wneud yn fwy defnyddiol i hyd at 150,000 o bobl sy'n croesi'r Morglawdd bob mis | | | |

# Cerrig Milltir yn 2017-18

| Ebrill 2018 | Mai 2018 | Mehefin 2018 | Gorffennaf 2018 |
|---|---|---|---|
| Datgelwyd cynlluniau ar gyfer rhan gyntaf rhwydwaith uwch-briffordd beicio Caerdydd. Mae'r darn 1 kilometr o seilwaith seiclo wedi'i gwahanu yn llwyr yn rhedeg o Gilgant Sant Andreas ar hyd Plas Sant Andreas a Heol Senghenydd | Cymeradwyodd y Cabinet gynlluniau i Gaerdydd ddod yn un o ddinasoedd ailgylchu blaenllaw'r byd, trwy gymeradwyo nifer o fesurau i gynyddu cyfradd ailgylchu'r ddinas o 58% i 70% erbyn 2025 | Dathlodd Ysgol Gynradd Springwood wedi i'r corff addysg Estyn raddio'r ysgol fel naill ai Rhagorol neu Dda ym mhob maes a archwiliwyd – y graddfeydd uchaf posib | Datgelodd Cyngor Caerdydd gynlluniau i adfywio ardal yn Grangetown a rhoi i drigolion stad Channel View gyfle am y tro cyntaf i weld cynlluniau i ddarparu cymuned leol fwy deniadol a rhoi mwy o dai fforddiadwy yn y ddinas. |
| | Agorwyd y Gymuned Ddwyreiniol newydd gwerth £26m, cartref newydd sy'n cael ei rannu i Ysgol Uwchradd y Dwyrain a Choleg Caerdydd a'r Fro yn swyddogol | Ymwelodd Agorwch eich Llygaid, a fwriadwyd i godi dyheadau gyrfa gyda 38 o fusnesau a mudiadau o Gaerdydd a'r ddinas-ranbarth ehangach ag 16 o ysgolion ar draws Caerdydd i siarad â phlant am y cyfleoedd gyrfa sydd gan y ddinas i'w cynnig | |
| | Gosodwyd maes 3G newydd yng Nghanolfan Hamdden Better Eastern i ganiatáu i glybiau chwaraeon yn Nwyrain y ddinas i elwa o fuddsoddiad sylweddol mewn cyfleusterau lleol | Lansiwyd cynllun llogi beiciau ar-y-stryd newydd y Cyngor, 'Nextbike' sy'n cynnig dewis mwy hyblyg i groesi'r ddinas | |
| | Enillodd Caerdydd y bid i gynnal y Confensiwn Dinasoedd Creadigol yn 2019, un o brif gynadleddau cyfryngau'r DU, gan guro Bryste a Glasgow | Lansiwyd ap GOV Caerdydd i gynnig profiad digidol newydd i drigolion wrth gysylltu â'r Cyngor | |
| | Enwyd gwasanaethau a gwirfoddolwyr cynhwysiant digidol I Mewn i Waith y Cyngor yn rhestr 100 Arweinwyr Digidol y DU am 2018 | | |

| Awst 2018 | Medi 2018 | | |
|---|---|---|---|
| Dychwelodd yr Eisteddfod Genedlaethol i Gaerdydd wedi absenoldeb o 10 mlynedd a chroesawyd tyrfaoedd i Fae Caerdydd rhwng Awst 3 ac 11 | Agorodd pedair ysgol gynradd newydd sbon yng Nghaerdydd fel rhan o'r rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif | | |

# Gwobrau Cyngor Caerdydd

- Coronwyd Tîm Sgiliau Hanfodol y Cyngor yn enillwyr Ysbrydoli Cymru 2018 am eu hymroddiad i ddysgu oedolion a chefnogi cannoedd o'n staff rheng-flaen i ddod yn 'ddigidol trwy ddiofyn'
- Enillodd gwirfoddolwyr Hwb Cyngor Caerdydd wobr Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru am Wirfoddolwr y Flwyddyn yn y categori Digidol am eu gwaith yn helpu cwsmeriaid yn 12 hwb cymunedol Caerdydd
- Cafodd rhaglen cyfoethogi gwyliau ysgol Caerdydd sydd eisoes wedi ennill gwobrau ei seithfed wobr yng Ngwobrau Catey 2017
- Enillodd Cartref Cŵn Caerdydd ac Uned Rheoli Brys Cyngor Caerdydd wobrau RSPCA Cymru am eu hymdrechion i wella lles anifeiliaid
- Enwyd Dŵr Gwyn Rhyngwladol Caerdydd fel y tîm diddanu gorau yng ngwobrau Croesawu Cymru 2017
- Cafodd Ysgol Gynradd Radnor wobr genedlaethol am ei gwaith i hyrwyddo iechyd a lles cymuned yr ysgol gyfan
- Enillodd Cadw'r Rhath yn Daclus y wobr cymunedau glanach yng ngwobrau Cadw Cymru'n Daclus 2017 sydd yn cydnabod grwpiau sy'n gweithio'n ddiflino i wneud Cymru yn lle gwell
- Dyfarnodd y Gynghrair Sgiliau Ansawdd ddwy wobr i Reolaeth Gwastraff Cyngor Caerdydd: yn ystod yr Wythnos Prentisiaeth Genedlaethol, enillodd y Cyngor wobr cyflogwr gorau'r flwyddyn a dyfarnwyd i un o'n gweithwyr glanhau strydoedd y wobr gyntaf am brentis sector gorau'r flwyddyn.
- Enillodd y Cyngor y brif wobr Cyngor Cydweithredol y flwyddyn am ei agwedd gydweithredol at fynd i'r afael â nifer o broblemau yn y ddinas
- Dyfarnwyd gwobr Cyflogwr Mawr y Flwyddyn gan Anabledd Dysgu Cymru am gefnogi'r prosiect Ymwneud i Newid, sydd â'r nod o wella deilliannau lles trwy fwy o annibyniaeth, statws ariannol, cyfalaf cymdeithasol a chyflawniad a gynigir gan waith taledig
- Enwyd un o swyddogion gwasanaethau hostel Caerdydd fel Pencampwr Tai Cymru sydd yn cydnabod unigolion sydd wedi dangos brwdfrydedd ac ymrwymiad i wella bywydau eraill
- Enillodd y Cyngor Wobr Rheoli Pobl CIPD Cymru 2017 yng nghategori Menter Ymwneud y Gweithiwr Gorau


# Ein Cyllid a'r heriau sy'n ein hwynebu


Mae'r Cyngor wedi wynebu gostyngiadau sylweddol yn ei gyllideb, ac yn parhau i wneud hynny, ochr yn ochr â galw cynyddol am wasanaethau. Nododd y Cynllun Ariannol Tymor Canol (CATC) yn adroddiad cyllideb y Cyngor am 2018-19 fwlch posib yn y gyllideb o £34.2m yn 2019-20 a £91.4m dros y cyfnod 2019-20 i 2021-22. Y prif heriau a nodwyd yw'r rhai isod, ond nid hwy yw'r unig rai:

- **Pwysau costau a gostyngiadau mewn cyllid** - Mae'r Cyngor yn dal i wynebu cryn bwysau ar gostau sydd a wnelont yn bennaf â chwyddiant a hefyd â galw; er enghraifft, niferoedd uwch o ddisgyblion mewn ysgolion a phwysau ar wasanaethau cymdeithasol sydd yn digwydd ledled y DU ac a gafodd lawer o gyhoeddusrwydd. Mae'r cyfuniad o ostyngiad mewn cyllid a phwysau ariannol yn creu bwlch cyllideb. Mewn geiriau eraill, mae'r angen disgwyliedig i wario yn fwy na'r lefel o gyllid y cred y Cyngor fydd ganddo, felly mae angen cydbwyso'r ddau.
- **Cyfnod estynedig yr heriau ariannol** - Bob blwyddyn, daw'n anos cadw'r ddysgl yn wastad oherwydd bod cymaint o'r gyllideb wedi gostwng - £145m o arbedion dros y 5 mlynedd a aeth heibio
- **Ffurf cyllideb y Cyngor** - Mae dau o feysydd gwasanaethau'r Cyngor sydd dan bwysau galw - ysgolion a gwasanaethau cymdeithasol - yn cyfrif am 65 % o gyllideb y Cyngor. Golyga hyn fod y wasgfa ar wasanaethau eraill yn waeth byth.

Amcangyfrifir y bydd poblogaeth Caerdydd yn tyfu ychydig dros 20 % rhwng 2017 a 2037; golyga hyn 73,000 o bobl yn ychwanegol, sy'n gwneud Caerdydd yn un o Ddinasoedd Craidd y Du sydd yn tyfu gyflymaf. Mae hefyd yn golygu, dros yr 20 mlynedd nesaf, y disgwylir i dwf poblogaeth yng Nghaerdydd fod yn fwy na thwf poblogaeth cyfun pob awdurdod lleol arall yng Nghymru.


Twf Poblogaeth 2017-2037




Y gwir yw bod yn rhaid i wasanaethau cyhoeddus ganoli ar nifer llai o flaenoriaethau allweddol, ac at y dyfodol, mae Uchelgais y Brifddinas yn nodi'n glir pa flaenoriaethau y dylai'r Cyngor ganolbwyntio arnynt.

# Sur yr ydym yn gwario ein cyllideb



## Ymwneud â'n Dinasyddion

Bob blwyddyn mae'r Cyngor yn ymwneud â dinasyddion Caerdydd i glywed eu barn ac ymgynghori ar ystod eang o bolisïau, cynlluniau a chynigion sy'n effeithio ar y gymuned leol.

Mae Arolwg Holi  Caerdydd blynyddol yn rhoi cyfle i bobl sy'n byw ac yn gweithio yng Nghaerdydd a'r sawl sy'n ymweld â'r ddinas y cyfle i rannu eu profiadau o wasanaethau cyhoeddus: y profiadau da a lle gellid gwella pethau. Esgorodd Arolwg Holi Caerdydd ar 2017 5,598 ymateb, oedd yn well na'r record flaenorol o 4,431 y flwyddyn cynt.

Cynhaliodd yr ymgynghoriad blynyddol ar y gyllideb o 2 Tachwedd 2017 tan 14 Rhagfyr 2017. Dyma oedd yn yr ymgynghoriad:

- Ymgynghoriad Cyhoeddus Ledled y Ddinas
- Ymgynghoriad am Wasanaethau Penodol
- Ymgynghoriad mewnol y Cyngor

Yr oedd yr ymgynghoriad ar ffurf:

- Arolwg ar-lein
- Arolwg papur
- 18 o ddigwyddiadau ymwneud cymunedol
- 7 Grŵp Ffocws
- Facebook
- Panel Dinasyddion  Caerdydd

Ymysg ymgynghoriadau eraill a gynhaliwyd gan y Cyngor yn 2017-18 mae:

- Mynediad Rhieni Ifanc ac Addysg, Gwaith a Hyfforddiant
- Dweud eich dweud ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus
- Byrddau Hysbysebu Cludadwy
- Ymgynghoriad Strategaeth Gwastraff

Mae Panel Dinasyddion Caerdydd wedi ei ffurfio o drigolion lleol o bob cwr o Gaerdydd sydd wedi cytuno o roi eu barn am nifer o bynciau ymgynghori trwy gydol y flwyddyn.

I gymryd rhan â'r panel dinasyddion, ewch at wefan y Cyngor gan ddefnyddio'r wefan isod:
https://www.cardiff.gov.uk/ENG/Your-Cyngor/Have-your-say/Caerdydd-Citizens-Panel/Pages/default.aspx

# Sur yr ydym yn Hunanasesu ein Hamcanion Lles

Mae'r Cygnor yn defnyddio nifer o ffynonellau gwybodaeth i asesu cynnydd yn erbyn Amcanion Lles, gan gynnwys:

- **Adroddiadau Archwilio** – Mae'r Cyngor yn destun nifer o archwiliadau gan gyrff rheoleiddio gan gynnwys Swyddfa Archwilio Cymru, Estyn (Addysg) ac Arolygiaeth Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Cymru (AGGCC). Mae eu canfyddiadau yn helpu'r Cyngor i asesu meysydd perfformiad cryf, yn ogystal â nodi meysydd lle mae angen gwella.
- **Arolygon** – Mae arolwg Holi Caerdydd blynyddol yn rhoi cyfle i ddinasyddion Caerdydd i rannu eu barn ar amrywiaeth eang o wasanaethau'r Cyngor. O hyn, mae modd nodi meysydd perfformiad cryf, ynghyd â'r meysydd hynny lle teimla dinasyddion Caerdydd fod angen i'r Cyngor wella.
- **Adborth ac Astudiaethau Achos** – Lle bo hynny ar gael, mae tystiolaeth o astudiaethau achos neu adborth ansoddol gan ddefnyddwyr gwasanaeth yn helpu i asesu perfformiad. Mae hyn yn rhoi mewnwelediad i ni am deimladau defnyddwyr gwasanaethau'r Cyngor am y gwasanaethau maent yn dderbyn.
- **Cynnydd yn erbyn ymrwymiadau'r Cyngor** – Gwnaeth y Cyngor nifer o ymrwymiadau yn y Cynllun Corfforaethol i helpu i gyflwyno yn erbyn yr Amcanion Lles. Mae monitro cynnydd yr ymrwymiadau hyn yn rhoi dealltwriaeth o'r hyn y llwyddwyd i'w wneud a lle mae angen mwy o waith.
- **Cynnydd yn erbyn ein mesuriadau perfformiad** – Nodir nifer o fesuriadau perfformiad yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor sy'n helpu i ddangos pa gynnydd a wnaed i gyflwyno'r Amcanion Lles. Lle bo hynny'n gymwys, gosodir targedau yn erbyn y mesuriadau perfformiad i ddangos lefel y llwyddiant sydd ei angen. Fodd bynnag, am fod y Cyngor ar siwrne wella, y flaenoriaeth yw deall lle mae gwelliant yn digwydd, a lle nad yw'r Cyngor yn gwella, beth mwy y gellir ei wneud. Neilltuir CAG i ddangosyddion perfformiad: Gwyrdd lle mae'r DP ar y targed neu'n uwch, Ambr lle mae'r canlyniad o fewn 10% o'r targed a Choch lle mae'r canlyniad ymhellach na 10% o'r targed.

Mae defnyddio'r wybodaeth hon yn rhoi darlun cytbwys o siwrne wella'r Cyngor dros y flwyddyn. Trwy ddefnyddio'r wybodaeth hon, gall y Cyngor nodi meysydd gwella a dathlu llwyddiant, a hefyd nodi meysydd lle na fu'r perfformiad cystal, ac felly'r meysydd sydd angen mwy o sylw.

Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn mynnu bod y Cyngor yn 'gwneud trefniadau i sicrhau gwelliant cyson' ac y mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn mynnu bod awdurdodau lleol yn cyflwyno gwasanaeth cyhoeddus sy'n cwrdd ag anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i gwrdd â'u hanghenion. Tra bod yr Amcanion Lles yn cael eu hasesu yn flynyddol, nid oes modd eu cwblhau o fewn blwyddyn. Felly, yn y rhan fwyaf o achosion, erys Amcanion Lles y Cyngor yn y Cynllun Corfforaethol trwy sawl fersiwn, ac y mae cynnydd yn erbyn gweithgareddau a gynlluniwyd yn cael ei fonitro, ei adolygu a'i newid yn flynyddol er mwyn cefnogi siwrne wella'r Cyngor.

**Cynnydd da**: Mae'r dystiolaeth yn awgrymu y gwnaed cynnydd da i gyrraedd yr Amcan Lles, gyda gwelliant wedi ei weld ar draws yr holl feysydd perfformiad allweddol.
**Cynnydd boddhaol**: Mae'r dystiolaeth yn awgrymu y gwnaed cynnydd boddhaol i gyrraedd yr Amcan Lles, gyda gwelliant wedi ei weld ar draws y rhan fwyaf o'r meysydd perfformiad allweddol. Fodd bynnag, fe all fod meysydd lle nad yw'r perfformiad mor gryf ag y dylai fod, ac y mae hyn yn helpu i nodi lle mae angen mwy o ganolbwyntio.
**Cynnydd anfoddhaol**: Mae'r dystiolaeth yn awgrymu na wnaed cynnydd boddhaol yn erbyn yr Amcan Lles, ac na welwyd gwelliant ar draws y meysydd perfformiad allweddol.

# Ein Hunanasesiad o'n Hamcanion Lles

| Amcan Lles | Hunanasesiad |
|---|---|
| Mae pob ysgol yng Nghaerdydd yn ysgol wych | Gwnaed cynnydd **da** yn erbyn yr Amcan Lles hwn yn 2017/18. Fodd bynnag, erys heriau yng nghyswllt:<br>- Gwella Deilliannau o Blant sy'n Derbyn Gofal (PDG) a disgyblion a Addysgir Ar Wahân i'r Ysgol (AAWY);<br>- Cau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng disgyblion sy'n gymwys a heb fod yn gymwys am brydau ysgol am ddim. |
| Mae plant sy'n derbyn gofal yng Nghaerdydd yn cyrraedd eu potensial | Gwnaed cynnydd **boddhaol** yn erbyn yr Amcan Lles hwn yn 2017/18. Ymysg meysydd arwyddocaol ar gyfer mwy o wella mae:<br>- rheoli'r galw a gwella deilliannau trwy ddatblygu agwedd ataliol amlasiantaethol tuag at gefnogi plant a theuluoedd bregus |
| Cefnogi pobl i waith ac addysg | Gwnaed cynnydd **da** yn erbyn yr Amcan Lles hwn yn 2017/18. Mae angen mwy o waith i gysylltu cymunedau mwyaf difreintiedig a datgysylltiedig y ddinas a'r swyddi, twf a buddiannau economaidd a grëir. |
| Mae pobl mewn perygl yng Nghaerdydd yn cael eu diogelu | Gwnaed cynnydd **boddhaol** yn erbyn yr Amcan Lles hwn yn ystod blwyddyn ariannol 2017/18. Ymysg meysydd lle mae angen mwy o waith mae:<br>- recriwtio a chadw Gweithwyr Cymdeithasol, yn enwedig yn y Gwasanaethau Plant.<br>- Gweithio gyda Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro i barhau i reoli pwysau'r galwadau ar Wasanaethau oedolion o du poblogaeth sy'n heneiddio. |
| Gall pobl yng Nghaerdydd gyrchu tai o ansawdd da | Gwnaed cynnydd **da** yn erbyn yr Amcan Lles hwn dros y flwyddyn a aeth heibio. Bydd cwrdd ag anghenion y lefel uchel o bobl sy'n cysgu allan yn y ddinas yn parhau yn her. |
| Cefnogir pobl yng Nghaerdydd i fyw yn annibynnol | Gwnaed cynnydd **da** yn erbyn yr Amcan Lles hwn yn 2017/18. Bydd parhau i wella yn dibynnu ar weithio mewn partneriaeth agosach â'r Gwasanaeth Iechyd a'r trydydd sector i alluogi gwasanaethau i ymdopi â phwysau galwadau poblogaeth gynyddol sy'n heneiddio. |
| Mae gan Gaerdydd fwy o swyddi a rhai sy'n talu'n well | Gwnaed cynnydd **da** yn erbyn yr amcan hwn yn ystod y flwyddyn. |
| Mae gan Gaerdydd amgylchedd dinesig o safon uchel lle mae twf poblogaeth ac anghenion trafnidiaeth yn cael eu rheoli'n gynaliadwy | Gwnaed cynnydd **boddhaol** yn erbyn yr Amcan Lles hwn y 2017/18. Ymysg meysydd lle mae heriau sylweddol yn parhau a bod angen gwella mae:<br>- Rhoi camau ar waith i wella ansawdd aer yn y ddinas;<br>- Codi cyfraddau ailgylchu i gwrdd â thargedau Llywodraeth Cymru a herio ymddygiad sy'n rhwystr i'r cynnydd angenrheidiol. |
| Mae pob person ifanc yng Nghaerdydd yn trosi'n llwyddiannus ni waith, addysg neu hyfforddiant | Gwnaed cynnydd **da** yn y maes hwn yn ystod 2017/18. Fodd bynnag, mae mwy o waith i'w wneud yng nghyswllt yr isod:<br>- Sicrhau fod POB person ifanc yn cael amrywiaeth briodol o ddewisiadau a chefnogaeth. |

# Ein Hunanasesiad o'n Hamcanion Lles

| Amcan Lles | Hunanasesiad |
|---|---|
| Mae gan y Cyngor ddarpariaeth uchel a chynaliadwy o fannau diwylliannol, hamdden a chyhoeddus yn y ddinas | Gwnaed cynnydd **boddhaol** yn erbyn yr Amcan Lles hwn yn 2017/18. Ymysg meysydd lle mae angen mwy o wella mae:<br>- Parhau i ddatblygu agwedd Stryd Gyflawn y Cyngor i gadw cymdogaethau yn lân a chymryd camau i wella cynhyrchedd ac effeithlonrwydd mewn gwasanaethau strydwedd. |
| Mae Cymunedau a Phartneriaid yn ymwneud ag ail-lunio, datblygu a chyflwyno gwasanaethau cyhoeddus lleol | Gwnaed cynnydd **da** yn erbyn yr Amcan Lles hwn. Fodd bynnag, mae angen i waith barhau yng nghyswllt:<br>- Parhau i gymryd agwedd Digidol yn Gyntaf a gwneud y defnydd gorau a mwyaf effeithiol o dechnolegau newydd lle bo hynny'n briodol; |
| Mae gan y Cyngor drefniadau llywodraethiant effeithiol a gwell perfformiad mewn meysydd allweddol | Gwnaed cynnydd **boddhaol** yn erbyn yr Amcan Lles hwn yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, mae meysydd lle mae angen mwy o wella yn cynnwys:<br>- Parhau i yrru gwelliannau trwy Raglen Gyflwyno Uchelgais y Brifddinas yn effeithiol.<br>- Cymryd camau i ymdrin â |
| Trawsnewidir ein gwasanaethau i'w gwneud yn fwy hygyrch, hyblyg ac effeithiol | Gwnaed cynnydd **boddhaol** yn erbyn yr Amcan Lles hwn . Mae angen mwy o wella yng nghyswllt:<br>- Rhedeg a chyflwyno'r model Landlord Corfforaethol, sydd yn dal yn her o ran y risgiau sylweddol a'r atebolrwydd sy'n gysylltiedig â rheoli stad y Cyngor. |

# Blaenoriaeth 1:
# Gwell Addysg a Sgiliau i Bawb



# 1.1 Mae pob ysgol yng Nghaerdydd yn ysgol wych

**Beth ddywedasom y buasem yn wneud**
Y weledigaeth a amlinellwyd yng Nghaerdydd 2020 yw bod 'Pob plentyn a pherson ifanc yng Nghaerdydd yn mynychu ysgol wych ac yn datblygu'r wybodaeth, sgiliau a nodweddion sy'n eu harwain i ddod yn llwyddiannus yn bersonol, yn economaidd gynhyrchiol ac yn ddinasyddion sy'n mynd ati i ymwneud'.

Yn ystod blwyddyn academaidd 2016-17, yr ydym wedi parhau i weithio tuag at gyflwyno 5 nod allweddol Caerdydd 2020:

1. **Deilliannau rhagorol i bob dysgwr**
2. **Gweithlu o ansawdd uchel**
3. **Amgylcheddau dysgu i'r 21ain Ganrif**
4. **System ysgolion sy'n gwella ei hunan**
5. **Ysgolion a Chaerdydd mewn Partneriaeth**

## Sut y gwnaethom ni fesur ein perfformiad?

| Dangosydd Perfformiad | Canlyniad 2016-17 Blwyddyn Academaidd 2015-16 | Canlyniad 2017-18 Blwyddyn Academaidd 2016-17 | Targed 2017-18 Blwyddyn Academaidd 2016-17 | Ydym ni wedi gwella? |
|---|---|---|---|---|
| % o Ysgolion Caerdydd wedi eu categoreiddio'n Wyrdd gan Lywodraeth Cymru<br>Cynradd | 36% | 53.06% | 40% | Ydym |
| Uwchradd | 26% | 38.9% | 30% | Ydym |
| Arbennig | 57% | 28.57% | 63% | Na |
| % o'r holl ddisgyblion yn cyrraedd y Dangosydd Pwnc Craidd ar ddiwedd CA2 | 89.5% | 89.4% | 90% | Na |
| % o ddisgyblion cPYaDd yn cyrraedd y Dangosydd Pwnc Craidd ar ddiwedd CA2 | 78.8% | 79.1% | 80.6% | Ydym |
| % o ddisgyblion heb fod yn cPYaDd yn cyrraedd y Dangosydd Pwnc Craidd ar ddiwedd CA2 | 92.5% | 92.1% | 93% | Na |
| % o'r holl ddisgyblion yn cyrraedd y trothwy Lefel 2 + (5 TGAU A*-C gan gynnwys Saesneg/Cymraeg iaith gyntaf a Mathemateg) ar ddiwedd CA4 | Dim Modd Cymharu | 58.5% | Nid yw'r targedau bellach yn ddilys oherwydd newidiadau yn y fframwaith asesu | Ddim yn gymwys |

| Dangosydd Perfformiad | Canlyniad 2016-17 Blwyddyn Academaidd 2015-16 | Canlyniad 2017-18 Blwyddyn Academaidd 2016-17 | Targed 2017-18 Blwyddyn Academaidd 2016-17 | Ydym ni wedi gwella? |
|---|---|---|---|---|
| % o ddisgyblion cPYaDd yn cyrraedd y trothwy Lefel 2 + (5 TGAU A*-C g.g. Saesneg / Cymraeg iaith gyntaf a Mathemateg) ar ddiwedd CA4 | Dim Modd Cymharu | 33.9% | Nid yw'r targedau bellach yn ddilys oherwydd newidiadau yn y fframwaith asesu | Ddim yn gymwys |
| % o ddisgyblion heb fod yn cPYaDd yn cyrraedd y trothwy Lefel 2 + (5 TGAU A*-C g.g. Saesneg / Cymraeg iaith gyntaf a Mathemateg) ar ddiwedd CA4 | Dim Modd Cymharu | 66.6% | Nid yw'r targedau bellach yn ddilys oherwydd newidiadau yn y fframwaith asesu | Ddim yn gymwys |
| % o'r holl ddisgyblion yn cyrraedd Trothwy Lefel 2 (5 TGAU A*- C) ar ddiwedd CA4 | Dim Modd Cymharu | 69.60% | Nid yw'r targedau bellach yn ddilys oherwydd newidiadau yn y fframwaith asesu | Ddim yn gymwys |
| % o'r holl ddisgyblion yn cyrraedd y trothwy Lefel 1 (5 TGAU A*- G) ar ddiwedd CA4 | Dim Modd Cymharu | 93.20% | Nid yw'r targedau bellach yn ddilys oherwydd newidiadau yn y fframwaith asesu | Ddim yn gymwys |
| Y Sgôr Pwynt wedi'u Capio yng Nghyfnod Allweddol 4 (CAP 9) | Newydd | 360.7 | Newydd | Ddim yn gymwys |
| % Presenoldeb mewn ysgolion uwchradd | 94.50% | 94.2 | 95% | Na |
| % Presenoldeb mewn ysgolion cynradd | 95% | 95% | 95.5% | Maintained |
| % o blant yn sicrhau eu dewis cyntaf o leoliad mewn ysgol gynradd: | 86% | 89.75% | 80% | Ydym |
| % o blant yn sicrhau eu dewis cyntaf o leoliad mewn ysgol uwchradd | 76% | 76.21% | 70% | Ydym |
| % o yn sicrhau un o'u tri dewis o leoliad mewn ysgol gynradd | 93% | 93.86% | 90% | Ydym |
| % o blant yn sicrhau un o'u tri dewis o leoliad mewn ysgol uwchradd | 85% | 81.82% | 90% | Na |
| Nifer yr ysgolion yn nilyniant Estyn: Estyn yn adolygu cynnydd | 7 | 6 | 5 | Ydym |
| Nifer yr ysgolion yn nilyniant Estyn: Gwelliant arwyddocaol | 3 | 0 | 0 | Ydym |
| Nifer yr ysgolion yn nilyniant Estyn: Mesurau arbennig | 3 | 1 | 0 | Ydym |

***CAG yn seiliedig ar darged**
****Blwyddyn academaidd 2016-17 o Fedi 2016 i Orffennaf 2017**

# Cynnydd ym mlwyddyn academaidd 2016-17

**Nod 1: Cyflwyno deilliannau cyson ragorol i ddysgwyr**
Mae'r awdurdod lleol wedi ymrwymo i sicrhau bod ysgolion Caerdydd yn gyson ragorol, ac i lwyddiant a lles pob dysgwr, waeth beth fo'u cefndir neu amgylchiadau. Fodd bynnag, pan osodir y canlyniadau yn erbyn y dyheadau a'r targedau yng Nghaerdydd 2020, mae'n amlwg fod angen gwneud llawer mwy o waith.

O gymharu â chyfartaleddau Cymru, mae Caerdydd yn perfformio'n dda mewn ystod eang o ddangosyddion perfformiad ar draws y cyfnodau allweddol.

**Presenoldeb**
Yn y cyfnod uwchradd, yr oedd presenoldeb yn 94.2%, sydd uwchlaw'r cyfartaledd am Gymru a chyfartaledd Consortiwm Canol y De. Llwyddodd 44.4% o ysgolion uwchradd i gyrraedd cyfradd presenoldeb o dros 95%. Yn y cyfnod cynradd, yr oedd presenoldeb yn 95%, o gymharu â 94.9% ar draws Cymru. Llwyddodd 48.4% o ysgolion cynradd i gyrraedd cyfradd presenoldeb o dros 95%.

**Cyfnod Sylfaen**
Cyrhaeddodd 88.5% o ddisgyblion Ddangosydd y Cyfnod Sylfaen yn 2017, sydd uwchlaw cyfartaledd Cymru o 87.3%. Er y cafwyd gostyngiad bychan o gymharu â 2015-16 (0.4ppt), erys perfformiad Caerdydd uwchlaw'r cyfartaledd am Gymru.

**Cyfnod Allweddol 2**
Yng Nghyfnod Allweddol 2, mae'r gyfran o ddisgyblion sy'n cyrraedd y Dangosydd Pwnc Craidd (89.4%) yn unol â chyfartaledd Cymru. Ar y lefelau disgwyliedig ac uwch, mae'r perfformiad cryfaf mewn Cymraeg iaith gyntaf.

**Cyfnod Allweddol 4**
Yr oedd perfformiad Caerdydd uwchlaw'r cyfartaledd Cymreig ar y trothwy Lefel 2+. Cyrhaeddodd 58.5% o ddisgyblion y dangosydd hwn, o gymharu â 54.6% yng Nghymru. Mae Caerdydd yn 5ed yng Nghymru o ran y dangosydd hwn.

**Disgyblion cymwys am Brydau ysgol am Ddim (cPYaDd)**
Ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, cyrhaeddodd 79.1% o ddisgyblion cPYaDd y Dangosydd Pwnc Craidd, o gymharu â 92.1% o ddisgyblion heb fod yn gymwys (hPYaDd). 77.2% a 92.3% yw'r ffigyrau cyfatebol am Gymru. Mae'r bwlch mewn cyrhaeddiad wedi gostwng i 13ppt.

R ddiwedd Cyfnod Allweddol 4, cyrhaeddodd 33.9% o ddisgyblion cPYaDd drothwy Lefel 2+, o gymharu â 66.6% o ddisgyblion hPYaDd. Mae hyn yn well na pherfformiad disgyblion cPYaDd (28.5%) a hPYaDd (60.8%) ledled Cymru. Er i gyfran uwch o ddisgyblion cPYaDd yng Nghaerdydd gyrraedd y trothwy hwn nac a wnaeth ar draws Cymru yng Nghyfnod Allweddol 4, mae'r bwlch mewn cyrhaeddiad fymryn yn lletach (32.8%/32.3%) o ganlyniad.

Yr ydym yn canolbwyntio ar gau'r bwlch hwn a gweithio gydag ysgolion a phartneriaid i ofalu na fydd yr un plentyn yn cael ei adael ar ôl; yn benodol, plant sy'n Derbyn Gofal, disgyblion, cPYaDd, rhai grwpiau Ethnig, dysgwyr y mae'r Saesneg yn Iaith Ychwanegol iddynt, dysgwyr gydag Anghenion Addysgol Arbennig, a dysgwyr a Addysgir Ar Wahân i'r Ysgol.

Bu datblygu'r Strategaeth Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) gyda phartneriaid iechyd, gan gynnwys cynnydd i weithredu'r Mesur Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig ac Addysg (TAAAA), a datblygu cynigion i wella darpariaeth i ddysgwyr, yn allweddol o ran gweithio tuag at wella deilliannau i blant a phobl ifanc gydag AAA. Bwriedir cwblhau'r TAAAA ar draws Cymru erbyn 2023. Mae'r Strategaeth AAA hefyd yn amlinellu cyfres o gamau i wella'r ddarpariaeth i blant a phobl ifanc gydag AAA. Bu'r awdurdod lleol yn ymgynghori ar gyfres o gynlluniau; bwriwyd ymlaen â saith ohonynt a byddant yn cynyddu'r ddarpariaeth i blant a phobl ifanc gydag AAA o 100 lle dros y pum mlynedd nesaf. Ni fwriwyd ymlaen â'r wythfed cynllun, i gyflwyno llefydd CSA (Cyflwr y Sbectrwm Awtistig) ychwanegol mewn ysgolion uwchradd. Mae mwy o gamau ar y gweill i ymdrin â'r diffyg mewn llefydd CSA mewn ysgolion uwchradd, ac i gynyddu llefydd SAA (Sylfaen Adnoddau Arbenigol).

**Nod 2: Sicrhau'r bobl orau i arwain, dysgu, cefnogi a llywodraethu ein hysgolion**
Mae arweinyddiaeth yn ysgolion Caerdydd yn cryfhau, fel y gwelwyd yn y gostyngiad yn nifer yr ysgolion sydd angen y lefel goch o gefnogaeth trwy Gategoreiddio Ysgol Llywodraeth Cymru, sydd wedi gostwng o ddeg ym mis Ionawr 2016 i dri yn Ionawr 2018. Ar sail eu harolwg mwyaf diweddar, barnwyd 68.5% o ysgolion Caerdydd gan Estyn i fod yn dda neu'n rhagorol o ran rhagolygon am wella neu arweinyddiaeth a rheoli.

Mae arweinyddiaeth newydd yn rhai ysgolion, gan gynnwys trwy'r model pennaeth gweithredol, wedi arwain at godi disgwyliadau a gwelliannau mewn safonau.

Mae'r awdurdod lleol yn parhau i gynnal ffederasiynau fel dull o adeiladu galluedd ar draws ysgolion. Fel ar Orffennaf 2018, ffurfiwyd tri ffederasiwn ffurfiol:

- Ysgolion Arbennig Riverbank, Tŷ Gwyn a Woodlands
- Ysgolion Cynradd Coryton a Thongwynlais
- Ysgolion Cynradd Trowbridge a Greenway

Mae'r awdurdod lleol, mewn partneriaeth â Chonsortiwm Canol y De, yn parhau i gefnogi mentrau megis Teach First, sy'n ceisio recriwtio na hyfforddi graddedigion ifanc i ddysgu. Mae Caerdydd hefyd yn cefnogi ystod eang o gyfleoedd arweinyddiaeth a datblygu i'r staff dysgu presennol.

Mae sicrhau llywodraethwyr ysgol o safon uchel a lleihau'r gyfran o lefydd gwag i lywodraethwyr yn flaenoriaeth. Cafodd recriwtio llywodraethwyr ei gryfhau trwy bartneriaethau Ymrwymiad Caerdydd.

**Nod 3: Cynnig amgylcheddau dysgu sy'n ysbrydoli ac sy'n addas i'r 21ain Ganrif**
Buddsoddwyd yn sylweddol yn natblygiad y stad addysg yng Nghaerdydd fel rhan o gyfnod Band A o Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru sydd yn werth £164 miliwn. Bydd Band A yn cyflwyno dwy Ysgol Uwchradd newydd: Ysgol Uwchradd y Dwyrain - a agorodd ym Medi 2017 mewn partneriaeth â Choleg Caerdydd a'r Fro ac Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd - a fydd yn agor yng ngwanwyn 2019, yn ogystal â chwe ysgol gynradd newydd.

Yn Rhagfyr 2017, cymeradwyodd Llywodraeth Cymru mewn egwyddor swm cyffredinol y rhaglen o £284 miliwn am gyfnod Band B Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif h, gyda hanner yn cael ei gyllido gan Lywodraeth Cymru a hanner gan y Cyngor. Dilynodd adroddiad gyda manylion cynlluniau Band B, a chafodd hwn ei gymeradwyo gan y Cabinet. Mae'r cynigion yn cynnwys pedwar lleoliad i wella ac ymestyn darpariaeth i ddisgyblion ag AAA.

Trwy'r Cynllun Datblygu Lleol, bydd buddsoddiad o £150m mewn adeiladau ysgolion newydd o gwmpas y safleoedd tai strategol mawr. Mae'r Cyngor hefyd yn defnyddio grantiau Llywodraeth Cymru i ymestyn mwy ar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg trwy'r Grant Addysg Gymraeg, a lleihau maint dosbarthiadau babanod. Mae Caerdydd hefyd yn gweithredu'r cynnig gofal plant 30 awr i rieni plant 3 a 4 oed sy'n gweithio yng Nghaerdydd.

Fodd bynnag, mae cryn dipyn o waith yn dal wedi cronni, ac y mae llawer o ysgolion yn dioddef o ddiffyg buddsoddiad ers amser. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i £25m yn ychwanegol dros y pedair blynedd nesaf i wella ansawdd cyffredinol y stad ysgolion.

**Nod 4: Cyflwyno system ysgolion sy'n gwella ei hunan, gan ffurfio partneriaethau cryf a deinamig rhwng ysgolion yn y rhanbarth**
Mae gallu ysgolion i arwain a chefnogi eu gwelliant eu hunain yn cynyddu, fel y gwelir o well arolygon Estyn a deilliannau categoreiddio. Mae nifer yr ysgolion 'Gwyrdd' wedi cynyddu'n sylweddol i 67 yn Ionawr 2018, o gymharu â 48 yn Ionawr 2017.

Mae ysgolion Caerdydd yn gweithio tuag at ddatblygu a gweithredu'r cwricwlwm newydd i Gymru, sy'n deillio o Adroddiad Dyfodol Disglair. Mae'r gwaith hwn yn rhoi cyfleoedd sylweddol, ond heriau gwirioneddol hefyd i bawb sy'n gweithio mewn ysgolion, a phawb sydd â diddordeb mewn sicrhau rhagoriaeth yn ein system addysg. Mae 16 o ysgolion Caerdydd yn ymwneud â rhwydwaith Arloeswyr Llywodraeth Cymru i ffurfio'r cwricwlwm newydd.

**Nod 5 – Sicrhau bod ysgolion yn cysylltu â'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu, gan gynnwys plant a phobl ifanc, rhieni, busnes, diwylliant, y trydydd sector, chwaraeon a gwasanaethau cyhoeddus**
Mae ysgolion a lleoliadau addysg eraill wedi parhau i ddatblygu cysylltiadau cryfion â'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu a phartneriaid yn y ddinas. Mae rhai partneriaethau allweddol wedi parhau i ddatblygu, gan gynnwys:

**Ymrwymiad Caerdydd**
Mae'r canolbwynt cryfach ar y trosi rhwng addysg a gwaith trwy Ymrwymiad Caerdydd yn cael effaith cadarnhaol. Mae dros 200 o fusnesau yn ymwneud ar hyn o bryd â'r fenter a chynigiodd 120 addewid i gefnogi ysgolion a phobl ifanc.

Yn 2017, gostyngodd y gyfran o bobl ifanc heb fod mewn addysg, gwaith neu hyfforddiant (HAGH) i 1.6% (50 o bobl ifanc), yn unol â'r cyfartaledd Cymreig:

| Awdurdod Addysg Leol (%) | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 |
|---|---|---|---|---|---|
| Caerdydd | 4.9 | 4.3 | 4.5 | 3.0 | 1.6 |
| Cymru | 3.7 | 3.1 | 2.8 | 2.0 | 1.6 |

Mae'r rhaglen Prentisiaethau Iau, a lansiwyd ym Medi 2016 mewn partneriaeth â Choleg Caerdydd a'r Fro, wedi llwyddo i gynnig rhaglen ddysgu lawn-amser sy'n canolbwyntio ar yrfaoedd i nifer dethol o fyfyrwyr 14–16 oed yng Nghaerdydd. Enillodd y rhaglen wobr Beacon am Addysg a Hyfforddiant Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 ym Mai 2018, ac y mae'n cael ei gyflwyno ledled Cymru.

**Rhaglen y Ddinas Gyfeillgar i Blant**
Caerdydd yw un o'r pum dinas yn y DU i fod yn datblygu, mewn partneriaeth ag UNICEF UK, fel 'Dinas Gyfeillgar i Blant'. Mae hyn yn golygu ein bod yn gosod hawliau plant a phobl ifanc wrth graidd ein polisïau a'n strategaethau, ac yr ydym yn ymrwymo i ymdrin â rhwystrau sy'n cyfyngu ar eu bywydau.

**Partneriaeth Addysg Greadigol**
Mae Partneriaeth Addysg Greadigol Caerdydd wedi cynnal momentwm, gan elwa ar gryfder "economi greadigol" y ddinas. Yn ychwanegol at weithgaredd partneriaeth trwy'r ysgol canfod llwybr (Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd), mae'r Bartneriaeth Addysg Greadigol yn datblygu model i ymestyn a chyfoethogi cysylltiadau gydag ysgolion.

**Crynodeb o'n Perfformiad**
Gwnaed cryn gynnydd i weithio tuag at nod Caerdydd 2020. Fodd bynnag, mae Adroddiad Perfformiad Blynyddol Ysgolion (Ionawr 2018) a'n hunanwerthusiad ein hunain wedi amlygu pwysigrwydd gweithredu penodol yng nghyswllt y canlynol:

**Parhau i wella safonau yng Nghaerdydd**
Mae'r cynnydd yn erbyn mwyafrif y dangosyddion yn dda. Fodd bynnag, mae rhai meysydd allweddol lle mae angen gwelliant pellach:
- Mae perfformiad yn nhrothwy Lefel 1 yn 93.2% (5 TGAU A*-G), sydd
- yn is na'r cyfartaledd Cymreig o 94%
- Gwella deilliannau i grwpiau penodol, gan gynnwys disgyblion AAAWY (A Addysgir Ar Wahân i'r Ysgol) a Phlant sy'n Derbyn Gofal
- Cau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng disgyblion sy'n gymwys a heb fod yn gymwys am brydau ysgol am ddim

**Digonoldeb ac Addasrwydd y Stad Ysgolion**
Gwnaed cynnydd da trwy gyflwyno cynlluniau Band A a gweithio tuag at gyflwyno Band B, gan gynnwys Ysgolion Cyfrwng Saesneg, Ffydd, Cyfrwng Cymraeg ac Arbennig. Fodd bynnag, mae gormod o adeiladau yn dioddef o ddiffyg buddsoddi ers tro byd.
Yr ydym wedi asesu'r Amcan Lles hwn fel un sy'n gwneud cynnydd **da.**

## 1.2 Bydd plant sy'n derbyn gofal yng Nghaerdydd yn cyrraedd eu potensial


**Beth ddywedasom y buasem yn wneud**
Mae Cyngor Caerdydd eisiau parhau â'r weledigaeth ar y cyd gyda Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro i weithio ynghyd i sicrhau'r deilliannau gorau oll i blant sy'n derbyn gofal neu sydd wedi gadael gofal, fel y gallant fod yn hapus a byw bywydau llawn

| Dangosydd Perfformiad | Canlyniad 2016-17 | Canlyniad 2017-18 (Blwyddyn Academaidd 2016-17) | Targed 2017-18 | Ydym ni wedi gwella? |
|---|---|---|---|---|
| % o blant sy'n derbyn gofal a ddychwelodd adref o ofal yn ystod y flwyddyn | 11.6% | 8.7% | 12.0% | Na |
| % presenoldeb disgyblion sy'n derbyn gofal tra'u bod mewn ysgolion cynradd | 96.9% | 96.6% | 98% | Na |
| % presenoldeb disgyblion sy'n derbyn gofal tra'u bod mewn ysgolion uwchradd | 94.5% | 95.4% | 93% | Ydym |
| % o blant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth a gafodd 3 neu fwy o leoliadau yn ystod y flwyddyn | 10.9% | 9.04% | 9% | Ydym |
| % o blant sy'n derbyn gofal a newidiodd ysgol unwaith neu'n amlach ac nid oherwydd trefniadau trosiannol | 13.3% | 9.7% | 9% | Ydym |
| % o blant sy'n derbyn gofal yn cyrraedd y Dangosydd Pwnc Craidd ar ddiwedd CA2 | 70.4% | 77% | 73% | Ydym |
| % o blant sy'n derbyn gofal yn cyrraedd trothwy Lefel 1 (5 TGAU A* - G) ar ddiwedd CA4 | Ddim yn gymwys | 36% | Nid yw'r targedau bellach yn ddilys oherwydd newidiadau yn y fframwaith asesu | Ddim yn gymwys |
| % o blant sy'n derbyn gofal yn cyrraedd trothwy Lefel 2 (5 TGAU ar raddau A*- C) ar ddiwedd CA4 | Ddim yn gymwys | 11% | Nid yw'r targedau bellach yn ddilys oherwydd newidiadau yn y fframwaith asesu | Ddim yn gymwys |
| % o blant sy'n derbyn gofal yn cyrraedd trothwy Lefel 2 + (5 TGAU ar raddau A*- C g.g. Saesneg / Cymraeg iaith gyntaf a Mathemateg) ar ddiwedd CA4 | Ddim yn gymwys | 0% | Nid yw'r targedau bellach yn ddilys oherwydd newidiadau yn y fframwaith asesu | Ddim yn gymwys |
| % o adawyr gofal mewn addysg, hyfforddiant neu waith 12 mis wedi gadael gofal | 58.5% | 49.4% | 60% | Na |
| % o adawyr gofal mewn addysg, hyfforddiant neu waith 24 mis wedi gadael gofal | 38.2% | 48.2% | 40% | Ydym |

**Cynnydd yn 2017-18**
Mae 73,994 o blant a phobl ifanc 0-17 oed yng Nghaerdydd ac o'r rhain mae 2,787 yn derbyn cefnogaeth gan y Gwasanaethau Plant.

Yn ystod y flwyddyn, mae nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi parhau i gynyddu i 830 o 721 ar 31 Mawrth 2017. O ganlyniad i hyn, yr ydym wedi lansio Gwasanaeth Adfyfyrio rhanbarthol fydd yn cynnal gwaith yn canolbwyntio ar fenywod sydd ag un neu fwy o blant wedi eu cymryd o'u gofal dros y tair blynedd diwethaf; cydnabyddir y cymer beth amser i'r fenter hon gael effaith. Dengys data a ddarparwyd trwy ein cyfranogiad yn Rhwydwaith Dinasoedd Craidd Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Plant y DU fod cyfraddau plant sy'n derbyn gofal yn broblem genedlaethol ac nad yw Caerdydd yn eithriadol o ran cyfraddau plant sy'n derbyn gofal.

Dadansoddiad o Leoliadau ar 31 Mawrth 2018




Cynhaliodd y Cyngor ddadansoddiad o blant sy'n derbyn gofal mewn lleoliadau allan o'r ardal a dangosodd canlyniadau hyn fod plant wedi eu lleoli yn briodol. Mae gwaith wedi parhau i ddychwelyd plant sy'n derbyn gofal i Gaerdydd lle bo hyn yn briodol a dychwelyd 15 o bobl ifanc i Gaerdydd yn ystod y flwyddyn. Ymhellach, aeth y gwaith gyda darparwyr annibynnol i ddod a chartrefi plant preswyl newydd i Gaerdydd rhagddo, ac yn ystod y flwyddyn, agorwyd dau gartref 3-gwely newydd.

Ym mis Gorffennaf 2017, derbyniodd y Cyngor arolwg cadarnhaol gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ar Gartref Plant Crosslands, a ddaeth i'r casgliad fod *'pobl ifanc yn ddiogel, yn hyderus ac yn ymwneud â gweithgareddau a dulliau o fyw cadarnhaol'*

**Ymwneud â phobl ifanc**
Mae **'Eich Bywyd, Eich Gofal'** yn cynrychioli barn plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal 4-18 oed yng Nghaerdydd, a chwblhaodd 255 o blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yng Nghaerdydd yr arolwg. Ymysg rhai o ganfyddiadau allweddol yr arolwg mae:


- Yr oedd 77% o blant (8-11 oed) yn teimlo bod eu bywydau yn gwella
- Yr oedd pobl ifanc (11-18 oed) yn hoffi'r ysgol gymaint (75%) a phobl ifanc eraill sy'n byw yng Nghaerdydd
- Yr oedd 75% o'r oedran 11-18 yn hoffi'r ysgol neu'r coleg 'yn fawr' neu 'ychydig', o gymharu â 73% o bobl ifanc ym mhoblogaeth Cymru a 71% o bobl ifanc sy'n derbyn gofal yn awdurdodau eraill Cymru
- Yr oedd 98% o blant (8-11oed) a 90% o bobl ifanc 11-18 oed yn teimlo fod ganddynt oedolyn y gallent ymddiried ynddo yn eu bywydau
- Yr oedd mwyafrif (94%) y plant a'r bobl ifanc (4-18 oed) yn cael hwyl ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau y tu allan i'r ysgol

**Cyrhaeddiad Addysgol**

- 77% yw cyfran yr holl blant sy'n derbyn gofal gan Gyngor Caerdydd sydd yn cyrraedd y Dangosydd Pwnc Craidd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2%; mae hyn yn gynnydd o 6.7% o gymharu â 2015-16 ac y mae'n uwch na chyfartaledd Cymru o 66%
- 78% yw cyfran y plant sy'n derbyn gofal sydd yn cael eu haddysgu mewn ysgol yng Nghaerdydd school a gyrhaeddodd y Dangosydd Pwnc Craidd – cynnydd o 10% o gymharu â 2015-16
- Mae canran y plant sy'n derbyn gofal a newidiodd ysgol unwaith neu yn amlach wedi gwella i 10% yn 2017-18 o 13.3% yn 2016-17

Yn ystod y flwyddyn, helpodd y Cyngor i gefnogi gadawyr gofal i addysg bellach trwy ddarparu cyfarpar gan grant Gŵyl Dewi, ac o ganlyniad, aeth 23 o adawyr gofal i addysg uwch yn ystod 2017-18. Mae canran yr holl adawyr gofal sydd yn dal mewn addysg, gwaith neu hyfforddiant 24 mis ar ôl gadael gofal wedi gwella i 48.2% yn 2017-18 o 38.2% yn 2016-17.

Oedolion ifanc yn dweud eu bod wedi derbyn cyngor, help a chefnogaeth i'w paratoi am fywyd fel oedolion




Bu'r Cyngor hefyd yn **ymwneud â phobl ifanc** yng nghyswllt y **cynllun hyfforddeion Cychwyn Disglair**, oedd yn cynnwys:

- Gweithdai CV a chwilio am waith mewn partneriaeth â'r Tîm I Mewn i Waith
- Gweithdai Dyhead
- Cefnogwyd dau o bobl ifanc i gymryd rhan yng nghynllun gwella gwasanaeth Traw Perffaith y Cyngor
- Gweithdai creadigol "Cacennau a Gwneud" mewn partneriaeth ag entrepreneuriaid benywaidd
- Sefydlwyd clwb llyfrau gadawyr gofal

O ganlyniad, cychwynnodd 27 o bobl ifanc ar leoliad hyfforddi yn ystod y flwyddyn ac y mae dau o bobl ifanc wedi derbyn gwaith fel hyfforddeion taledig. Amlygwyd y cynllun hefyd fel maes arfer da gan ESTYN.

### Astudiaeth Achos – Cynllun Hyfforddi Cychwyn Disglair

Dechreuodd R, menyw 20 oed sydd wedi gadael gofal, fel hyfforddi Cychwyn Disglair cyn dod yn brentis garddwriaethol.

*"Rwyf yn wastad wedi bod eisiau gweithio, a phan ddes i'r parciau, roeddwn yn ffitio i mewn. Mae'n waith caled ond rwy'n ei fwynhau ac yn dod ymlaen yn dda gyda'r tîm – rydym yn cael hwyl."*

Gwnaeth y Cyngor yn well i helpu **pobl ifanc** i gyrraedd eu potensial trwy wella ymwneud ag addysg, hyfforddiant a gwaith o 1.2 awr yr wythnos i bobl ifanc oedran ysgol statudol, a 2.9 awr yr wythnos i bobl ifanc dros oedran ysgol statudol, trwy gydol eu hymwneud â'r Gwasanaeth Troseddu Ieuenctid.

**Crynodeb o'n Perfformiad**
Er bod rhaglen o waith ar gael rhwng y Cyngor a phartneriaid trwy'r Strategaeth Rheini Corfforaethol, parhau i gynyddu wnaeth nifer y plant sy'n derbyn gofal i 830 o 721 ar 31 Mawrth 2017.

Ar waethaf gwelliannau mewn cyrhaeddiad addysgol i'r plant yn ein gofal, dywed y dystiolaeth wrthym fod deilliannau i'r rhai sy'n dod i mewn i'r system gofal yn rhy isel, a bod yr effaith yn cael ei deimlo trwy gydol bywyd y plentyn ac ar draws gwasanaethau cyhoeddus y ddinas. Ni lwyddodd yr un plentyn sy'n derbyn gofal i gael 5 TGAU a raddau A*-C ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4.  Ymhellach, mae'r cynnydd yng nghanran y gadawyr gofal 16-24oed fu'n ddigartref yn ystod y flwyddyn yn achos pryder.

Bydd gwella deilliannau i blant mewn gofal, a rheoli'r galw trwy ganolbwyntio ar waith ataliol amlasiantaethol gyda phlant a theuluoedd bregus yn flaenoriaeth am y flwyddyn o'n blaenau. Bydd hyn yn cynnwys:

- Gwreiddio'r Strategaeth Rheini Corfforaethol ar draws y Cyngor a'i bartneriaid
- Cynyddu'r gallu i gomisiynu a darparu lleoliadau cost-effeithiol o ansawdd uchel yn ardal Caerdydd, gan leihau'r angen i leoli plant sy'n derbyn gofal allan o'r ardal
- Gwella cyrhaeddiad ac effeithiolrwydd cefnogaeth i adawyr gofal trwy gryfhau'r Cynllun Hyfforddi Cychwyn Disglair.
- Cyfoethogi "Cymorth Cynnar" i gefnogi plant a theuluoedd cyn y bydd eu hanghenion yn cynyddu i'r pwynt pryd y bydd angen ymyriadau statudol, trwy gytuno ar Strategaeth Cymorth Cynnar / Ataliol o'r newydd, peilotio agwedd 'Plant yn Gyntaf' i uno gwasanaethau ataliol amlasiantaethol, gyda chyfleoedd i ddefnyddio ffrydiau grant yn fwy effeithiol dan drefniadau "Hyblygrwydd Cyllido".

Rydym wedi asesu'r amcan lles hwn fel un sy'n gwneud cynnydd **boddhaol**

# 1.3 Cefnogi pobl i waith ac addysg

**Beth ddywedasom y buasem yn wneud**
Mae Cyngor Caerdydd eisiau parhau i gyflwyno'r gwasanaeth Addysg Oedolion yn y Gymuned trwy gydweithrediad â Phartneriaeth Dysgu Cymunedol Coleg Caerdydd a'r Fro i gefnogi dinasyddion Caerdydd i gyrraedd eu dyheadau dysgu. Fel rhan o'r gwasanaeth I Mewn i Waith, mae'r Cyngor eisiau ehangu cynhwysiant digidol mewn cymunedau i helpu pobl i 'fynd ar-lein', i helpu gyda pharatoadau ar gyfer cyflwyno Credyd Cynhwysol.

| Dangosydd Perfformiad | Canlyniad 2016-17 | Canlyniad 2017-18 | Targed 2017-18 | Ydym ni wedi gwella? |
|---|---|---|---|---|
| Nifer y bobl sy'n derbyn cyngor I Mewn i Waith | 42,579 | 42,371 | 41,000 | Na |
| Nifer y bobl sy'n ymwneud yn llwyddiannus â'r Gwasanaeth Cyngor i Mewn i Waith ac yn cwblhau hyfforddiant achrededig | 1393 | 1,392 | 1,200 | Cynhaliwyd |
| Nifer y bobl y mae'r Cap Budd-daliadau wedi effeithio arnynt ac sy'n ymwneud â'r Gwasanaeth Cyngor i Mewn i Waith | Dangosydd Newydd | 294 | 150 | Dangosydd Newydd |
| Nifer y cwsmeriaid Gwasanaeth Cyngor i Mewn i Waith a gefnogwyd gyda hawlio Credyd Cynhwysol | 472 | 679 | 600 | Ydym |
| Cynnal y gyfradd llwyddiant ar y Cymharydd Cenedlaethol Addysg Oedolion yn y Gymuned neu'n uwch na hynny | 94% | 92% | 90% | Na |
| Cyfradd ymrestru ar Addysg Oedolion yn y Gymuned i ddysgwyr o fewn Degraddau Amddifadedd 1 a 2 | 45% | 53.61% | 45% | Ydym |

**Cynnydd yn 2017-18**
**Addysg Oedolion yn y Gymuned**

Cadarnhawyd y canlyniad a ddilyswyd am y flwyddyn academaidd 2016-17 fel cyfradd llwyddiant o a 92% o ddysgwyr academaidd yn cwblhau cyrsiau trwy Addysg Oedolion yn y Gymuned ac y mae'n well na'r targed a osodwyd o 90%. Yr arwyddion yw y bydd y gyfradd llwyddiant am 2017-18, nas dilyswyd eto ac na fydd ar gael tan Hydref 2018, yn cyfateb i lwyddiant y flwyddyn flaenorol ar 92%.

Adnewyddwyd marc cymeradwyaeth Dysgu Cymunedol fel canolfan ddyfarnu gydnabyddedig Agored Cymru (yn Heol Hafren), yn dilyn ymweliad Sicrhau Ansawdd Allanol llwyddiannus iawn ym mis Chwefror. Mae'r gwelliannau cyson yn ansawdd yn yr achrediad a ddarperir gan AOG ac a gydnabuwyd yn yr adroddiad wedi cyfrannu at y gyfradd llwyddiant achredu o 94%, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Cynhaliwyd chwech o ddigwyddiadau Addysg Oedolion yn y Gymuned (AOG) mewn wythnos, o 9-15 Medi 2017 mewn nifer o leoliadau ar draws y ddinas, gan gynnwys Hwb y Llyfrgell Ganolog, Canolfan Addysg Llaneirwg a Hwb Trelái. Cafwyd cyfanswm o **397 yn ymrestru** yn ystod yr wythnos, sef **cynnydd mewn ymrestriadau o 50%** o gymharu â'r un amser llynedd.

Daeth 47% o'r ymrestriadau o ardaloedd mwyaf difreintiedig y ddinas (y ddau ddegradd isaf).
Cafwyd ymgyrch i gynyddu nifer y dysgwyr y rhoddir blaenoriaeth iddynt yn oedrannau 16-18 a 19-25 trwy weithio ar y cyd ar draws Addysg Oedolion yn y Gymuned, I Mewn i Waith, y Gwasanaeth Ieuenctid a phartneriaid. Cynhaliwyd pedwar digwyddiad ymwneud ar hyd a lled Caerdydd (yr wythnos yn cychwyn 11 Rhagfyr) i recriwtio dysgwyr ar gyfer rhaglen Tymor 2. **Cofrestrodd 471** yn ystod yr wythnos gyda 48% o'r dysgwyr yn dod o'r ddau ddegradd amddifadedd isaf yn y ddinas, 29% o ddegradd 1 a 19% o ddegradd 2.

Gweithiodd y Cyngor gyda Gofal Hafod i gyflwyno **'cwrs paratoi i ofalu'** cyn cyfweliadau gwarantedig. Cwblhaodd wyth unigolyn yr hyfforddiant ac wedi hyn cynigiwyd profiad gwaith iddynt gyda Hafod ar draws amrywiaeth o gyfleusterau gofal. Yn yr un modd, gweithiodd y tîm gyda Thafarnau Stonegate i ddarparu llawer o hyfforddiant mewn gwasanaeth cwsmer a chroesawu. Gorffennodd pum unigolyn y rhaglen, a chynigiwyd cyfweliadau i dri unigolyn.

Mae cyswllt gyda swyddogion **ymwneud ysgolion** wedi caniatáu i AOG gynllunio ar gyfer darparu i rieni mewn 14 ysgol yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Caerdydd. Mae dau gwrs mewn Ennyn Hyder, Gwasanaeth Cwsmer, Cyllidebu a Bwyta'n Iach ar y gweill i bobl 16 - 25 oed, gan weithio mewn partneriaeth a Chymunedau am Waith.

Mae AOG wedi parhau i gyflwyno cyrsiau unswydd i **oedolion gyda phrofiad o broblemau iechyd meddwl, anableddau dysgu** neu **anableddau corfforol** yn Nhŷ Tresilian, hosteli Huggard, Tai Taf a Chanolfan Ddydd Four Winds. Enwebwyd unigolion sydd wedi goresgyn anawsterau sylweddol ar gyfer **Gwobrau Ysbrydoli**.

**Gwasanaethau i Mewn i Waith**

Ym Medi 2017 yr oedd 139 o gleientiaid yn gweithio gyda'r tîm I Mewn i Waith i'w cefnogi yn ôl i waith.

- Ers Tachwedd 2016, cafodd 116 o gleientiaid eu helpu i mewn i waith, sy'n golygu nad yw'r Cap Budd-daliadau bellach yn effeithio arnynt
- Derbyniodd 535 o gleientiaid gefnogaeth cyllidebu
- Cafodd 120 hyfforddiant achrededig

Cychwynnwyd cyflwyno Credyd Cynhwysol yng Nghaerdydd ar 28 Chwefror.

Mae hyfforddiant ar Gredyd Cynhwysol wedi ei sefydlu mewn 7 Hwb ar draws y ddinas ac fe'i bwriadwyd i roi i'r cleientiaid y **sgiliau digidol** y mae arnynt eu hangen i hawlio Credyd Cynhwysol.

Cynhaliwyd **DigiFest** ar 9 Medi yn Hwb y Llyfrgell Ganolog lle gweithiodd AOG a Llyfrgelloedd ynghyd i hybu'r amrywiaeth helaeth o wasanaethau ac adnoddau digidol a gynigir gan y naill wasanaeth a'r llall.

Cyflogwyd ymgynghorwyr **Cap** Budd-daliadau'i i roi help a chyngor am ddychwelyd i waith i'r rhai y mae'r Cap Budd-daliadau wedi effeithio arnynt. Mae'r **Cynllun Yn ôl i Waith** wedi'r Cap Budd-daliadau wedi ymwneud â 297 o gleientiaid trwy gydol y flwyddyn gyda 115 o gleientiaid yn llwyddo i gael gwaith trwy'r cynllun. Mae'r tîm yn parhau i sicrhau cyllid allanol er mwyn darparu cefnogaeth fwy dwys i'r sawl sy'n chwilio am waith.

Mae'r Gwasanaeth Cyngor ar Waith wedi parhau i weithio gyda nifer o gyflogwyr, gan gynnwys Stradivarius, siop newydd yn Newi Sant 2. Fe wnaethant gynnwys cyfweliadau gwarantedig i unigolion fu ar hyfforddiant y Gwasanaeth Cyngor ar Waith.

Mewn partneriaeth â Chanolfan Byd Gwaith, croesawodd y Gwasanaeth i mewn i Waith **Ffair Swyddi Fawr Caerdydd**.

- Daeth bron i 2,250 o geiswyr swyddi i'r digwyddiad, cynnydd ers llynedd
- Bu 45 o fusnesau yno
- Yr oedd dros 6,000 o swyddi go-iawn yn cael eu cynnig

Yr oedd cyflogwyr yn cynnwys **Marks & Spencer, Heddlu De Cymru, Legal & General, Admiral a Lidl**, gan ddangos nifer eang o gyfleoedd gwaith mewn amrywiaeth o sectorau gwahanol. Yr oedd Addysg Oedolion yn y Gymuned Cyngor Caerdydd, Hyfforddiant Corfforaethol, yr Asiantaeth Faethu, Gwasanaethau Cymdeithasol a Chaerdydd yn Gweithio oll yn hybu cyfleoedd yn yr awdurdod lleol.

Enillodd gwirfoddolwyr Hwb y Cyngor wobr CGGC (Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru) am **Wirfoddolwr y Flwyddyn** yn y categori digidol am eu gwaith yn helpu cwsmeriaid yn 12 hwb cymunedol y ddinas. Ers Ebrill 2014, rhoddwyd bron i 5,000 o oriau o wirfoddoli gan 268 o wirfoddolwyr yn ein hybiau ac y mae'r Cyngor yn ddiolchgar am eu hamser a'u hymrwymiad wrth helpu i redeg ei wasanaethau.

**Agwedd Newydd at Wasanaethau Cyflogadwyedd**
Mae gwaith wedi cychwyn ar ddatblygu agwedd newydd at Wasanaethau Cyflogadwyedd yng Nghaerdydd gyda'r nod o ymdrin â rhai o'r problemau presennol. Gyda thros 30 o wasanaethau cyflogaeth, oll gyda'u meini prawf cymhwyster, gan fod yn anodd i unigolion eu deall. Hefyd, does dim llwybr clir at y gwasanaethau ac nid yw anghenion y defnyddwyr gwasanaeth yn amlwg.

Dengys cyfanswm nifer y rhai a ymrestrodd hyd yma ar gyfer y Rhaglen Dysgu am Waith (DW) gynnydd o 27% yn erbyn y flwyddyn flaenorol. Rhedwyd dau gwrs ychwanegol mewn partneriaeth â Bws Caerdydd a Chanolfan Byd Gwaith, gydag wyth ymgeisydd llwyddiannus yn awr yn cael eu cyflogi fel gyrwyr. Mae'n edrych fel y bydd cyfradd llwyddiant y dysgwyr o'r Rhaglenni Dysgu am Waith yn gorffen ar 92%, sydd yn uwch na'r targed o 90%.

**Crynodeb o'n Perfformiad**
Mae'r Cyngor yn gweithio'n dda gyda phartneriaid i helpu i symud y rhwystrau y mae pobl yn eu hwynebu wrth gael swydd a'i chadw, gan ymuno â'n gwasanaethau I Mewn i Waith, ac ar yr un pryd gan gefnogi dinasyddion a theuluoedd y mae Diwygio Lles a chyflwyno Credyd Cynhwysol yn effeithio arnynt. Bydd bod yn effeithiol wrth gefnogi pobl y mae Diwygio Lles yn effeithio arnynt yn parhau yn flaenoriaeth i'r Cyngor dros y blynyddoedd i ddod, yn enwedig trwy integreiddio'r gwasanaethau cefnogi gwaith tameidiog presennol.

Yn frasach, mae'r dystiolaeth yn glir fod angen mwy o waith i gysylltu cymunedau mwyaf difreintiedig a datgysylltiedig y ddinas gyda'r swyddi, y twf a'r buddiannau economaidd a grëir yn economi'r ddinas.

Bydd Cyngor Caerdydd yn cefnogi'r sawl y mae Diwygio Lles yn effeithio arnynt ac yn helpu mwy o bobl i ddod o hyd i swyddi sy'n rhoi urddas a balchder iddynt trwy weithio gyda phartneriaid i ddatblygu mwy a chyflwyno agwedd integredig at wasanaethau I Mewn i Waith a thrwy ddarparu rhwydwaith o gyfleoedd gwirfoddoli.

Bydd y Cyngor hefyd yn rhoi gwell cefnogaeth i bobl i fynd i waith trwy integreiddio gwasanaethau cefnogi gwaith. Bydd hyn yn cynnwys:

- Datblygu porth newydd i waith a gwasanaethau mentora sy'n hygyrch ar draws y ddinas
- Gofalu bod Gwasanaethau Cyngor i Mewn i Waith ac Addysg Oedolion yn y Gymuned yn asio'n llawn gyda'r gwasanaeth cyflogadwyedd newydd
- Darparu ymwneud effeithiol i gyflogwyr a chymorth i hunangyflogaeth
- Hyrwyddo ac ymestyn cyfleoedd gwirfoddoli

Bydd y Cyngor hefyd yn sicrhau bod cefnogaeth ar gael i liniaru canlyniadau negyddol posib sy'n gysylltiedig â chyflwyno Credyd Cynhwysol erbyn:

- Darparu mynediad digidol a chymorth ledled y ddinas
- Gweithio gyda landlordiaid preifat i nodi sut y gall y Cyngor eu helpu gyda'r newid
- Gweithio with Chanolfan Byd Gwaith, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a phartneriaid eraill i wneud yn siŵr fod unigolion bregus yn cael y gefnogaeth gyllidebu y mae arnynt ei angen
- Datblygu llinell gymorth ffôn i gwsmeriaid

Rydym wedi asesu'r amcan lles hwn fel un sy'n gwneud cynnydd **da**.

# Blaenoriaeth 2:
# Cefnogi Pobl Fregus



## 2.1 Mae pobl mewn perygl yng Nghaerdydd yn cael eu

**Beth ddywedasom y buasem yn wneud**
Mae Cyngor Caerdydd eisiau parhau i gydweithredu gyda phartneriaid i warchod a diogelu unigolion sydd angen gofal a chefnogaeth rhag cael eu cam-drin ac esgeulustod neu unrhyw fath arall o niwed. Yr ydym yn cydnabod yr angen i ganolbwyntio ar ddatblygu amrywiaeth o wasanaethau mwy effeithiol i atal problemau rhag gwaethygu, a allai arwain at wahanu plant neu oedolion neu iddynt dderbyn gofal ymaith oddi wrth eu teuluoedd.

**Sut y gwnaethom ni fesur ein perfformiad?**

| Dangosydd Perfformiad | Canlyniad 2016-17 | Canlyniad 2017-18 | Targed 2017-18 | Ydym ni wedi gwella? |
|---|---|---|---|---|
| % o swyddi gwag gweithwyr cymdeithasol yn y Gwasanaethau Plant ar draws y gwasanaeth | 23.50% | 23.20% | 18% | Ydym |
| % o ail-gofrestriadau ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn ystod y flwyddyn | 3.9% | 4.2% | N/A | Na |
| % o blant a gefnogwyd i barhau i fyw yn eu teulu | 55.20% | 51% | 59% | Na |
| % o ymholiadau amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn 7 diwrnod gwaith | 98.0% | 97.9% | 99% | Na |
| % o staff y Cyngor yn cwblhau lefel 1 o'r NTF ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol | Dangosydd Newydd | 9.9% | 50.0% | Dangosydd Newydd |

**Cynnydd yn 2017-18**
Cafodd cwblhau datblygu gweledigaeth a strategaeth am Ddiogelu yng Nghaerdydd ei dargedu yn wreiddiol am 31 Mawrth 2018. Mae oedi cyn llenwi swyddi wedi golygu bod y cam hwn wedi ei ddwyn ymlaen i 2018-19. Mae cyfarfodydd perfformiad chwarterol yn cael eu cynnal i fonitro gwybodaeth am berfformiad yng nghyswllt diogelu oedolion.

**Cymunedau yn gyffredinol a chymunedau ffydd**
Dywed y cyfreithiau am hawliau plant, Deddfau Plant 1989 a 2004, a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn glir y dylid cymryd ethnigrwydd a chrefydd i ystyriaeth wrth ddarparu'r gefnogaeth a'r amddiffyniad i blant y mae ganddynt hawl iddynt. Gwnaeth y Cyngor waith gyda'r gymuned Fwslemaidd a chyhoeddwyd **'Diogelu ein plant: Canllaw i Ysgolion Mosg a Lleoliadau Astudiaethau Islamaidd'**. Mae gwaith wedi cychwyn hefyd gyda'r gymuned Fangladeshaidd yng Nghaerdydd i godi ymwybyddiaeth y gymuned am ddiogelu plant. Mae gwaith yn mynd rhagddo hefyd i gynnig cyngor, hyfforddiant ymwybyddiaeth sylfaenol a chefnogaeth i'r gwirfoddolwyr a gwasanaethau cefnogi i'r rhaglen o adsefydlu Syriaid.

**Ymelwa'n Rhywiol ar Blant**
Sefydlwyd Tîm Meddwl yn Ddiogel! o ymarferwyr ymyriad Ymelwa Rhywiol ar Blant (YRhB) arbenigol i weithio gyda phlant sydd yn y perygl mwyaf o YRhB i gynyddu eu dealltwriaeth o ymelwa, codi eu hymwybyddiaeth a'u cefnogi i gymryd rhan weithredol yn asesu risg a chynllunio diogelwch. Mae addysg cyfoedion mewn ysgolion wedi ei gwneud yn haws i blant sylweddoli pryd y mae eu cyfeillion mewn perygl o YRhB a/neu ymelwa gan eu cyfoedion a gwybod lle i fynd am help, a hyfforddwyd Llysgenhadon Meddwl yn Ddiogel! mewn 14 o ysgolion i gyflwyno addysg i gyfoedion. Mae gweithio ar y cyd gyda'r Tîm Meddwl yn Ddiogel! ac ysgolion wedi rhoi gwell dealltwriaeth i fechgyn o rym, rheoli, rhyw a'r gyfraith a'r ffordd orau i'w cadw eu hunain yn ddiogel.

**Diogelu**
O ran diogelu oedolion, cychwynnwyd datblygu Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan i Amddiffyn Plant ac oedolion gydag ymwneud Byrddau Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro yn natblygu'r gweithdrefnau.
Dechreuodd y gwasanaeth Cefnogaeth Trais Domestig a ail-gomisiynwyd ar waith yn ystod Chwarter 1 2018-19 ac y mae gwaith yn parhau gan gynnwys ymwneud a rhanddeiliaid a gwaith i edrych i mewn i'r dewisiadau posib am wasanaeth i ddioddefwyr gwryw.

Parhaodd y Cyngor ei waith yng nghyswllt Dinas Gyfeillgar i Dementia, gan gydnabod gyda'i randdeiliaid ar Grŵp Llywio Dementia Caerdydd a'r Fro fod dementia yn fater i bawb. Mae'r Grŵp Ffocws Dementia wedi parhau i gwrdd bob 6-8 wythnos i fwrw ymlaen â chefnogaeth i ddementia a gwaith cysylltiedig yng Ngogledd Caerdydd. Mae'r grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o Heddlu De Cymru, Gwasanaeth Tan ac Achub De Cymru, Hybiau a Llyfrgelloedd Caerdydd, a Gwasanaethau Byw yn Annibynnol. Datblygwyd cynllun gweithredu ar gyfer Gogledd Caerdydd, sy'n cysylltu'n uniongyrchol â chynllun Caerdydd Cyfeillgar i Dementia ledled y ddinas

**Recriwtio Gweithwyr Cymdeithasol**
Mae ymdrin â swyddi gweigion gweithwyr cymdeithasol yn parhau yn flaenoriaeth ac y mae gweithgaredd recriwtio wedi esgor ar rai canlyniadau cadarnhaol, a disgwylir i'r sefyllfa wella wrth i'r staff newydd ymgymryd â'u swyddi. Penodwyd rhai aelodau presennol o'r staff i swyddi a grëwyd o'r newydd, gan adael eu swyddi gwreiddiol yn wag. Mae hyn yn adlewyrchu cynnydd gyrfa a chadw'r staff presennol. Mae recriwtio, cadw a datblygu gweithlu parhaol gyda'r gwerthoedd, y sgiliau a'r profiad iawn yn parhau i fod yn un o'r prif heriau sy'n wynebu'r Cyngor.

**Crynodeb o'n Perfformiad**
Un o brif ddyletswyddau'r Cyngor yw diogelu pobl yng Nghaerdydd rhag pob math o gam-drin, esgeulustod a niwed. Yn ystod y flwyddyn gwnaed cynnydd da i weithredu mesurau i wrthweithio pob math o ymelwa ar blant ar draws y ddinas. Mae hyn wedi symud ymlaen o weithio gyda phlant yn benodol am ymelwa rhywiol, i ddatblygu'r model a'r broses gyda mathau eraill o ymelwa, a symud hyn ymlaen i faes oedolion. Dengys tystiolaeth nad yw ymelwa, ar ba bynnag ffurf, yn dod i ben pan fydd rhywun yn dod yn oedolyn, a rhaid i ddiogelu barhau ar gyfer pob oedran. Mae un maes datblygu yn ystod y flwyddyn wedi canolbwyntio ar agenda'r 'County Lines', lle gorfodir plant ac oedolion i'r diwylliant cyffuriau ar draws dinasoedd mawr y DU.

**Plant a Phobl Ifanc**
Erys heriau sylweddol o ran diogelu'r plant mwyaf bregus, gyda recriwtio a chadw gweithwyr cymdeithasol yn benodol yn her gyson o ran perfformiad i'r Cyngor.

Gyda nifer y plant a osodir mewn gofal yn parhau i godi, bydd agwedd ataliol amlasiantaethol, sydd yn sicrhau fod teuluoedd a phlant yn cael y gefnogaeth iawn, ar yr adeg iawn, ar yr adeg iawn, yn y ffordd iawn, yn flaenoriaeth ar gyfer 2018-19.

**Oedolion a Phobl Hŷn**
Bydd gwasanaethau'r Cyngor i bobl hŷn hefyd yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Yn 2017-18, diogelodd y Cyngor 3,333 o oedolion oedd yn derbyn gofal yn y cartref a 1,004 o oedolion mewn gofal preswyl/nyrsio trwy gynnal y gostyngiad yn nifer y darparwyr dan bryderon cynyddol. Mae'r gwasanaeth Byw yn Annibynnol hefyd wedi llwyddo i reoli'r galw yn effeithiol.

Fodd bynnag, erys diogelu a chefnogi pobl hŷn yn flaenoriaeth strategol i'r Cyngor a'i bartneriaid. Mae costau cyflwyno gofal cymdeithasol yn rhoi pwysau ychwanegol ar wasanaethau cyhoeddus,, gyda chynnydd o 50% yng nghostau cyflwyno gwasanaethau i bobl hŷn, o £21.3m i £31.9m, rhwng 2011 a 2016. Nid oes arwydd y bydd y pwysau hyn yn lleihau. Rhagwelir y bydd nifer y bobl hŷn hefyd yn codi'n sylweddol, gyda nifer y rhai dros 85 yn debyg o ddyblu, bron, erbyn 2030. Bydd gan rai pobl hŷn gyflyrau tymor-hir nac anghenion gofal cymhleth, sy'n golygu y bydd angen gwasanaethau cymunedol a gofal sylfaenol ychwanegol i gwrdd â'u hanghenion.

Mae consensws clir fod diogelu ar draws gwasanaethau Plant ac Oedolion yn awr yn newid ac yn esblygu'n gyson, gydag ymwybyddiaeth a'r angen am gefnogaeth i wahanol fathau o gam-drin a niwed yn her gyson i'r awdurdod. Nid yw cam-drin a niwed o raid wedi newid, ond mae disgwyliadau ehangach ledled cymdeithas wedi nodi'r angen i fynd ati i weithredu ar frys, lle na fyddai awdurdodau lleol o raid wedi gweld hyn fel rhan o'u swyddogaeth.

Rydym wedi asesu'r amcan lles hwn fel un sy'n gwneud cynnydd **boddhaol**.

# 2.2 Gall pobl yng Nghaerdydd gyrchu tai o ansawdd da

**Beth ddywedasom y buasem yn wneud**

Mae Cyngor Caerdydd eisiau parhau i gyflwyno cartrefi o ansawdd uchel, sy'n gynaliadwy ac yn fforddiadwy i'r sawl sydd fwyaf eu hangen. Bydd y Cyngor yn gweithio gyda landlordiaid ac asiantwyr i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'u hymrwymiadau cyfreithiol dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 ac yn gweithredu fel yr awdurdod trwyddedu am gynllun Rhentio Clyfar Cymru Llywodraeth Cymru. Mae gweithredu ar ddigartrefedd yn flaenoriaeth frys ac yr ydym eisiau gwneud yn sicr fod mesurau effeithiol ac effeithlon ar gael i gefnogi'r sawl sy'n ddigartref ac i helpu i atal pobl rhag dod yn ddigartref.

**Sut y gwnaethom ni fesur ein perfformiad?**

| Dangosydd Perfformiad | Canlyniad 2016-17 | Canlyniad 2017-18 | Targed 2017-18 | Ydym ni wedi gwella? |
|---|---|---|---|---|
| % tai fforddiadwy y cytunwyd i'w darparu yn y cyfnod cynllunio mewn datblygiad ar safleoedd tir glas | Dangosydd Newydd | 30% | **30%** | Dangosydd Newydd |
| % tai fforddiadwy y cytunwyd i'w darparu yn y cyfnod cynllunio mewn datblygiad ar safleoedd tir llwyd sites | Dangosydd Newydd | 34% | **20%** | Dangosydd Newydd |
| Nifer cartrefi y dechreuwyd arnynt ar safleoedd trwy Byw Caerdydd yn ystod y flwyddyn: Tai Cyngor | Dangosydd Newydd | 131 | **136** | Dangosydd Newydd |
| Nifer cartrefi y dechreuwyd arnynt ar safloedd trwy Byw Caerdydd yn ystod y flwyddyn: Pob cartref | Dangosydd Newydd | 337 | **353** | Dangosydd Newydd |
| % y bobl a gafodd ddeilliannau llwyddiannus trwy'r Gwasanaeth Ailgysylltu Digartrefedd | Dangosydd Newydd | 68.84% | **50%** | Dangosydd Newydd |
| Nifer cysgwyr allan a gafodd gymorth i gael llety | Dangosydd Newydd | 204 | **144** | Dangosydd Newydd |

**Cynnydd yn 2017-18**

## 1,000
## Tair cyngor erbyn 2020:
## Cwblhawyd hyd yma

| Llwybr Cyflwyno | Hyd yma | Targed |
|---|---|---|
| Adeiladu ychwaneg ol o'r newydd | | 400 |
| CARTREFI CAERDYDD CARDIFF LIVING — Byw Caerdydd | | 300 |
| Prynu'n ôl o'r farchnad agored | 15 | 100 |
| Pecynnau gyda datblygwyr | | 100 |
| Troi adeiladau yn dai cyngor | 8 | 50 |
| Defnydd tir yn y cyfamser | | 50 |
| CYFANSWM | 23 | 1000 |

Cychwynnodd y datblygwr cenedlaethol Wates Residential waith ar eu trydydd a phedwerydd safle yng Nghaerdydd fel rhan o raglen arweiniol y Cyngor o godi tai, Byw Caerdydd, partneriaeth ddeng mlynedd, a fydd yn y pen draw yn gweld datblygu 1,500 cartref ar 40 safle ar draws y ddinas.

Mae disgwyl i ddau safle, Tŷ To Maen yn Llaneirwg a Lôn Mount Pleasant yn Llanrhymni, gael eu cwblhau yn gynnar yn 2019 a byddant yn rhoi hwb sylweddol i'r **cartrefi fforddiadwy** sydd gan y ddinas i'w cynnig. Cyn rhyddhau lleiniau 'Captain's View', sydd yn cynnwys cartrefi dwy a dair ystafell wely, cawsant eu hysbysebu mewn digwyddiad gwybodaeth, a gynhaliwyd i ddenu prynwyr lleol, yng Nghanolfan Hamdden y Dwyrain yn Llanrhymni ar ddydd Gwener 23 Mawrth. Daeth mwy na 50 o bobl yno a chael cyfle i wneud apwyntiad gyda'r gwerthwr tai dynodedig ar gyfer y diwrnod canlynol. Llwyddodd wyth prynwr tro cyntaf i gadw llain, a bydd saith cartref yn cael eu prynu trwy **gynllun Help i Brynu** y Llywodraeth.

Ar safle Braunton a Clevedon, sydd i'w cwblhau y flwyddyn nesaf, yn cynnwys 106 o dai mewn daliadaeth gymysg, gan gynnwys 40 cartref fforddiadwy a 66 i'w gwerthu ar y farchnad. Cymeradwywyd pedwar safle datblygu pellach fel rhan o gyfnod cyntaf y rhaglen. Fel rhan o'r prosiect hwn, gwnaeth y Cyngor addewid ar y cyd i greu cyfleoedd gwaith a hyfforddiant i drigolion lleol. Hyd yma, mae gwaith Wates Residential ar Fyw Caerdydd wedi cynhyrchu **£237,000 mewn gwerth economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol** a chrëwyd **824 o wythnosau hyfforddiant a gwaith** i bobl yng Nghaerdydd.

Meddai Paul Nicholls, Rheolwr Gyfarwyddwr Wates Residential South: *"Mae Byw Caerdydd yn rhaglen drawsnewidiol o godi tai, ac y mae'n anrhydedd mawr i Wates Residential allu gweithio'n agos gyda'r Cyngor i adeiladu eiddo fydd yn gwella bywydau llawer iawn o bobl ledled y ddinas".*

Dengys canlyniadau Holi Caerdydd 2017 yn gyffredinol fod 63.1% o drigolion yn cytuno eu bod yn gallu cyrchu tai o ansawdd da Gwelwyd cyrchu tai o ansawdd da gan lawer fel y maen prawf pwysicaf wrth ymdrin â lles.

**Digartrefedd**

Mae Cyngor Caerdydd wedi parhau i helpu llawer o bobl yn y ddinas sydd yn cael eu hunain yn ddigartref gan ddefnyddio amrywiaeth o wahanol ddarpariaethau. Mae'r Cyngor wedi parhau i weithio gyda phartneriaid i gyflwyno'r **Strategaeth Cysgwyr Allan**, gan gynnwys mabwysiadu polisi 'Dim Noson Gyntaf Allan' a pheilotio agweddau newydd, gan gynnwys model 'Tai yn Gyntaf' sydd yn symud cysgwyr allan yn syth o'r strydoedd mi gartref parhaol. Dyma a ddarparwyd gan y Cyngor:

- 216 lle maen hostel i bobl sengl ddigartref
- 45 gwely brys
- 390 uned llety gyda chefnogaeth

Yn ystod misoedd y gaeaf yr oedd 86 o lefydd gwelyau argyfwng ychwanegol. Ymhellach, mae'r Cyngor wedi parhau i weithio gydag elusennau i'r digartref megis Huggard, Byddin yr Iachawdwriaeth, Wallich, a'r YMCA i ddarparu llety mewn hosteli, y daith frecwast, canolfan ddydd i'r digartref a gwasanaeth bws nos. Mae tîm Estyn Allan y Cyngor wedi parhau i weithio 7 diwrnod yr wythnos yn ystod y dydd a chyda'r nos i ymwneud â phobl sy'n cysgu allan neu mewn perygl o wneud hynny. Ers Ebrill 2017, helpwyd 175 o bobl i lety a oedd gynt yn cysgu allan.

**Crynodeb o'n Perfformiad**
Gwnaed cynnydd da o ran cyflwyno tai fforddiadwy, gyda'r ganran o dai fforddiadwy y cytunwyd arnynt yn y cyfnod cynllunio ar safleoedd tir glas a thir llwyd yn gwneud yn well na'r targedau a osodwyd. Ymhellach, erys Caerdydd yn un o'r ychydig gynghorau sydd wrthi'n codi tai fforddiadwy trwy gynlluniau arloesol megis Rhaglen Byw Caerdydd.

Fodd bynnag, Caerdydd o hyd yw un o'r dinasoedd lleiaf fforddiadwy o ran prynu tai ym Mhrydain, gyda phrisiau tai dros 7 gwaith yn fwy na'r cyflog cyfartalog. Mae dros 6000 o enwau ar y rhestr aros am dai cymdeithasol. Rhaid i dwf y ddinas a datblygu cymunedau newydd barhau i gyflwyno mwy a mwy o dai fforddiadwy, tra bod angen edrych i mewn hefyd i gyflwyno modelau cyflwyno a pherchenogaeth newydd ar gyfer tai fforddiadwy.

Er y cafwyd ymateb effeithiol, amlasiantaethol i'r cynnydd sydyn yn nifer y bobl sy'n cysgu allan ar strydoedd Caerdydd, mae'r niferoedd yn dal yn rhy uchel. Gyda bron i hanner y defnyddwyr gwasanaeth yn sôn am brofiad o ofal mewn sefydliadau, camddefnyddio sylweddau ac anghenion cymhleth eraill, bydd angen cydweithio dwys i gyflwyno atebion parhaol. Bydd angen ateb integredig ar draws gofal cymdeithasol, iechyd a thai, gan weithio gyda phartneriaid rhanbarthol y ddinas, yn ogystal ag ymdrin â'r problemau dibyniaeth cymhleth mae pob unigolyn yn wynebu.

Rhaid rhoi mwy o bwyslais hefyd ar integreiddio tai gyda gwasanaethau cyhoeddus eraill, yn bennaf trwy fabwysiadu agwedd ataliol gyda gofal cymdeithasol, iechyd a thai fydd yn rhoi'r ystod lawn o wasanaethau ataliol gyda'r nod o leihau pwysau galwadau poblogaeth sy'n heneiddio ac a fedr roi'r grym i bobl fyw yn annibynnol yn eu cartrefi.

Rydym wedi asesu'r amcan lles hwn fel un sy'n gwneud cynnydd **da**.

# 2.3 Cefnogir pobl yng Nghaerdydd i fyw yn annibynnol

### Beth ddywedasom y buasem yn wneud

Rydym eisiau helpu pobl i fyw yn annibynnol a datblygu'r sgiliau y mae arnynt eu hangen i fyw ar eu pennau eu hunain, gan eu cefnogi gydag addasiadau rhesymol i'w cartrefi a darparu mwy o wasanaethau ataliol.

Er mwyn cryfhau annibyniaeth unigol a gofal a chefnogaeth effeithiol, byddwn yn parhau i wneud yr isod:

- Hwyluso rhyddhau amserol a diogel o'r ysbyty fel y gall pobl aros gartref
- Adeiladu ar lwyddiant un pwynt cyswllt i unrhyw un sydd angen cefnogaeth
- Gofalu, adeg y pwynt cyswllt cyntaf, y gall y sawl sydd angen cefnogaeth gyrchu ystod o wasanaethau i sicrhau byw annibynnol
- Hwyluso gofalwyr ifanc i gyrchu llety da, cyfleoedd gwaith a mentora

### Sut y gwnaethom ni fesur ein perfformiad?


| Dangosydd Perfformiad | Canlyniad 2016-17 | Canlyniad 2017-18 | Targed 2017-18 | Ydym ni wedi gwella? |
|---|---|---|---|---|
| % o achosion newydd a driniwyd yn uniongyrchol yn y Pwynt Cyswllt Cyntaf heb gyfeirio ymlaen at Wasanaethau Oedolion | 62% | 73.08% | 65% | Ydym |
| Cyfanswm nifer yr atebion amgen a ddarparwyd gan Fyw Annibynnol a helpodd pobl i aros yn annibynnol yn eu cartrefi | Dangosydd Newydd | 6,551 | 3,900 | Dangosydd Newydd |
| % o bobl sydd yn teimlo eu bod wedi ail-gysylltu â'u cymuned, trwy ymyriad gan Gyfleoedd Dydd | Dangosydd Newydd | 77% | 60% | Dangosydd Newydd |
| % o gyfranogwyr treial technoleg Byw Gyda Chymorth sy'n meddwl bod y gwasanaeth yn eu helpu i aros yn eu cartrefi eu hunain | Dangosydd Newydd | 71% | 65% | Dangosydd Newydd |
| % o alwadau Teleofal a arweiniodd at alw ambiwlans out | 6% | 5% | <10% | Ydym |
| Cyfradd oedi cyn rhyddhau o ysbyty am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75 neu hŷn | 2.38 | 2.33 | 2.8 | Ydym |
| Nifer plant ac oedolion sydd angen gofal a chefnogaeth gan ddenfyddio'r cynllun Taliadau Uniongyrchol | 933 | 908 | 910 | Na |
| % oedolion cymwys sy'n gofalu am oedolion y cynigiwyd Asesiad Gofalwyr iddynt yn ystod y flwyddyn | 79.5% | 87.2% | 90% | Ydym |
| % o adawyr gofal 16-24 oed a fu'n ddigartref yn ystod y flwyddyn * | 17.3% | 21.0% | 10% | No |

** Mewn dadansoddiad manylach o'r 69 achos o adawyr gofal a fu'n ddigartref yn ystod y flwyddyn, mae 27 ar denantiaeth hyfforddi a 29 yn byw gyda chyfeillion neu deulu heb denantiaeth. Gall y 69 achos gynnwys yr un plentyn fwy nac unwaith os gwnaethant brofi mwy nac un math o ddigartrefedd yn ystod y flwyddyn.*


### Cynnydd yn 2017-18

Mae **Pwynt Cyswllt Cyntaf** y Gwasanaethau Byw Annibynnol (GBA) ar gyfer Gwasanaethau Oedolion wedi parhau i ganolbwyntio ar gryfderau dinasyddion i'w helpu i gyrraedd eu deilliannau, ac yn 70% o'r achosion, gall y GBA ddod o hyd i ateb arall fel na fydd angen cyfeirio ymlaen at y Gwasanaethau Cymdeithasol. Tîm holistig yw'r GBA sydd yn cynnwys Therapyddion Galwedigaethol, Cyfleoedd Dydd, Teleofal, Pryd ar Glud, Gwasanaeth Ymweld a Gwasanaeth Cyfarpar Byw Annibynnol. Yn ystod 2017-18, ymestynnwyd swyddogaeth y rheolwyr timau Gwaith Cymdeithasol yn y Pwynt Cyswllt Cyntaf (PCC) i gynnwys Ysbyty Prifysgol Llandochau (YBLl) ac Ysbyty Athrofaol Cymru (YAC), gan ddarparu agwedd gyson ar gyfer dinasyddion sy'n cyrchu Gwasanaethau Oedolion.

Pobl sy'n fodlon gyda'r gofal a'r gefnogaeth a wnaethant dderbyn




Pobl yn dweud y cawsant eu trin ag urddas a pharch





**Canolfan Derbyn Larwm**

Gweithiodd y Ganolfan Derbyn Larwm (CDL) ar y cyd â Bwrdd Iechyd y Brifysgol (BIB) i fonitro Ysbyty'r Eglwys Newydd. Bu'r Wardeniaid Cymdogaeth yn parhau i fynychu digwyddiadau cymunedol gan ddatblygu Strategaeth Patrol cynhwysfawr er mwyn datblygu'r gwasanaeth a chwrdd ymhellach ag anghenion dinasyddion. Gosodwyd cynllun adfer mewn trychineb ar waith fel y gallai'r CDL fonitro larwm. Ymhellach, cychwynnwyd trafodaethau gyda Chymdeithasau Tai i ddarparu gwasanaeth monitro TCC mewn mannau penodol a fydd yn helpu i gynhyrchu incwm yn y dyfodol.

**Oedi Cyn Trosglwyddo Gofal**

110 yw cyfanswm nifer yr achosion Oedi Cyn Trosglwyddo Gofal am 2017-18, ac y mae hyn yn welliant o gymharu â 123 am 2016-17, ac y mae'n cynrychioli gostyngiad flwyddyn ar flwyddyn o 10.6 %. Mae'r Cyngor wedi parhau i weithio'n agos â phartneriaid iechyd a Chyngor Bro Morgannwg i leihau Oedi Cyn Trosglwyddo Gofal am resymau gofal cymdeithasol. Sefydlwyd tîm amlddisgyblaethol gyda chorff o Gynorthwywyr Gwaith Cymdeithasol sydd yn cwrdd bob bore i nodi achosion mewn ysbytai a all elwa o ymyriad cynnar.

Cyfradd oedi cyn trosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75 neu hŷn



**Gweithio Seiliedig ar Gymdogaeth**
Cynhaliwyd digwyddiadau rhyng-genhedlaeth llwyddiannus yn y gymuned a gweithiodd y Cydlynydd Cymuned gyda Sefydliad Dinas Caerdydd i gyflwyno sesiynau hyfforddi i wirfoddolwyr barhau i gynnal y digwyddiadau hyn yn y gymuned.

**Cyfleoedd Dydd**
Mae'r model Cyfleoedd Dydd ar gyfer Pobl Hŷn yn cefnogi amcanion The Day Opportunities model for Older People supports the aims of the Social Services and Well-being (Cymru) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r model hwn yn dangos sut y bydd datblygu ein gwasanaethau dydd yn cael y deilliannau gorau i unigolion a rhoi'r gefnogaeth orau i ofalwyr fel a ganlyn:
1. Anghenion gofal a chefnogaeth uchel – i'r sawl ag anghenion gofal a chefnogaeth uchel, a all gynnwys maint dementia, neu ddementia sefydlog mwy difrifol.
2. Canolfan dementia arbenigol - i'r rhai â dementia cymedrol neu ddifrifol gydag angen cymdeithasol a aseswyd.
Mae'r gwaith hwn yn cael ei gymryd ymlaen fel model integredig o wasanaeth gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Mae'r model yn cael ei weithredu trwy ddefnyddio tair canolfan dydd bresennol y Cyngor i bobl hŷn: Canolfan Dydd Heol Minehead yn Llanrhymni, Canolfan Dydd Fairwater yn Heol Plasmawr a Grand Avenue yn Nhrelái. Defnyddir Canolfannau Dydd Heol Minehead a Fairwater fel y ddwy ganolfan dydd i unigolion ag anghenion gofal a chefnogaeth uchel tra defnyddir Grand Avenue fel canolfan i bobl hŷn gydag anghenion dementia cymhleth. Neilltuodd y Cyngor gyllid a llwyddodd i gael arian ychwanegol gan y Gronfa Gofal Integredig (CGI) i uwchraddio ac adnewyddu'r canolfannau dydd presennol hyn. Cwblhawyd y gwaith yn Heol Minehead ym mis Gorffennaf 2017. Cychwynnodd y gwaith yn Grand Avenue ym mis Tachwedd 2017 a rhagwelir y bydd y gwaith yn Fairwater yn digwydd ym mlwyddyn ariannol 2018-19.

**Taliadau Uniongyrchol**
Bu'r Cyngor yn gweithredu gwasanaeth Taliadau Uniongyrchol ers 1996. Golygodd y trosi llwyddiannus i ddarparwr newydd yn ystod 2017-18 fod y gwasanaeth yn awr yn cynnig gwell gwerth am arian, mwy o gysondeb cefnogaeth a gwell tryloywder o ran ansawdd monitro. Darparwyd y gwasanaeth Taliadau Uniongyrchol gan y Cyngor ar draws Caerdydd i 908 o blant ac oedolion yn ystod y flwyddyn.

**Pryd ar Glud**
Mae sylfaen cwsmeriaid y gwasanaeth Pryd ar Glud wedi mwy na dyblu ers Ebrill 2017, gan gynyddu o 132 i 283, sydd yn gynnydd sylweddol. Mae'r gwasanaeth wedi bidio'n llwyddiannus am refeniw ychwanegol ac wedi ymestyn y gwasanaeth i estyn dros benwythnosau a gwyliau banc o Fai 2018, gan ddarparu prydau poeth i gwsmeriaid 7 diwrnod yr wythnos. Mae cyflwyno cronfa ddata Pryd ar Glud newydd wedi gadael i ni deilwrio i ddewisiadau deietegol ein cwsmeriaid er mwyn bod yn fwy manwl a gwella ansawdd y gwasanaeth.

**Arwyddion Diogelwch**
Mae'r Cyngor yn ail flwyddyn gweithredu'r fframwaith pum mlynedd Arwyddion Diogelwch a fabwysiadwyd i alluogi'r gwasanaeth i weithio tuag at weledigaeth strategol: blaenoriaethu ymyriad, lleihau'r angen am ymyriadau statudol gan gynnwys achosion gofal mewn llys a lleihau'r angen i osod plant yn ein gofal. Mae hyn eisoes wedi dechrau cael effaith gadarnhaol iawn ar ein gwaith ac yn sgil hynny ar blant a theuluoedd. Mae'r fframwaith yn caniatáu i ymarferwyr roi plant, nid proses a gwaith papur wrth graidd eu gwaith, gan annog pwyslais cryf ar greu cyfleoedd i blant fod yn rhan o'r peth. Trwy ganoli ar gryfderau teuluoedd, tra'n ystyried y niwed posib a gwirioneddol a ddaeth i ran y plentyn/plant, gall y Cyngor gefnogi plant a theuluoedd i aros gyda'i gilydd lle mae'n saf iddynt wneud. Mewn dathliad diweddar, daeth ymarferwyr o bob cwr o'r gwasanaeth gydag enghreifftiau o'r modd y mae eu harfer wedi newid er mwyn ymgorffori arwyddion diogelwch:

- Gweithwyr cymdeithasol yn yr Hwb Diogelu Amlasiantaethol (HDA) yn defnyddio Arwyddion Diogelwch i fynnu bod partneriaid yn rhoi darlun cytbwys o bryderon a chryfderau fel bod modd dadansoddi unrhyw risg o'r cychwyn.
- Trawsnewid cynadleddau achos amddiffyn plant fel bod teuluoedd yn teimlo'n rhan o'r broses ac yn rhan o'r ateb.
- Teuluoedd mewn argyfwng oherwydd camddefnyddio alcohol a chyffuriau yn gosod eu nod eu hunain ar gyfer newid.
- Pobl ifanc yn eu harddegau yn ymwneud â chreu eu cynlluniau diogelwch.
- Yr oedd naws gadarnhaol y digwyddiad yn amlwg iawn, ac y mae'n enghraifft o'r effaith mae Arwyddion Diogelwch yn gael ar arferion, agwedd ac ysbryd y gweithlu. Dywedodd y staff eu bod yn teimlo yn frwdfrydig ac wedi eu symbylu. Mae'r ffordd yr ydym yn gweithio yn newid er gwell, ac er bod gennym gryn ffordd i fynd cyn y gallwn fesur y manteision pendant i blant a theuluoedd ar draws yr holl dimau, rydym yn dechrau gweld sut y mae hyn yn gwneud gwahaniaeth i blant a'u teuluoedd.

**Dyfodol Anabledd**

Ail-frandiwyd y Gwasanaeth Anghenion Cymhleth fel y Prosiect Gwasanaethau Anabledd Integredig (PGAI) yn ystod y flwyddyn. Daeth arian ar gael i gynnwys gweithgareddau fyddai'n cefnogi integreiddio ar draws Iechyd, Gofal Cymdeithasol ac Addysg, gyda'r gweithgareddau isod yn digwydd:

- Cyflwynodd y prosiect well agwedd tuag at grŵp o blant a phobl ifanc gydag ystod o anghenion mwy cymhleth trwy gymryd agwedd bartneriaeth ar draws Iechyd, Addysg a Gofal Cymdeithasol.
- Y tu mewn i hyn, cyflwynwyd nifer o sesiynau hyfforddi i amrywiaeth eang o randdeiliaid i gefnogi defnyddio agweddau sy'n canoli ar yr unigolyn ar draws across gwasanaethau sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc gydag anableddau a'u teuluoedd.
- Recriwtiwyd gweithwyr cymdeithasol ychwanegol i'r Gwasanaeth Iechyd ac Anabledd Plant, gan ei wella.
- Sicrhawyd gwell gwasanaeth trosi yng Ngwasanaethau Plant Caerdydd, gyda gweithredu'r grŵp Rhyngwyneb Adolygu Trosi i oruchwylio cynllunio trosi i bob plentyn ag anableddau sy'n hysbys i'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Llwyddwyd i wneud hyn yn rhanbarthol ar draws Caerdydd a'r Fro, sydd yn golygu mai'r un agwedd a gymerir tuag at drosi ar draws y rhanbarth; mae hyn yn cryfhau datblygu'r gweithlu yn y maes hwn.
- Cynhelir treialon asesu a chydgordio amlasiantaethol, a bydd y cynlluniau peilot yn parhau i'r flwyddyn nesaf, gyda golwg ar eu gwerthuso fel sail o wybodaeth i'r camau nesaf.

**Gofalwyr Ifanc**

Rhoddwyd gwedd derfynol ar  Gynllun Gweithredu Gofalwyr Ifanc Caerdydd a'r Fro sydd yn cynnwys partneriaid o feysydd Addysg, Iechyd a'r trydydd sector yn ystod y flwyddyn. Mae'r cynllun wrthi'n cael ei weithredu a bydd yn hwyluso gwell ymwybyddiaeth o'r grŵp hwn a'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt. Ar hyn o bryd mae 10 o ysgolion yng Nghaerdydd yn cael eu cefnogi gan Weithwyr Datblygu Ymddiriedolaeth Gofalwyr De Ddwyrain Cymru, ac y maent yn gweithio tuag at y Rhaglen Gofalwyr Ifanc mewn Ysgolion. Pwrpas y rhaglen yw:

- Gofalu nad yw gofalwyr ifanc yn cael eu colli yn yr ysgolion.
- Darparu agwedd genedlaethol at gefnogi dysgu, addysgu a chodi ymwybyddiaeth mewn ysgolion.
- Gweithio ochr yn ochr â datblygiad y cwricwlwm Dyfodol Llwyddiannus, gan ofalu bod y rhaglen yn cymryd agwedd gyfannol at gefnogi dysgwyr bregus, y mae gofalwyr ifanc yn fwyafrif helaeth ohonynt.
- Rhoi gwir gyfle am gydweithio gydag iechyd, awdurdodau lleol, gofalwyr ifanc, eu teuluoedd a gwasanaethau gofalwyr ifanc.

Nodwyd gweithiwr cymdeithasol o GefnogaethIDeuluoedd i gynnal asesiadau o ofalwyr ifanc a chysylltu â grwpiau cefnogi priodol. Mesur dros dro yw hwn hyd nes y penodir Swyddog Datblygu Gofalwyr Ifanc. Mae'r broses recriwtio yn mynd rhagddi a bydd wedi ei chwblhau yn gynnar yn 2018-19.

**Crynodeb o'n Perfformiad**

Gwnaed cynnydd da trwy weithredu'r gwasanaeth Byw Annibynnol, gan helpu i reoli'r galw a'r gost. Mae boddhad gyda'r gwasanaeth yn uchel, a gwelwyd gwelliannau sylweddol ym mherfformiad dangosyddion fel Oedi Cyn Trosglwyddo Gofal.

Wedi dweud hynny, ni fydd y pwysau demograffig sy'n wynebu Caerdydd yn mynd i leihau. Wrth i'r ddinas dyfu ac i ddisgwyliadau einioes barhau i godi, disgwylir i nifer y bobl hŷn sy'n byw yng Nghaerdydd ac a fydd rhwng 65 ac 84 oed yn codi'n sylweddol: dros 44% yn ystod yr 20 mlynedd nesaf. Disgwylir i nifer y bobl 85 a hŷn hefyd ddyblu, bron, erbyn 2030. Bydd gweithio mewn partneriaeth agosach fyth gyda'r Gwasanaeth Iechyd a'r trydydd sector, uno ein gwasanaethau ar lefel gymunedol, gweithio'n agos gyda'n partneriaid - gan gynnwys grwpiau gwirfoddol, gofalwyr di-dâl a gwirfoddolwyr - yn hanfodol er mwyn sicrhau y cefnogir cynifer o bobl ag sydd modd i fyw bywydau llawn ac annibynnol yn eu cymunedau.

Rydym wedi asesu'r amcan lles hwn fel un sy'n gwneud cynnydd **da**.

# Blaenoriaeth 3:
# Economi sydd o Fudd i’n holl Ddinasyddion



# 3.1 Mae gan Gaerdydd fwy o swyddi a rhai sy'n talu'n well

**Beth ddywedasom y buasem yn wneud**

Mae Cyngor Caerdydd eisiau gweithio gyda'i bartneriaid yn y sectorau cyhoeddus a phreifat i greu swyddi a chyflwyno twf economaidd mewn modd fydd o les i bob cymuned. Bydd y Cyngor yn creu amgylchedd sydd yn cefnogi datblygu busnesau newydd, twf a chynaliadwyedd busnesau sy'n bod eisoes, ac a fydd yn denu buddsoddiad yn gyson. Mae'n ddyhead gan Gaerdydd hefyd ddod yn Ddinas Cyflog Byw.

**Sut y gwnaethom ni fesur ein perfformiad?**

| Dangosydd Perfformiad | Canlyniad 2016-17 | Canlyniad 2017-18 | Targed 2017-18 | Ydym ni wedi gwella? |
|---|---|---|---|---|
| Nifer swyddi newydd a rhai a ddiogelwyd mewn busnesau a gefnogir gan y Cyngor, yn ariannol neu fel arall | 1290 | 4,904 | 500 | Ydym |
| Swm y gofod swyddfeydd 'Gradd A' yr ymrwymwyd iddo yng Nghaerdydd (tr. sg.) | 317,732 | 366,000 | 150,000 | Ydym |
| Gwerth Gros a Ychwanegwyd y pen | 91.4% | 93.4 (2016) | >Cyfartaledd Cymru (73) | Ydym |
| Diweithdra | 4.8 | 6.5 | < Cyfartaledd Cymru (5.0) | Na |
| Nifer ymwelwyd yn aros yng Nghaerdydd | +1.1%<br>2,025,000 | +1.8%<br>2,062,000 | 2%+ p.a. | Ydym |
| Nifer ymwelwyr â Chaerdydd | -0.7%<br>20,380,000 | 7.9%<br>21,980,000 | 3%+ p.a. | Ydym |

**Cynnydd yn 2017-18**

Mae prosiect adfywio'r Sgwâr Canolog ar y ffordd i gyflwyno'r seilwaith angenrheidiol i ddenu mwy o fusnesau a chyfleoedd am waith i Gaerdydd. Yn ystod 2017-18, crëwyd neu diogelwyd 4,904 o swyddi mewn busnesau a gefnogwyd gan y:

- 1,261 o swyddi wedi eu creu
- 3,643 wedi eu diogelu

Cychwynnodd y gwaith adeiladu ar 366,000 tr. sg. o **swyddfeydd Gradd 'A'** yng Nghaerdydd gan gynnwys yn Capital Quarter a chanolfan ranbarthol newydd TChEM, i'r gogledd o Stryd Wood. Yn ychwanegol at hyn, cwblhawyd y gwaith adeialdu ar Bencadlys y BBC, gan greu 150,000 tr.sg. o swyddfeydd Gradd A a diogelu 1,200 o swyddi.

Bydd Pwyllgor Cynllunio Caerdydd yn ystyried elfen fawr gyntaf **datblygiad y Cei Canolog**. Bydd yr adeilad 277,000 tr. sg. yn darparu swyddfeydd Gradd A i'r de o'r Orsaf Ganolog. Unwaith iddo gael ei gwblhau, bydd dros 1.1 miliwn tr. sg. o swyddfeydd, llety i fyfyrwyr, anheddau preswyl a siopa yn y datblygiad.

Er mwyn cael yr amodau iawn i ddenu a chefnogi buddsoddiad, mae'r Cyngor wedi parhau i weithio gyda phartneriaid ar draws y gymuned fusnes, prifysgolion y ddinas ac awdurdodau lleol ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd. Mae'r Cyngor yn aelod o fwrdd yr Ardal Gwella Busnes, a sefydlwyd i gyflwyno blaenoriaethau a nodwyd gan fusnesau yng nghanol y ddinas trwy dreth a godir ar ardrethi busnes. Mae'r Cyngor hefyd yn un o'r deg awdurdod lleol sy'n bartneriaid yn y **Fargen Ddinesig**. Yn ystod 2017-18 cymeradwywyd Cynllun Busnes Trefniant Cydweithio'r Fargen Ddinesig gan y deg cyngor sy'n cymryd rhan, sydd yn galluogi'r Cabinet rhanbarthol i wneud penderfyniadau ynghylch Cronfa Gwella'r Fargen Ddinesig gwerth £495 miliwn.

### Gwerth Cymdeithasol

Cymeradwywyd y Polisi Caffael Cymdeithasol Gyfrifol ac y mae'n unol a nifer o sbardunau polisi Llywodraeth Cymru gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ac y mae wedi ei strwythuro o gwmpas chwe blaenoriaeth allweddol. Cymeradwyodd Pwyllgor y Cyfansoddiad y Rheolau Sefydlog Contractau a Rheolau Caffael diwygiedig ym Mawrth 2018 a daethant i rym ar 1 Gorffennaf 2018. Bydd buddion i'r gymuned yn orfodol ar bob contract uwchlaw £1m ac fe'u hanogir ar gontract islaw'r gwerth hwnnw.

Lansiwyd y Polisi newydd ar ddiwrnod cyflenwyr Fframwaith Adeiladwaith Cymru a bu dros 300 o gynrychiolwyr yn bresennol.

### Arena Dan Do

O ran bwrw ymlaen â'r arena dan do, derbyniwyd telerau gan y tirfeddiannwr, Cronfa Bensiwn BA, a'u Partner Datblygu, Grŵp Reef, a bydd y Cyngor yn rhoi'r cynnig hwn gerbron eu Cabinet yn Hydref Autumn 2018.

### Pentref Chwaraeon Rhyngwladol

Mae gan y Cyngor wrthi'n datblygu cynllun meistr diwygiedig gyda strategaeth i gyflwyno at ddefnydd hamdden yn yr adeilad lle gynt bu Toys 'R' Us.

### Diwydiannau Creadigol

Gweithiodd y Cyngor gyda'i bartneriaid i ddatblygu prosiectau fydd yn helpu'r sector creadigol i ffynnu. Lansiodd Cyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau (CYCD) **Raglen Clystyrau'r Diwydiannau Creadigol**, prosiect mawr newydd o bwys a fwriadwyd i greu newid mawr mewn cydweithrediad â diwydiannau creadigol y wlad sydd ag enw da yn rhyngwladol, a phrifysgolion ar draws y DU. Mae'r Cyngor wedi cefnogi cynigion a arweiniwyd gan Brifysgol Caerdydd am Glwstwr Creadigol yn y ddinas. Mae'r cynigion wedi pasio cyfnod asesu 1 Cyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau (CYCD) a byddant yn mynd drwodd i'w rownd nesaf. Mae'r bid am gais yr ail gyfnod wedi canolbwyntio eto ar y sector Diwydiannau Creadigol Clyweledol Seiliedig ar Sgrîn yng Nghaerdydd a'r rhanbarth.

Mae'r Cyngor hefyd yn gweithio gyda phartneriaid a'r arbenigwyr byd-eang 'Sound Diplomacy' i ddatblygu **strategaeth gerddoriaeth** fydd yn amddiffyn sîn gerddorol Caerdydd ac yn rhoi buddion economaidd, cymdeithasol a diwylliannol i'r ddinas. Cynhaliwyd asesiad cynhwysfawr o ecoleg gerddorol gyda rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys cerddorion, hyrwyddwr a lleoliadau, cynllunwyr, awdurdodau trwyddedu, ac addysgwyr, a bydd y canfyddiadau yn sail i ddatblygu strategaeth gerddoriaeth.

Cyrhaeddodd Caerdydd restr fer yr ymgeiswyr terfynol am safle posib newydd i **Hwb Creadigol Channel 4**.

### Strategaeth Twristiaeth

Gweithiodd y Cyngor gyda nifer o bartneriaid ar draws y sector cyhoeddus, busnes a'r diwydiant twristiaeth i gyflwyno'r. **21,980,000 o ymwelwyr busnes a hamdden** i Gaerdydd yn 2017. Dyma gynnydd o 7.9% yn nifer yr ymwelwyr o gymharu â llynedd.

Ymysg rhai o uchafbwyntiau calendr chwaraeon y ddinas yr oedd rowndiau terfynol dynion a merched Cynghrair Pencampwyr UEFA, y digwyddiad chwaraeon mwyaf yn y byd yn 2017. Gyda chynulleidfa deledu ledled y byd o ryw 200 miliwn, denodd y digwyddiad hwn ddegau o filoedd o ymwelwyr i Gaerdydd. Mae cynnal digwyddiad o'r fath yn rhoi hwb i fasnach groesawu a thwristiaeth y ddinas, ac ymysg y buddiannau uniongyrchol y mae maes chwarae artiffisial pump-bob-ochr yn Grangetown, y cyfle i osod glaswellt o'r newydd ar draws Coopers Field, a system camera bywyd gwyllt ym Mharc Biwt. Dyfarnwyd gwobr Digwyddiad Gorau i **Ymweld â Chaerdydd** i gydnabod y modd y cynhaliodd a hyrwyddo Cynghrair Pencampwyr UEFA yng Ngwobrau Twristiaeth Cenedlaethol Cymru.

Bu Caerdydd yn fangre i gynnal tair gêm grŵp a rownd gynderfynol yng Ngwobr Pencampwyr y Cyngor Criced yn Stadiwm Cymru Caerdydd, Gerddi Sophia, a digwyddiad beicio 110km a 140km Velothon Cymru. Cynhaliwyd y Gyfres Hwylio Eithafol ym Mae Caerdydd am y chweched flwyddyn yn olynol, gyda'r Tîm Prydeinig a Thriathlon Caerdydd.

Yn ystod y flwyddyn, daeth **907,148 o ymwelwyr** i gyrchfannau diwylliannol y Cyngor, Cyflwynwyd nifer o ddigwyddiadau, o Ymladd mewn Twrnameint, Tafwyl, a Theatr Awyr Agored yng Nghastell Caerdydd, i Ganwr y Byd Caerdydd  a Phroms Cymru yn Neuadd Dewi Sant.

Yn ychwanegol at yr uchod, sicrhaodd y Cyngor hefyd nifer o ddigwyddiadau busnes proffil-uchel o'r sector Corfforaethol, Asiantaeth a Chymdeithasau, gan gynnwys Cynhadledd Ryngwladol y Gymdeithas Astudiaethau Gwleidyddol yn Neuadd y Ddinas,  UK Inbound i 240 o gynrychiolwyr y diwydiant teithio, a Soroptimistiaid Rhyngwladol Prydain Fawr ac Iwerddon yng Nghanolfan Mileniwm Cymru.

**Crynodeb o'n Perfformiad**

Mae'r Cyngor wedi parhau i fwrw ymlaen ag adfywio canol y ddinas fel lleoliad i fusnesau a buddsoddi a bydd yn parhau i wneud hynny trwy gyflwyno 300,000 troedfedd sgwâr o swyddfeydd Gradd A erbyn 2020. Cyhoeddir Papur Gwyn i gyflawni Gweledigaeth Economaidd newydd i ddatblygu Caerdydd at y dyfodol erbyn diwedd 2018.

Mae'r Cyngor wedi parhau i gefnogi busnesau a denu mewnfuddsoddiad i'r ddinas; o ganlyniad i gefnogaeth ariannol ac arall a roddwyd i fusnesau, fe wnaethom helpu i greu 1,261 o swyddi a diogelu 3,643 swydd. Fodd bynnag, dros y deuddeg mis diwethaf, cynyddodd cyfraddau gweithgaredd economaidd o 10,200; mae hyn yn golygu 6,200 yn ychwanegol mewn gwaith a chynnydd mewn diweithdra o 4,000.

Mae cynyddu nifer yr ymwelwyr a'r nifer sy'n gwario yn hanfodol o ran llunio Caerdydd fel cyrchfan i dwristiaid, gan gynhyrchu mwy o refeniw i economi'r ddinas, ac ar yr un pryd gyrru a chefnogi sector twristiaeth arloesol a chynaliadwy i'r ddinas-ranbarth. Daeth 21,980,000 o ymwelwyr busnes a hamdden i Gaerdydd yn 2017. Dyma gynnydd o 7.9% ar nifer yr ymwelwyr o gymharu â llynedd. I barhau i dyfu, bydd Cyngor Caerdydd yn datblygu Strategaeth Digwyddiadau a Gwyliau newydd i gyflwyno digwyddiadau yn y ddinas dros y pum mlynedd nesaf, gan adeiladu ar lwyddiant Rownd Derfynol Cynghrair y Pencampwyr. Bydd y Cyngor yn cyflwyno gwelliannau sylweddol i brofiad yr ymwelwyr ym Mae Caerdydd ac fe wnawn gynyddu presenoldeb ar draws lleoliadau ac atyniadau'r Cyngor, gan roi atyniadau newydd i'r teulu yng Nghastell Caerdydd.

Rydym wedi asesu'r amcan lles hwn fel un sy'n gwneud cynnydd **da**.

## 3.2 Mae gan Gaerdydd amgylchedd dinesig o safon uchel lle mae twf poblogaeth ac anghenion trafnidiaeth yn cael eu rheoli'n gynaliadwy

**Beth ddywedasom y buasem yn wneud**

Mae Cyngor Caerdydd eisiau gwneud yn siŵr fod Caerdydd yn brifddinas eithriadol gyda chymdogaethau braf byw ynddynt, parciau mawr a llefydd agored, wedi'u cefnogi gan gysylltiadau trafnidiaeth rhagorol sy'n rhoi mynediad hawdd a fforddiadwy at addysg, swyddi a gwasanaethau.  Bydd gwneud dulliau teithio bywiog a chynaliadwy yn dod â manteision iechyd trwy lefelau uwch o gerdded a beicio. Bydd hefyd yn help i roi gwell ansawdd aer trwy leihau nifer y siwrneiau a wneir gan gerbydau sy'n llygru. Mae'r Cyngor hefyd eisiau lleihau allyriadau carbon a gofalu y gellir lliniaru canlyniadau newid hinsawdd a'u rheoli wrth i Gaerdydd dyfu. Bydd hyn yn cynnwys cefnogi unigolion a chymunedau i leihau gwastraff a chynyddu  lefelau ailgylchu ar draws y ddinas.

**Sut y gwnaethom ni fesur ein perfformiad?**

| Dangosydd Perfformiad | Canlyniad 2016-17 | Canlyniad 2017-18 | Targed 2017-18 | Ydym ni wedi gwella? |
|---|---|---|---|---|
| Nifer y bobl sy'n teithio i'r gwaith trwy gludiant cynaliadwy | 44.9% | 45.8% | 45.1% | Ydym |
| Nifer y bobl sy'n teithio i'r gwaith trwy feicio | 10% | 11.4% | 11.2% | Ydym |
| % ceisiadau mawr a bennwyd o fewn cyfnod penodedig o amser | Dangosydd Newydd | 66.22% | 25% | Dangosydd Newydd |
| % ceisiadau cynllunio deiliaid tai a  bennwyd o fewn cyfnod penodedig o amser | Dangosydd Newydd | 95.43% | 80% | Dangosydd Newydd |
| Galluedd (mewn MW) cyfarpar ynni adnewyddol a osodwyd ar dir ac asedau'r Cyngor | 0.698MW | 1.138MW | 6MW | Ydym |
| Uchafswm tunelledd a ganiateir o wastraff bwrdeistrefol biobydradwy a anfonwyd i dirlenwi | 1356t | 758t | 37,627 | Ydym |
| % gwastraff bwrdeistrefol a gasglwyd ac a baratowyd i'w ail-ddefnyddio a/neu ailgylchwyd | 58.12% | 58.24% | 61.0% | Ydym |

**Cynnydd yn 2017-18**

Mae Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Caerdydd, a fabwysiadwyd yn Ionawr 2016, yn darparu fframwaith wedi ei arwain gan y cynllun i reoli datblygiad y ddinas yn y dyfodol. Mae adfywio llwyddiannus canol y ddinas i'r gogledd a'r de o lein y rheilffordd yn bwrw ymlaen yn sydyn, gan ddarparu swyddfeydd Gradd A o ansawdd uchel ynghyd a mathau ategol o ddefnydd. Ymhellach, mae tai newydd i gwrdd â'r angen lleol uchel yn dechrau cael eu codi ar ystod o Safleoedd Strategol sydd yn y Cynllun.

**Cyfnewidfa Trafnidiaeth Canolog (Sgwâr Canolog)**

Datblygwyd y Cynllun Busnes i'w gyflwyno am gyllid i Lywodraeth Cymru (LlC) ar gyfer y Gyfnewidfa Trafnidiaeth Canolog gan barhau â'r cyswllt rhwng datblygwyr a gweithredwyr. Mae'r dylunio manwl wedi ei gwblhau a rhoddwyd y cynllun allan i dendr. Gwnaed bid i Lywodraeth Cymru yng nghyswllt y Gyfnewidfa Trafnidiaeth Canolog ac y mae trafodaethau wedi hynny rhwng y Cyngor, Llywodraeth Cymru a'r datblygwr wedi arwain at ffurfio cytundeb partneriaeth i fwrw ymlaen â phrosiect yr Hwb Trafnidaeth Integredig a gyflwynir gan Drafnidiaeth i Gymru.

**Metro Dinas-Ranbarth Caerdydd**

Bwriwyd ymlaen â pherthynas gyda Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, Trafnidiaeth i Gymru, a Llywodraeth Cymru gan alluogi'r cytundeb ar fuddsoddiadau yn yr Hwb Trafnidiaeth y Gyfnewidfa Ganolog a'r Orsaf Ganolog. Dyfarnwyd y contract i redeg gwasanaeth rheilffyrdd Cymru a'r Gororau a Metro De Cymru i KeolisAmey o 4 Mehefin 2018 i 17 Hydref 2033.

### Gwelliannau i lwybrau bysus ledled y ddinas

Mae'r Cyngor yn bwrw ymlaen â gwelliannau fydd yn annog symud moddau o deithio o geir preifat i gerdded, beicio a chludiant cyhoeddus. Er enghraifft, cwblhawyd cynllun gwella coridor Cyfnod 2b yr A4119 Heol y Gadeirlan ym Mehefin 2018, oedd yn cynnwys lôn fysus tua'r de, lôn feicio a chyfleusterau croesi sydd ar draws i wella mynediad i gerddwyr, diogelwch ac amseroedd teithio. Gosodwyd arwyddion gwyrdd arloesol a blaengar i feicwyr i roi i'r sawl sy'n teithio ar feiciau o ffyrdd ochr fantais amser dros y traffig cyffredinol a lleihau gwrthdaro posib a cherbydau sy'n troi. Y bwriad yw adeiladu adran Penhill Cyfnod 2d yr A4119 tua diwedd 2018-19 yn amodol ar ymgynghoriad. Bydd y cynlluniau yn cyfrannu at leihau llygredd aer a thagfeydd, gwella diogelwch y ffyrdd, lleihau amseroedd siwrneiau a gwneud dulliau cynaliadwy o deithio yn fwy dibynadwy.

### Map Rhwydwaith Integredig Teithio Bywiog (RhIM) a Strategaeth Feicio Caerdydd

Cymeradwywyd y Map Rhwydwaith Integredig Teithio Bywiog (RhIM) gan Lywodraeth Cymru ar 27 Chwefror 2018 ac fe'i cyhoeddwyd ar wefan y Cyngor. Mae dyluniad y cysyniad ar gyfer "uwch-briffyrdd" beicio Dwyrain/Gorllewin a Gogledd/De wedi bwrw ymlaen a pharatowyd y dyluniadau cysyniad cychwynnol ar gyfer llwybrau'r pedair uwch-briffordd feicio cyntaf.

Mae cynlluniau seilwaith beicio yn ddiweddar wedi eu cynnwys ar gyffordd Heol y Gadeirlan /Clos Sophia (treial o signalau beicio lefel isel gyda 4 eiliad o gychwyn i feicwyr), Heol Maes y Coed (treial o lonydd beicio gyda mymryn o wahaniaethu), ac uwchraddio cysylltiadau cerddwyr a beicio i Wrthglawdd Bae Caerdydd i greu llwybr beicio lletach, wedi gwahaniaethu.

### Cynllun Llogi Beic

Lansiwyd cynllun Llogi Beic ar y Stryd Caerdydd yn y Senedd ym Mae Caerdydd. Ers hynny, mae'r cyhoedd wedi cymryd at y cynllun yn fawr, gyda phob beic yn cael ei ddefnyddio bum gwaith y dydd. O ddechrau Gorffennaf 2018 dengys yr ystadegau isod lwyddiant y cynllun:

- 15,257 cofrestriad hyd yma
- 48,289 wedi rhentu
- Cyfanswm aelodaeth o 1,012

Erbyn diwedd Awst yr oedd 500 beic yn gweithredu mewn 50 gorsaf logi ar draws y ddinas gyda rhyw 16 gorsaf ychwanegol yn cael eu gosod yn chwarter yr hydref. Bydd gorsafoedd a gynlluniwyd i'w gosod yn nes ymlaen yn cael eu lleoli yn nwyrain y ddinas er mwyn gwneud yn siŵr fod gan yr ardaloedd hyn fynediad da lleol at y cynllun a'u bod hefyd wedi eu cysylltu'n dda ag ardaloedd eraill lle mae'r cynllun yn gweithredu.

### Ardaloedd Cyfyngiad Cyflymder 20mya

Cwblhawyd gwaith yn wardiau Glanyrafon a Canton, a gweithredwyd ardal cyfyngiad cyflymder 20mya newydd yn ardal Gabalfa y ddinas, sy'n cysylltu ward Gabalfa â'r ardal beilot wreiddiol yn Cathays. Mae gwaith hefyd wedi dechrau i ddatblygu cynlluniau ar gyfer ardal Dwyrain Caerdydd (gan gynnwys Plasnewydd, Adamsdown a Sblot) i'w cyflwyno yn 2018-19, a gwnaed bid am arian i gefnogi cynllun i Grangetown. Gosodwyd cyfyngiadau 20mya hefyd mewn ardaloedd o Dre-biwt o gwmpas Ysgol newydd Hamadryad. Ar yr un pryd, mae gwaith yn parhau i osod parthau diogelwch ysgolion trwy arian Llwybrau Diogel mewn Cymunedau; un o nodweddion allweddol hyn yw sicrhau y gosodir cyfyngiadau cyflymder 20mya.

**Parcio**

Ymysg llwyddiannau allweddol 2017-18 mae:

- Cynyddu gwarchod parcio i drigolion trwy wneud newidiadau i drefniadau parcio i breswylwyr o gwmpas y ddinas (e.e. mwy o faeau parcio unswydd i'r trigolion) ac ystyried rheoli parcio mewn ardaloedd preswyl mewn ffordd fwy hyblyg o fewn polisïau presennol
- Defnyddio Synwyryddion Parcio i wella dealltwriaeth o ymddygiad parcio yn ased parcio'r Cyngor a rhoi ffordd ddibynadwy i'r Cyngor o wybod os a lle mae parcio ar gael ar draws y ddinas, a thrwy hynny dorri i lawr ar nifer y cerbydau sy'n mynd o gwmpas yn chwilio am le i barcio
- Mwy o Glybiau Ceir ar gael (trwy bartneriaeth a chwmnïau clybiau ceir), gan ddatblygu strategaeth i gefnogi cyfleusterau Gwefrio Ceir Trydan, troi fflyd weithredol y Cyngor yn "wyrdd", uwchraddio seilwaith Talu ac Arddangos, a chyflwyno cyfleusterau "Talu dros y Ffôn".

**Cyswllt Dwyreiniol y Bae – Cyfnod 1**

Agorwyd Cyswllt Dwyreiniol y Bae gan y Prif Weinidog, Carwyn Jones, a'r Cynghorydd Caro Wild, Aelod Cabinet dros Gynllunio Strategol a Thrafnidiaeth, ar 15 Mehefin 2017. Cynlluniwyd y ffordd ddeuol a'r llwybr a rennir rhwng cerddwyr/beiciau rhwng Cylchfannau Queensgate ac Ocean Way i wella cysylltiadau â Bae Caerdydd, gan leihau amser siwrneiau a helpu i liniaru tagfeydd yng nghanol y ddinas, a darparu gwell cysylltiadau i gerddwyr a beicwyr. Bydd hefyd yn hybu'r economi lleol trwy wella mynediad at Barth Menter Canol Caerdydd a gwella cysylltedd ar draws y ddinas-ranbarth ehangach. Darparodd y ffordd, a oedd yn werth £57m **13 prentisiaeth, dau leoliad profiad gwaith a swyddi i naw o raddedigion a 27 o bobl a fu gynt yn ddi-waith am amser hir.**

**Papur Gwyrdd Trafnidiaeth ac Awyr Lân**

Yn dilyn cyfarwyddyd cyfreithiol gan Lywodraeth Cymru, cymeradwyodd y Cyngor gomisiynu astudiaeth dichonoldeb i bennu a oes angen Parth Awyr Lân yn y ddinas ar 22 Mawrth 2018. Cydnabu'r Cabinet mai, "ansawdd aer gwael yn awr a ystyrir yn risg amgylcheddol fwyaf i iechyd cyhoeddus yn y DU", a bod "tystiolaeth wyddonol glir" yn cysylltu bod yn agored i lygredd â disgwyliad einioes byrrach. Lansiodd y Cyngor Bapur Gwyrdd ar Drafnidiaeth ac Awyr Lan ar yr un diwrnod â'r penderfyniad i fwrw ymlaen â'r astudiaeth dichonoldeb. Yr oedd yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyrdd yn gwahodd trigolion i gymryd rhan yn y sgwrs am y syniadau mawr a allai lunio dyfodol system drafnidiaeth Caerdydd a'r ffordd y gallai'r ddinas edrych a theimlo yn y dyfodol. Yr oedd y chwe thema yn y papur yn cynnwys Dyfodol y Metro a Bysus, Dinas Iach a Bywiog, Dinas Awyr Lan, Prifddinas Ryngwladol Busnes, Gwaith a Diwylliant, y Dyfodol i Geir, a Dinas Glyfar. Bydd yr ymgynghoriad yn helpu'r Cyngor i benderfynu ar gyfeiriad y ddinas yn y dyfodol i wella bywydau a gwneud Caerdydd yn ddinas iachach a chryfach i'r genhedlaeth hon a'r rhai sydd i ddod.

**Strategaeth Gwytnwch – awyr lân, tanwydd carbon, ôl-ffitio ynni, prosiectau solar**

Mae allyriadau carbon deuocsid ($CO_2$) Caerdydd wedi gostwng o 33% ers 2005, a gostyngodd allyriadau $CO_2$ y pen o 39% dros yr un cyfnod (data 2015 ABYSD (Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol)- data a ddarperir yn flynyddol sy'n ymwneud a'r ddwy flynedd flaenorol). Golyga hyn yr aed dros darged Cyfamod Meiri'r ddinas cyn yr amser a nodwyd - llofnododd y ddinas Gyfamod y Meiri gyda tharged o leihau allyriadau $CO_2$ y pen o 26% erbyn 2020.

Sefydlir gweithgor swyddogion gydag aelodau o Lywodraeth Cymru ac y mae wedi gwneud cynnydd ar ddatblygu'r Strategaeth Awyr Lân, ac y mae gwaith yn canoli ar roi'r cyffyrddiadau strategol olaf y mae ar y Cyngor angen eu gweithredu i geisio gwella ansawdd aer yng Nghaerdydd. Bydd y strategaeth yn gosod allan gynlluniau penodol i weithredu'r mesurau hyn a bydd yn datblygu cyfres o fesuriadau perfformiad i ddangos effeithiolrwydd y strategaeth. Ymhellach, sefydlwyd Gweithgor ychwanegol, sydd yn awr yn cynnwys aelodau o'r Cabinet a'r Uwch-Reolwyr i helpu i ddatblygu a llywio'r Strategaeth.

Cymeradwywyd Strategaeth Drafnidiaeth Allyriadau Isel ac y mae cynigion am Fferm Solar yn Ffordd Lamby yn cael eu datblygu. Ymhellach, mae ystod o gynigion ôl-ffitio adeiladau o ran ynni ar y gweill. Mae'r Cyngor yn aros am i bolisiau Llywodraeth Cymru fod ar eu ffurf derfynol cyn ymrwymo i Strategaeth Gwytnwch gyffredinol.

**Ailgylchu**

Mae cyrraedd y targed ailgylchu statudol yn gryn her o hyd. Er i'r perfformiad yn 2017/18 ddangos ychydig o welliant ers y flwydydn flaenorol, gan godi i 58.24%, ac yr atebwyd y targed statudol o 58% a osodwyd gan LlC, ni chyrhaeddodd y perfformiad y 61%, sef y targed corfforaethol a osodwyd am y flwyddyn. Bydd angen newid o bwys mewn perfformiad ailgylchu a newid ymddygiad mewn ardaloedd lle mae ailgylchu yn isel i gyrraedd y targed o 64% a osodwyd gan Lywodraeth Cymru for 2019/20.

Daeth costau prosesu ychwanegol i ran y gwasanaeth yn y Cyfleuster Ailgylchu Cymysg (CAC), wedi ei achosi yn bennaf gan daliadau trydydd parti uwch sy'n gysylltiedig â thrin gwydr a chostau gwaredu deunyddiau ar ddiwedd y llinell gan nad oes marchnad ar gael ar hyn o bryd. Erys prisiau'r farchnad fyd-eang yn risg ariannol a pherfformiad uchel. Mae angen cadw llygad barcud ar y pwysau cenedlaethol diweddar am "gynllun blaendal dychwelyd" (dychwelyd poteli plastig a gwydr a chael arian yn ôl), gan y gall olygu bygythiad pellach i gyllid ac i berfformiad.

Dangosodd canlyniadau Arolwg Holi Caerdydd 2017 fod gwasanaethau casglu gwastraff yn gyffredinol yn dda, gyda'r casgliadau yn dod yn rheolaidd ac yn brydlon.

**Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartref (CAGC)**

Mae Ffordd Lamby a Chlos Bessemer yn parhau i **wella perfformiad ailgylchu** gyda chyflwyno sgipiau ailgylchu carpedi a theiars. Bu CAGC Ffordd Lamby yn gweithredu ers bron i flwyddyn, a chafodd dderbyniad cadarnhaol gan aelodau'r cyhoedd. Mae'n parhau i fod yn allweddol canolbwyntio ar wella addysg i aelodau'r cyhoedd ynghylch ailgylchu deunydd mewn CAGC. Mae ail-gyfeirio staff o Ffordd Wedal wedi caniatau i ni ganolbwyntio mwy ar wahanu ailgylchu a chefnogi cwsmeriaid. Mae contract yn ei le yn awr ar gyfer deunyddiau newydd yn CAGC Ffordd Lamby a Chlos Bessemer Close, e.e., carpedi, teiars a ffenestri UPVC.

**Crynodeb o'n Perfformiad**

Er bod cynnydd da wedi ei wneud, Caerdydd yw un o'r dinasoedd sydd yn tyfu gyflymaf yn y DU, felly mae'n hanfodol fod twf wedi ei gynllunio'n dda, yn gynaliadwy a bod pawb yn y ddinas yn manteisio arno. Mae twf yn gyfle mawr i Gaerdydd - mae pobl eisiau byw mewn dinas lwyddiannus - ond fe ddaw heriau yn ei sgil hefyd. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i wneud yn siwr y bydd Caerdydd yn tyfu mewn ffordd wydn, y bydd ei chymunedau - hen a newydd - wedi eu cynllunio a'u cysylltu'n dda, ac y bydd ei seilweithiau a'i gwasanaethau cyhoeddus yn addas at y dyfodol.

Bydd mynd i'r afael â thagfeydd yn lleihau allyriadau carbon ac yn gwella ansawdd yr aer yr ydym yn anadlu, yn gwella iechyd pobl ac yn cynnal economi'r ddinas. Rhagwelir y bydd cynnydd o 20% yn niferoedd y bobl sy'n teithio i'r gwaith ac o ganlyniad y bydd amseroedd siwrneiau yn cynyddu o ryw 41%. Mae trafnidiaeth yng Nghaerdydd ar hyn o bryd yn golygu yn bennaf deithiau mewn ceir preifat. Dengys data perfformiad fod hyn yn newid, gyda mwy a mwy o bobl yn seiclo neu'n cerdded i'r gwaith, yn dal y bws neu'n cymryd y trên. Ond nid yw'n newid yn ddigon sydyn.

Er bod Caerdydd wedi llwyddo i symud ymaith oddi wrth dirlenwi, erys heriau ym maes ailgylchu. Mae Caerdydd wedi tangyflawni yn erbyn ei darged ailgylchu corfforaethol yn 17/18 (er y cyfarfuwyd â thargedau statudol) ac y mae heriau sylweddol i'w goresgyn at y dyfodol o ran newid ymddygiad a gwella perfformiad ailgylchu i gwrdd â thargedau LlC ar gyfer 2019/20.

Rydym wedi asesu'r amcan lles hwn fel un sy'n gwneud cynnydd **boddhaol.**

## 3.3 Mae pob person ifanc yng Nghaerdydd yn trosi'n llwyddiannus i waith, addysg neu hyfforddiant

**Beth ddywedasom y buasem yn wneud**

Gwnaeth y Cyngor ymrwymiad clir i weithio gydag ysgolion a phartneriaid ar draws y ddinas i gefnogi pob person ifanc i sicrhau addysg, hyfforddiant neu waith cyson wedi iddynt gwblhau eu haddysg statudol. Trwy Ymrwymiad Caerdydd, fe wnaethom yn glir fod gennym gynlluniau i wella deilliannau i'r holl bobl ifanc, trwy eu cysylltu â chyfleoedd i ddilyn eu huchelgais, gwella eu sgiliau ac yn y pen draw symud ymlaen i swydd o'u dewis hwy.

Fe wnaethom amlinellu pwysigrwydd meddu ar weithlu gyda sgiliau a chymwysterau er mwyn cryfhau twf economaidd yn y ddinas a buom yn glir am ein huchelgais i weithio gyda chyflogwyr, yn enwedig mewn sectorau twf economaidd allweddol, i ymestyn cyfleoedd i bawb.

**Sut y gwnaethom ni fesur ein perfformiad?**

| Dangosydd Perfformiad | Canlyniad 2016-17 | Canlyniad 2017-18 | Targed 2017-18 | Ydym ni wedi gwella? |
|---|---|---|---|---|
| % gadawyr Blwyddyn 11 yn trosi'n llwyddiannus o addysg orfodol i addysg, gwaith neu hyfforddiant | 97% | 98.4% | 97.5% | Ydym |
| % gadawyr Blwyddyn 13 yn trosi'n llwyddiannus o'r ysgol i addysg, gwaith neu hyfforddiant | 96.90% | 97.6% | 98% | Ydym |
| Nifer y bobl ifanc yng Nghaerdydd, 16 -18 oed, y gwyddys nad ydynt mewn addysg, gwaith neu hyfforddiant (*Haenau 2 a 3 Gyrfa Cymru) | 426 | 342 | 217 | Ydym |
| % pobl ifanc yn ysgolion Caerdydd sy'n ennill cymhwyster cydnabyddedig erbyn diwedd Blwyddyn 11 | 99% | 98.7% | 99.5% | Na |
| Nifer prentisiaethau, llefydd hyfforddi a lleoliadau gwaith a grëwyd gan y Cyngor | Dangosydd Newydd | 123 | 100 | Dangosydd Newydd |

*Haen 3 - Pobl ifanc heb fod yn ymwneud ag AGH (Wedi cofrestru'n ddi-waith neu heb gofrestru'n ddiwaith)
*Haen 2 –Pobl ifanc heb allu mynd i AGH, e.e. afiechyd, carchar

**Cynnydd yn 2017-18**

Mae'r canolbwynt cryfach ar y trosi rhwng addysg a gwaith wedi parhau i gael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau; tystiolaeth o hyn yw gostyngiadau flwydydn ar ôl blwyddyn yng nghanran y gadawyr ysgol Blwyddyn 11 sydd wedi cofrestru fel 'Nid mewn Addysg, Gwaith na Hyfforddiant' (NEGH) gan Gyrfa Cymru yng nghyfrif cyrchfannau Hydref. Ar ddiwedd blwyddyn academaidd 2016-17, nodwyd 1.6% o adawyr ysgol Blwyddyn 11 (50 o bobl ifanc) fel rhai NEGH, o gymharu â 4.9% yn 2013 a thros 8% yn 2010. Mae perfformiad Caerdydd yn awr yn unol â chyfartaledd Cymru ar gyfer y mesur hwn.


| % Gadawyr Blwyddyn 11 a gofrestrwyd y 'NEGH' | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 |
| **Caerdydd** | **4.9** | **4.3** | **4.5** | **3.0** | **1.6** |
| **Cymru** | **3.7** | **3.1** | **2.8** | **2.0** | **1.6** |

Mabwysiadodd pob ysgol uwchradd wedi mabwysiadu'r erfyn Proffil Asesu Bregusrwydd a ail-ddatblygwyd, i helpu i adnabod pobl ifanc a all fod angen cefnogaeth ychwanegol i gwblhau eu haddysg a throsi o'r ysgol yn 16 oed. Mae hyn wedi sicrhau fod pobl ifanc wedi derbyn cymorth a chyfarwyddyd unigol i'w helpu i gael cyrchfan gadarnhaol gan y Gwasanaeth Ieuenctid, Gyrfa Cymru, a phartneriaid yn y gymuned.

Gwnaed cynnydd da yn ystod y flwyddyn gydag amrywiaeth eang o bartneriaid i lunio 'Ymrwymiad Caerdydd'. Hyd yma, mae o leiaf 100 o gyflogwyr wedi dangos parodrwydd i gyfrannu at y rhaglen gydag addewidion wedi eu llofnodi gan 46 o gyflogwyr yng Nghaerdydd yn cefnogi cyfleoedd megis Wythnos Agorwch eich Llygaid, profiad gwaith, ffug-gyfweliadau, digwyddiadau gyrfaoedd a phrentisiaethau. Mae hyn wedi ymestyn y dewisiadau sydd ar gael i ysgolion ac unigolion ym myd gwaith.

Hefyd, llwyddodd y rhaglen Prentisiaethau Iau, a lansiwyd ym Medi 2016 mewn partneriaeth â Choleg Caerdydd a'r Fro, i gynnig rhaglen ddysgu lawn-amser sy'n canoli ar yrfaoedd i nifer o fyfyrwyr 14–16 oed yng Nghaerdydd. Mae'r rhaglen yn cynnig chwech o wahanol lwybrau gyrfa, yn unol â'r sectorau economaidd allweddol y rhoddir blaenoriaeth iddynt.

Cyflwynodd Cyngor Caerdydd ei hun 123 o gyfleoedd cysylltiedig â gwaith i bobl ifanc yn 2017-18, yn erbyn targed o 100 cyfle. Hefyd, gwnaed lle i nifer cynyddol o geisiadau am brofiad gwaith mewn ystod eang o wasanaethau. Mae gwaith uniongyrchol gydag ysgolion i hybu Cyngor Caerdydd fel cyflogwr posib i bobl ifanc yng Nghaerdydd wedi cyflymu a chyfrannodd y Cyngor at lawer o Ddigwyddiadau Gyrfaoedd ledled y ddinas.




**Crynodeb o'n Perfformiad**
Er bod cynnydd rhagorol wedi ei wneud dros y flwyddyn ddiwethaf, mae gwaith gyda mwy o ganolbwynt angen ei gwblhau er mwyn sicrhau fod pob person ifanc yn cael ystod briodol o ddewisiadau a chefnogaeth fel y gallant symud o'r ysgol i fyd gwaith. Yn benodol, mae angen i ni sicrhau fod ein pobl ifanc mwyaf bregus, er enghraifft, Plant sy'n Derbyn Gofal, Plant a Addysgir ar Wahân i leoliadau addysg prif-ffrwd, a phlant ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael cefnogaeth a chyfleoedd sydd wedi eu teilwrio.

Byddwn yn parhau i wella trefniadau rheoli gwybodaeth er mwyn sicrhau bod systemau cadarn ar waith i adnabod, olrhain a chefnogi pobl ifanc, mewn addysg cyn ac ar ôl 16, mewn partneriaeth a Gyrfa Cymru a Gwasanaeth Cyflogadwyedd y Cyngor.

Rydym wedi asesu'r amcan lles hwn fel un sy'n gwneud cynnydd **da**.

## 3.4 Mae gan y Cyngor ddarpariaeth uchel a chynaliadwy o fannau diwylliannol, hamdden a chyhoeddus yn y ddinas

**Beth ddywedasom y buasem yn wneud**

Mae Cyngor Caerdydd eisiau gwneud yn siwr fod gofod cyhoeddus yn y ddinas wedi eu dylunio a'u cynnal yn dda a'u bod yn cynnig mannau o ansawdd uchel mi bobl eu cyrchu, eu defnyddio ar gyfer hamdden a busnes. Fel y gall trigolion Caerdydd fyw bywydau iach, mae'r Cyngor eisiau sicrhau y darperir gwasanaethau hamdden mewn ffordd hygyrch. Mae'r Cyngor hefyd eisiau helpu Llywodraeth Cymru i gwrdd â'i ddyhead o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 trwy weithio gyda phartneriaid i ddyblu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd.

**Sut y gwnaethom ni fesur ein perfformiad?**

| Dangosydd Perfformiad | Canlyniad 2016-17 | Canlyniad 2017-18 | Targed 2017-18 | Ydym ni wedi gwella? |
|---|---|---|---|---|
| Nifer Parciau a Mannau Agored Baner Werdd | 10 | 11 | **11** | Ydym |
| % priffyrdd a archwiliwyd oedd o safon glendid uchel neu dderbyniol | 90.46% | 94.27% | **90%** | Ydym |
| % digwyddiadau tipio anghyfreithlon yr adroddwyd amdanynt ac a gliriwyd ymhen 5 diwrnod gwaith | 98.35% | 99.04% | **90%** | Ydym |
| Nifer ymweliadau â chanolfannau chwaraeon a hamdden lle bydd yr ymwelydd yn cymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol (am bob 1,000) | 7263 | 7517 | **8266** | Ydym |
| % ffyrdd pennaf (A) ffyrdd heb fod yn rhai pennaf/ wedi eu dosbarthu (B) ac C mewn cyflwr cyffredinol wael | A – 4.1%<br>B – 7.1%<br>C – 6.9% | A – 3.3%<br>B – 5.6%<br>C – 6.0% | **A – 5%<br>B – 8%<br>C – 8%** | Ydym |
| Nifer disgyblion a ymrestrwyd mewn addysg cyfrwng Cymraeg 4 – 18 oed | 7010 | 7777 | **7222** | Ydym |
| Canran y disgyblion sydd yn cyrraedd o leiaf deilliant 5 mewn iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen (Blwyddyn 2). | 93.10% | 92.10% | **93.50%** | Na |
| Canran y disgyblion sydd yn cyrraedd o leiaf lefel 4 mewn asesiadau athrawon mewn Cymraeg Iaith Gyntaf ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 (Blwyddyn 6). | 96.10% | 92.80% | **96%** | Na |
| % disgyblion sy'n cyrraedd cymhwyster Lefel 2 (TGAU A*-C) mewn Cymraeg iaith gyntaf ar CA4 | 79.8% | 80.7% | **82.0%** | Ydym |
| % disgyblion sy'n cyrraedd cymhwyster Lefel 2 (TGAU A*-C ) mewn Cymraeg ail iaith ar ddiwedd CA4 | 83.2% | 81.8% | **83.5%** | Na |
| Nifer gweithwyr y Cyngor sy'n dilyn hyfforddiant iaith Gymraeg | 184 | 171 | **Cynnydd ers llynedd** | Na |

**Cynnydd yn 2017-18**
**Parciau a Mannau Gwyrdd**

Mae portffolio helaeth y Cyngor o barciau a mannau gwyrdd yn cael eu rheoli trwy eu cynnal yn rheolaidd, uwchraddio cyfleusterau, a dylunio a gweithredu gwelliannau tirwedd. Mae cadwraeth a chynaliadwyedd yn hynod bwysig ac y mae'r Cyngor yn rheoli:

- 14 Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SDdGA)
- 114 Safle o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur (SBCN)
- 4 Gwarchodfa Natur Leol (GNL)
- 2 barc gwledig helaeth
- 236 hectar o goetir

Yn ystod 2017-18 derbyniodd Parc y Rhath bleidlais y Fields in Trust am y Parc Gorau yng Nghymru ac enillodd Gwarchodfa Natur y Gwlypdir Wobr Baner Werdd am y tro cyntaf.

Mae'r Cyngor yn rheoli 11 parc sydd â statws Baner Werdd: Parc Bute, Morglawdd Bae Caerdydd, Mynwent Cathays, Ynys Echni, Gerddi'r Grange, Parc Cefn Onn, Parc y Rhath, Gerddi Allt Tredelerch, Mynwent Thornhill, Parc Victoria a Gwarchodfa Natur y Gwlypdir.

Dangosodd canlyniadau arolwg Holi Caerdydd 2017, o holl wasanaethau'r Cyngor, fod y boddhad uchaf a pharciau a mannau agored yng Nghaerdydd ar 78.6%. Parciau a mannau gwyrdd y ddinas oedd un o'r agweddau oedd yn cael canmoliaeth uchaf yn y ddinas, gyda Pharc Bute yn un o 'emau'r goron'. Yr oedd yr ymatebwyr yn glir eu bod eisiau gweld cadw mannau gwyrdd y ddinas.

Oedwyd datblygu strategaeth Parciau a Mannau Gwyrdd wedi'i chyfoesi ym Mawrth 2018 er mwyn ei hasio ag ymarferiad Craffu Parciau. Cynhaliwyd ymgynghoriad a bydd y Cabinet yn derbyn ymateb i adroddiad craffu'r Parciau yn nes ymlaen yn 2018.

Ochr yn ochr â pharciau a mannau gwyrdd, mae'r Cyngor, fel yr Awdurdod Harbyrau, hefyd yn gyfrifol am gyflwyno baeau a dyfrffyrdd o ansawdd uchel sydd wedi eu cynnal yn dda. Dyfarnwyd contract carthu pum mlynedd i'r Cyngor ar gyfer yr Harbwr Allanol / Sianel yr Harbwr allanol. Cwblhawyd y ddwy ymgyrch garthu gyntaf ym mis Gorffennaf 2017 a Ionawr 2018 a symudwyd 80,511m3 o waddodion gan ganiatáu i gychod symud yn rhwydd.

**Glanhau strydoedd, cynnal tiroedd a phriffyrdd, a gorfodaeth ac ymwneud â dinasyddion**

Cyflwynwyd **rhaglen 'blitz' ar gymdogaeth** newydd ar gyfer 2017-18 gyda gwaith yn cael ei wneud yn Cathays, Plasnewydd, Adamsdown a Sblot, a mwy o waith yn parhau yn Nhre-biwt, Grangetown, Canton a Glanyrafon. Enillodd "Cadwch y Rhath yn Daclus" yn y categori Cymunedau Glân yng Ngwobrau Cymru Daclus, gyda "Cadw Sblot yn Daclus" yn dod yn ail. Mae gan Hybiau a Llyfrgelloedd gyfarpar i gefnogi ymgyrchoedd gwrth-sbwriel (Grangetown, Hwb Gogledd Llandaf /Gabalfa a Llyfrgell Cathays). Fe wnaethom barhau i hybu a chynyddu ymwneud â'r gymuned. Mae ein Cydlynydd Gwirfoddoli wedi cychwyn gweithio ar raglen o weithgareddau gyda Cadw Cymru'n Daclus ac y mae'r gefnogaeth yn tyfu i grwpiau gwirfoddoli newydd ar draws Caerdydd. Cafodd gwefan **Cadw Caerdydd yn Daclus** ei gwella ac y mae gwybodaeth arni yn awr am weithgareddau gwirfoddoli.

Yr oedd cyfanswm o 11 o grwpiau cymunedol yn weithredol ym mis Ebrill 2017, ac 16 grŵp yn weithredol ym mis Chwefror 2018, sydd yn gynnydd o bron i 50%, sydd yn uwch o lawer na'r targed o 25%. Hefyd, rhwng mentrau Caru Lle'r Ydych yn Byw a Cadw Cymru'n Daclus yr ydym wedi cofnodi 8,288.50 o oriau gwirfoddolwyr (sy'n cyfateb i £72, 524.38 ar y cyflog byw).

**Rheoli Risg Arfordirol**
Cyflwynodd y Cyngor amlinelliad o achos busnes i'w Gabinet, a gymeradwyodd yr ymrwymiad i dalu am a chyflwyno'r cynllun i amddiffyn yr arfordir. Nod cynllun amddiffyn yr arfordir yw:
•Rheoli'r risg o lifogydd yn ardal Tremorfa dros y 100 mlynedd nesaf
•Atal y safle tirlenwi rhag erydu a llygru Aber yr Afon Hafren
•Amddiffyn y ffyrdd arfordirol a safle Teithwyr Rover Way

**Priffyrdd a'r Wlad Gyhoeddus**
Cyflwynwyd 14,000 o oleuadau stryd LED ar y rhwydwaith ffyrdd strategol gyda'r System Reoli Ganolog. Ymhellach, buddsoddwyd £1miliwn mewn clytio, gan ledu dros gyfanswm o 28,974m2, cynnydd o 36% ar y flwydydn flaenorol. Cyflwynwyd y rhaglen Fuddsoddi Cyfalaf flynyddol.

**Cartref Cŵn**
Mae'r Cyngor wedi bwrw ymlaen â gwaith ar fantoli'r dewisiadau a chynllun busnes yng nghyswllt Cartref Cŵn newydd. Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda rhanddeiliaid a gwnaed gwaith gyda Phrosiectau, Dylunio a Datblygiad ynghylch y gofynion am gyfleuster newydd a'r gofod sydd ei angen. Y broblem ar hyn o bryd yw dod o hyd i safle addas sydd ar gael, ac araf fu'r cynnydd oherwydd hyn. Y gobaith yw, trwy fwy o waith gyda Stadau, y bydd modd gwneud penderfyniad ynghylch safle er mwyn medru gwneud gwaith manylach a gwneud y costio.

**Canolfannau Hamdden**
Cwblhawyd gwaith gwella ar bedair canolfan hamdden dan reolaeth Greenwich Leisure Limited (GLL) i sicrhau gwasanaeth o safon uchel i ddefnyddwyr. Cyflwynwyd y gwelliannau trwy Raglen Buddsoddi Cyfalaf, a gychwynnodd ym mis Awst yng nghanolfannau hamdden Llanisien a Maendy, sydd yn golygu ail-gyflunio'r ystafelloedd ffitrwydd mewnol ac adnewyddu'r cyntedd a'r derbynfeydd. Mae gwelliannau yng Nghanolfan Hamdden y Gorllewin yn cynnwys adnewyddu'r dderbynfa a rhoi cyfarpar campfa hollol newydd. Dechreuodd y gwaith i wella Pentwyn ar ddiwedd 2017 i osod cyfleusterau a chyfarpar campfa newydd. Cwblhawyd trawsnewid llawr cyntaf Llanisien, a oedd yn cynnwys adleoli'r gampfa a'r stiwdios ffitrwydd newydd ac ystafell ffurfio.

Cynyddodd nifer yr ymweliadau â chanolfannau chwaraeon a hamdden yr awdurdod lleol yn 2017-18 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, pryd y gostyngodd niferoedd y cardiau oherwydd pryderon ynghylch GLL. Fodd bynnag, oherwydd gwell cyfleusterau a monitro cadarnach, cafwyd cynnydd o 4.65% yn nifer yr ymwelwyr sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

**Chwaraeon**
Cytunodd Chwaraeon Cymru â Chynllun Chwaraeon Lleol 2018-19. Cafodd y cyflwyno ei fonitro trwy gydol y flwyddyn gyda Met Caerdydd a Chwaraeon Cymru i asesu perfformiad yn erbyn y cynllun, a derbyniwyd sylwadau cadarnhaol gan Chwaraeon Cymru o ran cynnydd gydag ymyriadau wedi eu targedu gan y byrddau chwaraeon cymdogaeth mewn meysydd penodol, megis DLlE a Chwaraeon Menywod a Merched. Bu deialog yn digwydd gyda GLL o ran cyflwyno'r Fenter Nofio am Ddim a gosodwyd cynllun gweithredu diwygiedig ar waith, a chytuno arno.

Mae'r Cyngor yn parhau i roi cyfleoedd am chwaraeon awyr agored ac y mae ganddo berthynas dda gyda'r gwahanol gynghreiriau a Chyrff Llywodraethol lleo, a llwyddodd i ddenu buddsoddiad mewn cyfleusterau hyfforddi 3G newydd gan gynnwys llain etifeddiaeth Cynghrair y Pencampwyr mewn partneriaeth ag UEFA a Chymdeithas Pel-droed Cymru (CPDC). Mae ein modelau amgen o gyflwyno wedi arwain at fuddsoddiad gyda Parkwood ym Mharc yr Heath ar gyrtiau tenis newydd dan lifoleuadau ac yn llawer o'n safleoedd pafiliwn, a drosglwyddwyd dan y broses o Drosglwyddo Asedau Cymunedol.

Adnewyddwyd y cyfleusterau awyr agored trwy'r mecanwaith cyllido gwytnwch fel gwaddol cynnal Gemau Terfynol Cynghrair y Pencampwyr.

**Menter Caerdydd Greadigol**
Lansiodd Cyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau (CYCD) **Raglen Clystyrau Diwydiannau Creadigol** o ddiwydiannau creadigol gydag enw da rhyngwladol a phrifysgolion ledled y DU, gan sicrhau £80m gan Lywodraeth y DU i helpu i hybu twf economaidd a darparu'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer swyddi'r dyfodol. Bydd y rhaglen, sy'n cychwyn yn 2018, yn dod o hyd i ffyrdd arloesol o adnabod cyfleoedd am fuddsoddiadau newydd mewn Busnesau Bach a Chanolig (BBaCh) Creadigol, gan gyfoethogi gwasanaethau yn gynnar a'u rhoi ar ben y ffordd i lwyddiant. Bydd Cyngor Caerdydd yn gweithio gyda Phrifysgol Caerdydd a phartneriaid ar baratoi bid i sicrhau isafswm o £8m o fuddsoddiad ar gyfer Clwstwr Creadigol Caerdydd.

Bydd y Cyngor yn asio gyda **'Phartneriaeth Ddiwylliannol Caerdydd'** gyda rhaglen 'Dysgu Creadigol mewn ysgolion' Cyngor Celfyddydau Cymru, gan gysylltu hyn â datblygiadau diwylliannol ehangach yn y ddinas, gyda'r nod o arwain ar adeiladu sgiliau mewn gweithlu creadigol yng Nghaerdydd . Bydd y Cyngor yn gweithio gyda phartneriaid a'r arbenigwyr byd-eang 'Sound Diplomacy' i ddatblygu strategaeth gerddoriaeth i Gaerdydd gan ganolbwyntio'n arbennig ar Stryd Womanby, gan weithio gyda Llywodraeth Cymru i'w dynodi fel ardal o arwyddocâd diwylliannol. Ers tri mis, bu Sound Diplomacy yn cynnal asesiad cynhwysfawr o ecoleg cerddoriaeth yng Nghaerdydd.

**Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog**
Ail-ffurfiwyd Fforwm yr Iaith Gymraeg fel Fforwm Caerdydd Ddwyieithog i oruchwylio gweithredu **Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog**. Mae'r fforwm yn cwrdd yn chwarterol, gyda chynrychiolwyr gwasanaethau statudol a gwirfoddol. Cwblhawyd cam cyntaf y Strategaeth yn llwyddiannus gyda chyflwyno sesiynau blasu'r Gymraeg y tu allan i'r Hen Lyfrgell yn ystod dathliadau Gemau Terfynol Cynghrair y Pencampwyr, gan ddenu ymwelwyr o Sbaen a'r Eidal gan gynnwys un o chwaraewyr Real Madrid. Cyflwynwyd hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith Gymraeg i Gynghorwyr, a threfnwyd ei roi i'r holl Reolwyr Gweithredol. Mae aelod o staff Caerdydd Ddwyieithog yn parhau i roi gwersi Cymraeg i'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr. Cefnogodd Caerdydd Ddwyieithog Tafwyl lwyddiannus ym mis Gorffennaf 2017. Daeth dros 38,000 o bobl i'r digwyddiad yng Nghaerdydd, gan ddwyn manteision economaidd i'r ddinas. Mae addysg Gymraeg wedi ei hyrwyddo ynghyd â manteision dwyieithrwydd, gan gynnwys CC yn cael eu hyrwyddo trwy'r cyfryngau cymdeithasol. Mae nifer y bobl ifanc mewn addysg cyfrwng Cymraeg wedi cynyddu o 767 rhwng Ionawr 2016 a Ionawr 2018. Datblygwyd Pecynnau Busnes ar gyfer busnesau newydd a rhai presennol ym Mae Caerdydd a chanol y ddinas i gynnig cefnogaeth ar gyfer arwyddion dwyieithog, cyngor a gwybodaeth cyn cynnal yr Eisteddfod yng Nghaerdydd yn 2018. Trwy'r broses gynllunio, anogir busnesau newydd hefyd i gael arwyddion dwyieithog. Cynhaliwyd 'Sieri a Sgwrs' llwyddiannus yn yr Hen Lyfrgell i ddysgwyr a siaradwyr Cymraeg gyfarfod, sgwrsio a rhwydweithio. Mae sesiynau 'Paned a Chlonc' i ddysgwyr a siaradwyr Cymraeg yn awr yn cael eu cynnal yn wythnosol yn Neuadd y Sir.

**Crynodeb o'n Perfformiad**
Er y gwnaed cynnydd da, bydd angen agwedd fwy masnachol a hunangynhaliol i warchod parciau, mannau gwyrdd a mannau agored Caerdydd. Bydd cynlluniau gwella newydd mawr yn canoli ar Barc y Rhath a Fferm y Goedwig yn ogystal â lleoliadau eraill Byddwn yn datblygu mwy ar rwydwaith uchelgeisiol o "Gyfeillion" a grwpiau gwirfoddol trwy amrywiaeth o bartneriaethau a rhaglenni i wneud y mwyaf o werth cymdeithasol cyfranogiad dinasyddion. Byddwn hefyd yn gweithio mewn partneriaeth i ddod â hwylio yn ôl i Gronfa Ddŵr Llanisien.

Cadw'n strydoedd a'n cymdogaethau yn lan ac mewn cyflwr da yw un o brif flaenoriaethau'r Cyngor. Mewn un arolwg ar ôl y llall o drigolion Caerdydd, strydoedd glân yw un o'r materion pwysicaf. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i'r 'blitz' ar gymdogaethau ac ymdrechion glanhau dwfn, a byddwn yn adolygu gwasanaethau glanhau strydoedd er mwyn gofalu ei fod yn gwneud y gorau y gall i Gaerdydd. Ond nid cyfrifoldeb y Cyngor yn unig yw cadw Caerdydd yn lan. Rhaid iddo fod yn gyfrifoldeb pob un ohonom ni. Mae gan bawb sy'n byw, gweithio, dysgu neu'n chwarae yma gyfrifoldeb i'w gilydd, ac i'r ddinas, i helpu i gadw ein strydoedd yn lân. Yr ydym am i gynifer o bobl ag sydd modd i gyfrannu, trwy ymwneud â'n hymgyrch 'Caru Lle'r Ydych yn Byw', trwy beidio â thaflu sbwriel i ddechrau, neu adrodd am y rhai sy'n gwneud. Byddwn yn ymrwymo i weithredu polisi dim goddef, gan gynyddu ein gweithgareddau gorfodi a dirwyon i bobl sy'n taflu sbwriel ac yn tipio'n anghyfreithlon sydd yn dangos diffyg parch llwyr i'w cymdogion a'u cymunedau.

Bydd Cyngor Caerdydd yn datblygu agwedd 'Stryd Gyfan' at gadw strydoedd a mannau cyhoeddus yn lân, sydd yn uno gwasanaethau'r Cyngor, ac yn parhau gyda'r ymgyrch 'Caru Lle'r Ydych yn Byw' i gefnogi trigolion a grwpiau cymunedol i gymryd mwy o gyfrifoldeb dros lendid eu cymunedau lleol. Bydd y Cyngor hefyd yn mabwysiadu polisi dim goddef tipio anghyfreithlon a thaflu sbwriel ar y stryd trwy edrych am gyfleoedd gyda phartneriaid, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, i gyflwyno deunyddiau lapio bwyd mwy cynaliadwy mewn llefydd bwyd i'w gludo.

Bydd y Cyngor yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu Strategaeth Chwaraeon a Gweithgaredd Corfforol uchelgeisiol i Gaerdydd, gan ganolbwyntio ar wasanaethau rheng-flaen i gynyddu cyfranogi mewn chwaraeon a gweithgareddau corfforol a datgloi'r gefnogaeth gyson i gyfleusterau chwaraeon, chwarae a gweithgaredd corfforol, yn enwedig yng nghymunedau mwyaf difreintiedig ein dinas.

Mae theatrau, cyrchfannau cerddoriaeth ac amgueddfeydd Caerdydd wrth galon yr hyn sydd gan y ddinas i'w gynnig. Mae dysgu am dreftadaeth y ddinas yn hybu balchder cymunedol ac yn cryfhau'r ymdeimlad o le. Trwy weithio mewn partneriaeth â chymunedau diwylliannol Caerdydd, gall y Cyngor annog y cyhoedd i ymwneud â chelf a diwylliant a meithrin a hyrwyddo'r cyfoeth o ddoniau a gweithgaredd artistig sydd eisoes yn bodoli yng Nghaerdydd.

Bydd y Cyngor yn denu mwy o ddigwyddiadau mawr i'r ddinas, gan adeiladu ar lwyddiant Gemau Terfynol Cynghrair y Pencampwyr, a dwyn ymlaen welliannau sylweddol i brofiad ymwelwyr â Bae Caerdydd, Alexandra Head a Mermaid Quay, gan adeiladu ar dreftadaeth ddiwydiannol unigryw Caerdydd.

Rydym wedi asesu'r amcan lles hwn fel un sy'n gwneud cynnydd **boddhaol**.

# Blaenoriaeth 4: Gweithio Gyda'n Gilydd i Drawsnewid Gwasanaethau



# 4.1 Mae Cymunedau a Phartneriaid yn ymwneud ag ail-lunio, datblygu a chyflwyno gwasanaethau cyhoeddus lleol

### Beth ddywedasom y buasem yn wneud

Bydd Cyngor Caerdydd yn cydweithredu mwy ag awdurdodau lleol eraill a gwasanaethau cyhoeddus ac yn gweithio gyda thrigolion a chymunedau i ddarparu gwasanaethau mwy integredig. Yn fewnol, bydd ein hagwedd "Un Cyngor" yn galluogi adrannau i weithio gyda'i gilydd, gan wneud gwasanaethau yn haws i'r trigolion eu cyrraedd.

### Sut y gwnaethom ni fesur ein perfformiad?

| Dangosydd Perfformiad | Canlyniad 2016-17 | Canlyniad 2017-18 | Targed 2017-18 | Ydym ni wedi gwella? |
|---|---|---|---|---|
| Nifer ymwelwyr â Llyfrgelloedd a Hybiau ar draws y ddinas | 3,241,038 | 3,331,807 | 3.2m | Ydym |
| % cwsmeriaid oedd yn cytuno â'r datganiad "Yn gyffredinol, mae'r Hwb yn cwrdd â'm gofynion/Fe gefais beth oeddwn ei angen" | 99 % | 98 % | 95% | Na |
| % y bobl sy'n teimlo eu bod yn gwybod mwy am eu hardal leol o ganlyniad i ddod i Sioe Ffordd Partneriaeth Cymdogaeth | Dangosydd Newydd | 81.44 % | 70% | Dangosydd Newydd |

### Cynnydd yn 2017-18
### Hybiau Cymunedol

Nod rhaglen yr Hybiau Cymunedol yw gwella gwasanaethau wyneb-yn-wyneb i gwsmeriaid ac uno cyflwyno gwasanaethau yn well i gael cyfleusterau o ansawdd well; parhaodd y rhaglen hon i dyfu trwy gydol 2017-18. Agorodd y Cyngor **ddwy Hwb Gymunedol newydd**, sy'n golygu bod 12 hwb yn awr ar agor ar draws Caerdydd i roi cyngor a chefnogaeth wedi ei deilwrio i anghenion y gymuned leol. Agorodd Hwb Llanedeyrn @Y Pwerdy ym mis Gorffennaf 2017 gan ddwyn ynghyd ystod eang o wasanaethau dan yr unto, a chynnal lle i wasanaethau tai, budd-daliadau a chynghori, llyfrgelloedd, cyngor a hyfforddiant I Mewn i Waith, llyfrgelloedd, dysgu cymunedol, darpariaeth ieuenctid, digwyddiadau cymunedol a chaffi cymunedol. Mae gan Heddlu De Cymru hefyd swyddfeydd annibynnol ar y llawr cyntaf. Mae eisoes yn boblogaidd gyda'r trigolion, sydd wedi sôn yn gadarnhaol iawn am ddyluniad mentrus a lliwgar yr adeilad a'r amrywiaeth o wasanaethau sydd ar gael. Mae'n rhan o ail-ddatblygu ehangach Canolfan Maelfa yn Llanedeyrn, lle bydd hefyd rodfa siopa newydd a chymysgedd o dai ar rent a thai preifat. Agorodd yr Hwb yn Llanisien i'r cyhoedd ym mis Tachwedd 2017 ac y mae'r gwaith a wnaed yn ganlyniad i brosiect partneriaeth gyda Heddlu De Cymru a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Cafwyd yr agoriad swyddogol gyda lansio rhaglen lawn o weithgareddau, o ddosbarthiadau stori i blant i Ddydd Mawrth Llesol i'r rhai dros 50oed. Mae'r ddwy Hwb wedi cael adwaith ffafriol gan y cwsmeriaid o ran gwasanaethau a chyfleusterau. Mae anghenion yr Hybiau Cymunedol yn cael eu hasesu yn gyson er mwyn gwella'r ddarpariaeth gwasanaeth ac y mae awgrymiadau cwsmeriaid yn cael eu gweithredu'n aml lle bo modd.

*Cofnododd mesur boddhad cwsmeriaid yr Hwb fod 98 % o'r rhai gymerodd ran yn yr arolwg yn cytuno â'r gosodiad "Yn gyffredinol, roedd yr Hwb yn cwrdd â'm gofynion/Fe gefais beth oeddwn ei angen"*

**Her Ddarllen yr Haf** oedd yr un fwyaf llwyddiannus eto. Thema 'Asiantaid Anifeiliaid' oedd i'r digwyddiad:
- Ymunodd 7,511 o blant a'r cynllun, cynnydd o 16 % dros y flwyddyn flaenorol.
- Gyda chyfradd gwblhau o 67.7 %, gorffennodd 5,085 o blant yr her, gan ddarllen 6 o lyfrau dros wyliau'r haf.
- Cwblhaodd 17 % yn fwy o blant yr her o gymharu â llynedd.

Dechreuodd y **Tîm Cyfleoedd Dydd** ddatblygu mecanwaith gyfeirio o Ffisiotherapyddion Cymunedol a'r Tîm Cymunedol Anafiadau i'r Ymennydd. Gweithiodd y gwasanaeth hefyd mewn partneriaeth â'r Hybiau i ddatblygu a lansio Mercher Lles, gan ddwyn pobl hŷn i mewn i hybu gweithgareddau ac amrywiaeth o gyfleoedd. Mae'r gwasanaeth yn parhau i ddatblygu'r prosiect Rhyng-genedlaethau i hyrwyddo gweithgareddau rhyng-genedlaethau i bobl hŷn â Dementia.

Mae **Estyn Allan i'r Gymuned** wedi parhau i fwrw ymlaen gyda thros 22,000 o ddinasyddion yn dod i ddigwyddiadau a gyflwynwyd gan y Llyfrgellwyr Datblygu Cymdogaeth yn yr Hybiau a lleoliadau cymunedol yn ystod y flwyddyn.

Trwy ddilyn proses fidio, dyfarnwyd **Trosglwyddiad Asedau Cymunedol** i Rubicon Dance ar gyfer adeilad Llyfrgell y Rhath.

**Gwasanaethau Chwarae**
Mae'r gwasanaeth Chwarae i Blant wedi llwyddo i gyflwyno'r Model Cyflwyno Chwarae ledled Caerdydd yn dilyn trosglwyddo Canolfannau Chwarae trwy drefniadau prydlesu neu ailddatblygu. Fodd bynnag, mewn rhai meysydd, ni chafodd hyn ei gwblhau oherwydd oedi wrth drosglwyddo cyfleusterau.

**Gwasanaeth Troseddu Ieuenctid**
Mae'r perfformiad wedi gwella gyda gostyngiad yn nifer y rhai oedd yn dod i'r System Cyfiawnder Ieuenctid am y tro cyntaf i 75 yn 2017-18, o 109 yn 2016-17.

Bu'r boblogaeth 11-18 oed yng Nghaerdydd yn gyson ar ryw 30,000 ers nifer o flynyddoedd. Mae gwaith caled ac ymroddiad y staff yng Ngwasanaeth Troseddu Ieuenctid (GTI) Caerdydd i leihau troseddu yn debyg i'r duedd genedlaethol mewn gwaith a wneir i gadw plant allan o'r system cyfiawnder troseddol, a'r llwyddiant mewn cael gostyngiad dramatig yn nifer y bobl ifanc sy'n mynd i'r system cyfiawnder troseddol a charchar. Mae'r gwelliannau hyn i bobl ifanc wedi arwain at feichiau achos llai i'r staff a gostyngiad ym maint y gwasanaeth dros y blynyddoedd diwethaf.

Wrth gyflwyno'r model Gwell Rheolaeth Achosion (GrhA), sy'n ymchwilio i weld sut y mae effaith Profiadau Andwyol Plentyndod (PAP) yn dylanwadu ar ymddygiad, gan dargedu'n benodol y troseddwyr cyson hynny sydd mewn perygl o gael eu carcharu, mae Caerdydd a Chymru yn arwain y ffordd mewn ymatebion arloesol i aildroseddu. Mae'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar y model hwn, yn ogystal â chael eu hyfforddi i gyflwyno'r model Arwyddion Diogelwch, y mae Caerdydd yn ei weithredu fel agwedd seiliedig ar gryfder i weithio gyda theuluoedd. Mae naw o bobl ifanc yn cael eu rheoli gan ddenfyddio'r model GrhA adeg ysgrifennu hyn. Mae'r GTI yn cydnabod fod angen i ni oll weithio gyda'n gilydd i roi ymateb unedig i blant y ddinas, fel ei fod yn integreiddio fwy gyda'r Gwasanaethau Plant ac wrth wneud hynny mae wedi ymrwymo i gryfhau ei bartneriaethau gydag asiantaethau megis y Ganolfan Adnoddau i'r Arddegau (CAA) sydd newydd ei datblygu a'r tîm Meddwl yn Ddiogel! yng Nghaerdydd, gan gyflwyno rhaglenni magu plant a chynghori ar gyfarfodydd amlasiantaethol. Hefyd, mae cysylltiadau partneriaeth ehangach y Cyngor yn allweddol i ddatblygu'r cymhlethdod cynyddol mewn themâu sy'n bodoli eisoes a rhai fydd yn ymddangos wrth i ni fynd i'r afael â chynnydd mewn troseddau cyllyll, ecsploetio a defnyddio cyffuriau. Mae Cyngor Caerdydd yn gweithio'n galed ar lefel strategol gyda'r Gwasanaeth Ieuenctid, Iechyd ac Addysg i ddatblygu ymyriadau cydweithredol i gwrdd â'r heriau i bob plentyn ar draws y ddinas, gan sicrhau eu bod hwy a phoblogaeth ehangach Caerdydd yn ddiogel.

Ymysg gweithgareddau eraill y GTI yn ystod y flwyddyn mae:

- Bu rhandir y GTI ar waith am yr ail flwyddyn yn olynol, gyda'r holl gynnyrch yn cael ei roi i Ganolfan Huggard i fwydo pobl ddigartref Caerdydd.
- Recriwtiwyd gwirfoddolwyr newydd a chawsant eu hyfforddi i ymwneud â nifer o swyddogaethau yn y GTI, megis gweithredu fel oedolion priodol yng ngorsaf yr heddlu, a hwyluso Paneli Gorchmynion Cyfeirio a Chymodi Cymdogaethau.
- Bu person ifanc sy'n cael ei oruchwylio gan y GTI mewn trafodaeth bord gron ynghylch troseddu cyllyll yn y Senedd yn Llundain.

Cadarnhawyd nad oedd dewisiadau am fodel Gwasanaeth Troseddu Ieuenctid rhanbarthol erbyn Mawrth 2018 ar yr agenda am 2017-18, felly rhoddwyd y gorau i'r cam hwn yn y flwyddyn ariannol

**Crynodeb o'n Perfformiad**
Gwnaeth y Cyngor gynnydd da i uno cyflwyno gwasanaethau er mwyn darparu cyfleusterau o ansawdd well i ddinasyddion. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn parhau i wynebu toriadau cynyddol i'w gyllideb ynghyd â phwysau mwy o alwadau a'r twf a ddisgwylir yn y boblogaeth. Golyga hyn y bydd yn rhaid i'r Cyngor weithio ochr yn ochr â'i ddinasyddion a phartneriaid i wneud newid radical yn y modd mae'n cyflwyno ei wasanaethau. Ystyr hyn fydd mabwysiadu yn gynyddol agwedd 'Digidol yn Gyntaf', gan wneud y defnydd gorau o dechnolegau newydd i redeg ein gwasanaethau, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud a thrafodion, mor effeithiol ac effeithlon ag sydd modd, a darparu mynediad digidol nad yw'n wahanol o gwbl i'r hyn sydd ar gael i ddinasyddion ym mhob agwedd arall o'u bywydau. Bydd yn golygu masnacheiddio gwasanaethau lle bo hynny'n briodol a lle mae'r cyfle'n bodoli, a defnyddio'r dystiolaeth a'r data gorau i dargedu adnoddau lle cânt yr effaith fwyaf. Bydd hefyd yn golygu datblygu partneriaethau buddiol gyda gwasanaethau cyhoeddus eraill, gyda'r trydydd sector, gyda'n hawdurdodau cyfagos a, lle bo hynny'n briodol, gyda'r sectorau preifat ac annibynnol.

Rydym wedi asesu'r amcan lles hwn fel un sy'n gwneud cynnydd **da**.

# 4.2 Mae gan y Cyngor drefniadau llywodraethiant effeithiol a gwell perfformiad mewn meysydd allweddol

**Beth ddywedasom y buasem yn wneud**

Bydd Cyngor Caerdydd yn parhau i ddatblygu ein hagwedd at Reoli Perfformiad er mwyn galluogi gwneud penderfyniadau a arweinir gan dystiolaeth a pharhau i wella mewn meysydd gwasanaeth allweddol.

**Sut y gwnaethom ni fesur ein perfformiad?**

| Dangosydd Perfformiad | Canlyniad 2016-17 | Canlyniad 2017-18 | Targed 2017-18 | Ydym ni wedi gwella? |
|---|---|---|---|---|
| % Adolygiadau Perfformiad a Datblygiad Personol a gwblhawyd i staff | 90% | 95% | 95% | Ydym |
| Nifer dyddiau gwaith/shifftiau am bob gweithiwr cyfatebol amser llawn (CALl) a gollwyd oherwydd absenoldeb salwch | 10.77 | 11.27 | 9 | Na |
| Nifer ymweliadau gweddarlledu 'byw' Cyfarfodydd Llawn y Cyngor | 1849 | 1,113 | 1200 | Na |
| Nifer ymweliadau gweddarlledu 'byw' Pwyllgorau Cynllunio | 1001 | 982 | 600 | Na |
| Nifer ymweliadau gweddarlledu 'byw' Pwyllgorau Craffu | 119 | 205 | 400 | Ydym |
| Nifer cyfranwyr allanol i gyfarfodydd Craffu | Dangosydd Newydd | 188 | 140 | Dangosydd Newydd |

**Cynnydd yn 2017-18**

Er y bu'n rhaid iddynt ddarganfod arbedion cyllideb o fwy na £145m yn ystod y pum mlynedd a aeth heibio, mae Cyngor Caerdydd wedi parhau ar eu taith i wella. Yn 2017-18, Caerdydd oedd yr awdurdod oedd yn perfformio bumed orau o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru, wedi codi o 13 y flwyddyn cynt. Yn gyffredinol, Caerdydd oedd â'r nifer uchaf ar y cyd o ddangosyddion oedd wedi gwella o'r 22 awdurdod lleol, a'r nifer isaf ar y cyd o'r rhai oedd wedi dirywio, ac ar y sail hon gellid dweud mai hwy oedd y cyngor a wellodd orau yng Nghymru yn 2017-18.

Yr oedd Caerdydd hefyd yn drydydd am lefel boddhad dinasyddion gyda gwasanaethau Cyngor a hwy oedd un o'r darparwyr gwasanaethau cyhoeddus yr oedd y mwyaf o ymddiried ynddynt yng Nghymru, yn ol un o arolygon barn mwyaf helaeth Llywodraeth Cymru. Dengys yr adroddiad cwynion blynyddol y cofnodwyd cyfanswm o 1,907 cwyn yn ystod 2017-18. Mae hwn yn gynnydd o 7.7% ers y flwyddyn flaenorol, pryd y cofnodwyd 1,770 o gwynion. Cyn y cynnydd hwn, yr oedd cwynion i Gyngor Caerdydd wedi cwympo am bum mlynedd yn olynol.

O ran gwasanaethau i gwsmeriaid, mae gan y Cyngor feysydd o arferion cyson dda, megis ein rhwydwaith o Hybiau Cymunedol, ein darparwyr Pwynt Cyswllt Cyntaf, ceidwaid parciau, stiwardiaid mewn digwyddiadau, a staff y llyfrgelloedd. Mae cyflwyno gwasanaethau ar draws nifer o wasanaethau gweladwy hefyd yn dda, er eu bod yn ymdrin â galw uchel iawn yn rheolaidd. Er enghraifft, mae Rheoli Gwastraff yn gwneud dros 24 miliwn o gasgliadau gyda chyfradd fethiant sy'n llai na 1%. Mae ymwneud yn dda gyda chwsmeriaid yn amlwg yn y timau cyflwyno gwasanaethau rheng-flaen a bydd y Cyngor yn parhau i weithio er mwyn sicrhau y nodweddir rheolaeth cwsmeriaid gan yr un lefel o ragoriaeth ledled y sefydliad.

**Strategaeth Rheoli Perfformiad**

Datblygwyd Fframwaith Rheoli Perfformiad a strategaeth ddiwygiedig. Cynhyrchwyd cynllun i lansio ac yna cyflwyno'r cynnwys ar draws y sefydliad, a chaiff ei weithredu yn dilyn gorffen mwy o ymgynghori gyda rhanddeiliaid allweddol.

**Lleihau Salwch**
Y ffigwr diwedd blwyddyn am absenoldeb salwch oedd 11.27 dydd a gollwyd fesul Gweithwyr Cyfatebol Amser Llawn (CALl), sef 0.5 diwrnod yn uwch na 2016-17 a 2.27 diwrnod yn uwch na'r targed o 9.0 diwrnod. Mae gwaith wedi cychwyn ar y cynllun gweithredu APSE, gyda grwpiau ffocws yn cael eu cynnal gyda staff rhwng-flaen a mynd i feysydd sydd â chyfraddau uchaf o salwch i ddeall problemau penodol y meysydd hynny. Nodwyd swyddogion arweiniol ar gyfer y gwahanol argymhellion ac y mae camau yn cael eu rhoi ar waith. Er enghraifft, mae swyddogion wedi cwrdd â chydweithwyr yn y GIG i edrych i weld sut y gallwn weithio gyda chlystyrau meddygon teulu a meddygfeydd i hyrwyddo ein gwasanaeth iechyd galwedigaethol mewnol er mwyn gwella cyflymder cyfeirio at wasanaethau. Bu gan y Cyngor berthynas ers amser gyda'r grŵp Dinasoedd Craidd o ran monitro absenoldeb salwch. Dengys canlyniadau 2017-18 fod Cyngor Caerdydd yn perfformio'n well na Chyngor Dinas Manceinion a Chyngor Dinas Sheffield.

**Gweithredu Adolygiad Personol ar ei Newydd Wedd**
Yn ystod y flwyddyn gweithredwyd proses Adolygiad Personol newydd i holl staff y Cyngor. Dengys adborth gan y staff fod y broses hon wedi cael derbyniad da: dyma rai canfyddiadau allweddol:

- Cafodd 89% o weithwyr gyfle i gwrdd â'u rheolwr llinell i drafod eu hamcanion
- Yr oedd 75% o'r staff yn fodlon â'u sgwrs gyda'u rheolwr llinell
- Teimlai 65% o'r staff eu bod yn deall eu cyfraniad i amcanion cyffredinol y Cyngor
- Teimlai 60% o weithwyr fod y broses newydd yn fwy personol
- Teimlai 60% o weithwyr fod y broses Adolygiad Personol newydd yn gweithio'n dda

**Safon Iechyd Corfforaethol**
Cyrhaeddodd y Cyngor lefel arian y Safon Iechyd Corfforaethol ac y mae wedi datblygu cynllun gweithredu i weithio tuag at lefel Aur y safon. Mae'r Safon Iechyd Corfforaethol yn gosod fframwaith ansawdd am iechyd a lles yn y gweithle ac y mae'n rhan o raglen 'Cymru'n Gweithio'n Iach' Llywodraeth Cymru.

**Crynodeb o'n Perfformiad**
Yr oedd perfformiad y Cyngor o ran y dangosydd cenedlaethol a osodwyd (Mesur Atebolrwydd Cyhoeddus) yn parhau i ddangos cryn welliant yn 2017/18 yn gyffredinol; fodd bynnag, un eithriad amlwg i'r darlun hwn o wella oedd y gyfradd Absenoldeb Salwch Corfforaethol.

I gynnal siwrne Caerdydd tuag at wella bydd angen canolbwyntio ar flaenoriaethau'r Cyngor ac ar gyflwyno Rhaglen Uchelgais y Brifddinas yn llwyddiannus; rhaglen yw hon sydd yn anelu at wella effeithlonrwydd a pherfformiad gwasanaethau ac ar yr un pryd sicrhau cynaliadwyedd gwasanaethau rheng-flaen allweddol at y tymor hir.

Rhai o'r camau allweddol i gyrraedd hyn fydd:

- Gwella iechyd a lles gweithwyr, ac yn sgil hynny, atal y dirywiad mewn perfformiad a welir yn y ffigyrau Absenoldeb Salwch Corfforaethol,
- Parhau i gefnogi Datblygu Staff
- Dwyn pobl a chymunedau i mewn i benderfyniadau
- Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth, gan ofalu y gwarchodir hawliau dinasyddion mewn unrhyw newid i'n gwasanaethau cyhoeddus.

Rydym wedi asesu'r amcan lles hwn fel un sy'n gwneud cynnydd **boddhaol**.

# 4.3 Trawsnewidir ein gwasanaethau i'w gwneud yn fwy hygyrch, hyblyg ac effeithiol

### Beth ddywedasom y buasem yn wneud

Mae Cyngor Caerdydd eisiau moderneiddio ei stad trwy leihau nifer yr adeiladau y mae ynddynt a gwella effeithlonrwydd yr eiddo sydd weddill. Mae'r Cyngor hefyd eisiau datblygu a gweithredu modelau amgen o gyflwyno gwasanaethau, yn y Cyngor a thu allan, a nodi sut mae modd masnacheiddio rhai gwasanaethau yn effeithiol.

### Sut y gwnaethom ni fesur ein perfformiad?

| Dangosydd Perfformiad | Canlyniad 2016-17 | Canlyniad 2017-18 | Targed 2017-18 | Ydym ni wedi gwella? |
|---|---|---|---|---|
| Gostyngiad yn arwynebedd gros mewnol adeiladau sy'n cael eu defnyddio mewn tr. sg. (% newid) | 7.9% | 0.8% | 1% | Na |
| Nifer cysylltiadau gan gwsmeriaid â'r Cyngor yn defnyddio sianeli digidol | 636,184 | 784,567 | 699,802 | Ydym |
| Gostyngiad yng nghyfanswm cost rhedeg adeiladau a ddefnyddir | 9.2% | 1% | 2.8% | Na |
| Lleihau swm y gwaith cynnal sydd wedi cronni | £8.8m | £1,215,817 | £1.3m | Na |
| Incwm Cyfalaf a gynhyrchwyd (swm) | £6m | £3,864,321 | £7.3m | Na |
| Incwm gros net Masnachol a Chydweithredol (swm) | Dangosydd Newydd | £340,000 | £459k | Dangosydd Newydd |
| Gwell boddhad cwsmeriaid â gwasanaethau Masnachol a Chydweithredu | Dangosydd Newydd | 90% | Sefydlu gwaelodlin | Dangosydd Newydd |
| Cynnal boddhad cwsmeriaid/dinasyddion â gwasanaethau'r Cyngor (Arolwg Holi Caerdydd) | 68.2% | 57.4% | 70% | Na |

### Cynnydd yn 2017-18
### Strategaeth eiddo am lai o adeiladau ond rhai gwell

Mae'r Cyngor yn rheoli stad o ryw 1000 eiddo gyda gwerth defnydd cyfredol o ryw £1.2 biliwn. Mae 450 eiddo (2,000 o adeiladau) yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd at ddibenion gweithredol.

Yn gynnar yn 2017 gweithredodd y Cyngor raglen 'Landlord Corfforaethol' newydd i wella rheolaeth strategol y stad. Nod y model Landlord Corfforaethol yw canoli pob swyddogaeth sy'n ymwneud ag eiddo dan un gyfarwyddiaeth i wneud gwell penderfyniadau, gwella llywodraethiant a rheolaeth ariannol i'r stad tir ac adeiladau heb fod yn gartrefi.

Yn ystod 2017-18, bwriwyd ymlaen ag Arolygon Cyflwr a Defnydd Eiddo ar draws y stad weithredol er mwyn deall yn well faint o waith cynnal oedd wedi cronni, blaenoriaeth y gwaith a nodwyd, defnyddio gofod, a defnydd amgen a chyfleoedd refeniw cysylltiedig â holl adeiladau ac asedau tir y Cyngor. Cymeradwywyd rhaglen newydd o Gynlluniau Eiddo Gwasanaeth gan y Bwrdd Rheoli Asedau, a fydd yn deall amcanion cyflwyno gwasanaeth pob Maes Gwasanaeth yn y tymor byr, canol a hir, a sut y mae a wnelo hyn â'r gofynion eiddo.

Sefydlwyd Bwrdd Buddsoddi ac y mae'n monitro gweithgaredd y stad yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod y Strategaeth Buddosddi Stadau yn cael ei gweithredu.

Ochr yn ochr â datblygu'r model Landlord Corfforaethol, parhaodd y Cyngor i ddilyn amcanion Strategaeth Eiddo Corfforaethol 2015-20 yng nghyswllt moderneiddio, rhesymoli a chydweithredu, gyda'r Cabinet yn cymeradwyo Cynllun Corfforaethol Rheoli Tir ac Eiddo (CCRhTA) -2018-19 ym mis Chwefror. Hefyd, ail-sefydlwyd y Bwrdd Rheoli Asedau Partneriaeth (BRhAP) i geisio cyfleoedd cydweithredu gyda mudiadau eraill y sector cyhoeddus.

**Digideiddio**

Gwelodd y flwyddyn ariannol hon gynnydd sylweddol mewn cyswllt cwsmeriaid trwy sianeli digidol. Mae lansio dyluniad newydd gwefan y Cyngor wedi arwain at gynnydd o ran cyflwyno ffurflenni yn well a chyfeirio cwsmeriaid at y cynnwys perthnasol. Darparwyd canlyniadau o Arolwg Cyswllt Cwsmeriaid 2018 ac y maent yn dangos fod llawer wedi manteisio ar hyn, gyda 974 yn cyflwyno. Yr oedd bron i 94% o'r ymatebwyr wedi ymweld â'r wefan yn ystod y 6 mis a aeth heibio a gallodd 90% o'r rhain gwblhau'r dasg y daethant at y wefan i'w gwneud. Yr ydym yn parhau i ddatblygu'r prosiect i gynyddu'r gwasanaethau ar-lein a gynigir gan ganolfan gyswllt y Cyngor, Cysylltu â Chaerdydd (C2C), a chynlluniwyd manylion yr ail gam. Cafwyd canlyniadau cadarnhaol o ran y sawl a ddefnyddiodd y gwasanaethau presennol yn 2017-18.

**Fflyd y Cyngor**

Mae'r Cyngor yn rhedeg fflyd sylweddol o gerbydau wrth gyflwyno ei wasanaethau, ac y mae camau cadarnhaol o ran ymddygiad gyrrwyr a manylebion cerbydau wedi lleihau allyriadau carbon y fflyd o ryw 10% rhwng 2014-15 a 2015-16. Yn 2016, ysgwyddodd y Tîm Gwasanaethau Masnachol y cyfrifoldeb am weithgareddau Gwasanaethau Trafnidiaeth Canolog (GTC) fel rhan o fenter i geisio cyflwyno newid trylwyr yn y modd mae'r Cyngor yn prynu, rheoli cydymffurfio, yn darparu gwybodaeth rheoli ac yn cefnogi meysydd gwasanaeth i roi gwell gwasanaethau am gost is. Yn ystod 2017-18 canolbwyntiodd y Cyngor ar gerbydau allyriadau isel a thanwydd amgen wrth brynu cerbydau newydd, ac y mae'r rhain yn awr yn 11% o'r fflyd gorfforaethol.

Yn ddiweddar, ystyriodd y Cabinet effaith rhedeg fflyd y Cyngor ei hun ar ansawdd aer yn y ddinas fel yr amlinellir yn y Strategaeth Tanwydd Cludiant Glanach a Gwyrddach. Mae'r strategaeth honno yn gosod allan weledigaeth y Cyngor a'r camau cysylltiedig fydd eu hangen i ddechrau trosi o danwydd ffosil sy'n llygru i ffynonellau ynni mwy cynaliadwy. Galla trosi i danwydd heb fod yn rhai ffosil arwain at 'gostau einioes gyfan' is i'r fflyd a fyddai hefyd yn gwarchod rhag y cynnydd disgwyliedig anorfod yng nghostau tanwydd ffosil a gwneud cyfraniad sylweddol i wella safonau ansawdd aer yng Nghaerdydd.

**Masnacheiddio gwasanaethau allweddol**

Gwnaed cynnydd da o ran masnacheiddio gwasanaethau yn 2017-18. Yr oedd hyn yn cynnwys sefydlu model prisio cost ar gyfer GTC; gweithredu system TG Rheoli Fflyd gydnabyddedig i GTC i wella perfformiad busnes; gwneud gwaith trwsio cerbydau yn fewnol gan weithdy GTC, lle bu gynt yn allanol; gwelliannau ym manylebion gwaith cynnal adeiladau, a arweiniodd at gostau tasg is; gwelliannau cynhyrchedd yn Sefydliad Llafur Uniongyrchol y Gwasanaethau Adeiladau; a chyflwyno model cost newydd a chamau rheoli masnachol i'r Gwasanaethau Glanhau, sydd wedi arwain at well perfformiad ariannol Cyflwynwyd Tîm Swyddogion Cyswllt Cleientiaid newydd hefyd gyda'r nod o wella cyfathrebu gydag ysgolion, helpu i ddatblygu Cytundebau Lefel Gwasanaeth (CLG) a bidiau masnachol, a helpu i ddatrys unrhyw broblemau gyda chyflwyno gwasanaethau.

**Strategaeth Gweithlu**

Adolygwyd y Strategaeth Gweithlu i gyd-fynd ag amcanion Uchelgais y Brifddinas, a datblygwyd strategaeth newydd i'r Cabinet gytuno arni yn 2018-19.

Parhawyd i weithredu cynllunio gweithlu ar draws y Cyngor gyda nifer o feysydd gwasanaeth yn gweithio gydag AD Gwasanaethau Pobl. Cafwyd cynllun peilot o'r pecyn gwasanaeth Cynllunio Gweithlu yn 2017-18, gan roi adborth i'r Uwch-Dîm Rheoli a chytuno i gyflwyno'r cynllun peilot ar draws y sefydliad ar gyfer 2018-19 gyda gofyn i bob gwasanaeth, gyda chefnogaeth gan AD Gwasanaethau Pobl, i gynhyrchu Cynlluniau Gweithlu fydd yn darparu dolenni i'w cynlluniau busnes ac ariannol.

**Crynodeb o'n Perfformiad**
Mae cwmpas a graddfa her gyllideb y Cyngor, ochr yn ochr â'r galw cynyddol a greir gan dwf sydyn y ddinas, yn golygu nad oes dianc rhag y ffaith y bydd angen i holl wasanaethau'r Cyngor gynllunio am gyfnod o ymaddasu radical. Mewn gair, mae'n rhaid i lawer o'n gwasanaethau cyhoeddus newid os ydynt am oroesi.

Erys rhedeg a chyflwyno swyddogaethau a chyfrifoldebau Landlord Corfforaethol y Cyngor yn her sylweddol o ran lefel y risg a'r atebolrwydd y mae'n rhaid i'r Cyngor eu rheoli yn effeithiol yn gyson. Dengys canlyniadau ein Cynllun Corfforaethol Rheoli Tir ac Eiddo am 2017-18 na chyrhaeddwyd y targedau blynyddol am AMG, Refeniw, lleihau'r gwaith cynnal sydd wedi cronni a derbyniadau cyfalaf. Golygodd oedi gyda thrafodion ac amserlenni diwygiedig am brosiectau fod rhai mathau dethol o eiddo yn cael eu symud o raglen 2017-18 i 2018-19. Rhagwelir y bydd targedau Strategaeth Eiddo Corfforaethol 2020 ynghylch AMG, gostwng costau cynnal a rhedeg, ynghyd a chyflwyno derbyniadau cyfalaf oll yn cael eu cyrraedd a mynd yn uwch na hynny erbyn Ebrill 2020. Hefyd, er y cafwyd cynnydd yn incwm rhai gwasanaethau masnachol, er enghraifft, Trin Gwastraff Masnachol a Thrydydd Parti, cafwyd gostyngiad cyffredinol mewn incwm dros gyfnod 2017-18.

Mae boddhad cyffredinol cwsmeriaid gyda gwasanaethau'r Cyngor wedi parhau i ddirywio yn 2017-18. Er bod y dirywiad hwn yn unol â'r duedd mewn awdurdodau lleol ledled y DU, erys y dyhead i gyflwyno gwasanaethau o safon uchel sy'n cael eu cydnabod felly gan ddinasyddion Caerdydd, a chynhelir dadansoddiad o'r rhesymau dros y dirywiad er mwyn adnabod unrhyw sbardunau allweddol sydd yn gyrru'r dirywiad.

Rydym wedi asesu'r amcan lles hwn fel un sy'n gwneud cynnydd **boddhaol**.

## Mesuriadau Atebolrwydd Cyhoeddus – Perfformiad 2017-18

| Cyfeirnod | Dangosyddion llwyddiant | Canlyniad 2016-17 | 2017-18 Targed | Canlyniad 2017-18 | Cyfartaledd Cymru | Cyrhaeddwyd y targed | Tuedd | Safle Caerdydd (o 22 Awdurdod Lleol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| PAM/001 | Nifer y dyddiau gwaith a gollwyd i salwch fesul gweithiwr | 10.77 | 9 | 11.27 | 10.4 | Ni chyrhaeddwyd y targed | Gostyng odd | 19 |
| PAM/006 | Disgyblion Blwyddyn 11 yn cael 5 TGAU ar raddau A*-C, neu'r hyn sy'n cyfateb, gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a Mathemateg – Lefel 2+ | Newydd | Newydd | 58.50% | 54.8% | Ddim yn gymwys | Newydd | 5 |
| PAM/007 | Presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd | 95.0% | 95.0% | 95.0% | 94.9% | Cyrhaeddwyd y targed | Maintained | 8 |
| PAM/008 | Presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd | 94.5% | 95.0% | 94.20% | 94.1% | Ni chyrhaeddwyd y targed | Gostyng odd | 11 |
| PAM/009 | Gadawyr Blwyddyn 11 heb fod mewn addysg, gwaith na hyfforddiant (NEGH) | Newydd | Newydd | 1.6% | 1.6% | Newydd | Newydd | 15 |
| PAM/010 | Strydoedd sy'n lân | 90.5% | 90.0% | 94.3% | 95.8% | Cyrhaeddwyd y targed | Wedi gwella | 13 |
| PAM/011 | Digwyddiadau tipio anghyfreithlon a gliriwyd o fewn 5 diwrnod gwaith | 98.35% | 90.0% | 99.04% | 95.08% | Cyrhaeddwyd y targed | Wedi gwella | 5 |
| PAM/012 | Aelwydydd y llwyddwyd i'w hatal rhag dod yn ddigartref | Newydd | 50% | 72.9% | 66.4% | Cyrhaeddwyd y targed | Newydd | 3 |
| PAM/013 | Eiddo preifat gwag a ddygwyd yn ôl i ddefnydd | Newydd | 2.8% | 1.3% | 5.2% | Ni chyrhaeddwyd y targed | Newydd | 20 |
| PAM/015 | Nifer cyfartalog dyddiau calendr a gymerwyd i gyflwyno grant cyfleusterau i'r anabl | 200 | 200 | 179 | 213 | Cyrhaeddwyd y targed | Wedi gwella | 6 |
| PAM/016 | Nifer ymweliadau llyfrgell fesul 1,000 o boblogaeth | 9050 | 9000 | 9225 | 5270 | Cyrhaeddwyd y targed | Wedi gwella | 1 |
| PAM/017 | Nifer ymweliadau â chanolfannau hamdden fesul 1,000 o boblogaeth | 7263 | 8266 | 7517 | 8502 | Ni chyrhaeddwyd y targed | Wedi gwella | 17 |
| PAM/018 | Ceisiadau cynllunio a bennwyd mewn pryd | Newydd | 60% | 90.6% | 88.5% | Cyrhaeddwyd y targed | Newydd | 9 |
| PAM/019 | Apeliadau cynllunio a wrthodwyd | Newydd | 65% | 81.2% | 62.2% | Cyrhaeddwyd y targed | Newydd | 4 |
| PAM/020 | Prif Ffyrdd A sydd mewn cyflwr cyffredinol wael | 4.1% | 5% | 3.3% | 3.7% | Cyrhaeddwyd y targed | Wedi gwella | 11 |
| PAM/021 | Ffyrdd B heb fod yn brif rai sydd mewn cyflwr cyffredinol wael | 7.1% | 8% | 5.6% | 4.3% | Cyrhaeddwyd y targed | Wedi gwella | 19 |
| PAM/022 | Ffyrdd C heb fod yn brif rai sydd mewn cyflwr cyffredinol wael | 6.9% | 8% | 6.0% | 14.1% | Cyrhaeddwyd y targed | Wedi gwella | 5 |
| PAM/023 | Sefydliadau bwyd sy'n 'cydymffurfio'n fras' â safonau hylendid bwyd | 90.74% | 93% | 92.71% | 95.27% | Ni chyrhaeddwyd y targed | Wedi gwella | 18 |

| Cyfeirnod | Dangosyddion Llwyddiant | Canlyniad 2016-17 | Targed 2017-18 | Canlyniad 2017-18 | Cyfartaledd Cymru * | Cyrhaeddwyd y targed | Tuedd | Safle Caerdydd (o 22 Awdurdod Lleol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| PAM/024 | Oedolion sy'n fodlon a'u gofal a chefnogaeth | Data heb fod ar gael tan Tachwedd 2018 | | | | | | |
| PAM/025 | Cyfradd pobl a gedwir yn yr ysbyty tra'u bod yn aros am ofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75+ oed | Data heb fod ar gael tan Tachwedd 2018 | | | | | | |
| PAM/026 | Gofalwyr yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth | Data heb fod ar gael tan Tachwedd 2018 | | | | | | |
| PAM/027 | Plant sy'n fodlon a'u gofal a'u cefnogaeth | Data heb fod ar gael tan Tachwedd 2018 | | | | | | |
| PAM/028 | Asesiadau plant a gwblhawyd mewn pryd | Data heb fod ar gael tan Tachwedd 2018 | | | | | | |
| PAM/029 | Plant mewn gofal oedd wedi gorfod symud 3 gwaith neu fwy | Data heb fod ar gael tan Tachwedd 2018 | | | | | | |

| Cyfeirnod | Dangosyddion Llwyddiant | Canlyniad 2016-17 | Targed 2017-18 | Canlyniad 2017-18 | Cyfartaledd Cymru * | Cyrhaeddwyd y targed | Tuedd | Safle Caerdydd* (o 22 Awdurdod Lleol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| PAM/030 | Gwastraff a ail-ddefnyddir, ailgylchwyd neu a gompostiwyd | 58.12% | 61.00% | 58.24 % | Ddim yn gymwys | Ni chyrhaeddwyd y targed | Wedi gwella | Ddim yn gymwys |
| PAM/031 | Gwastraff a yrrir i dirlenwi | 1.59% | 25.00% | 1.04 % | Ddim yn gymwys | Cyrhaeddwyd y targed | Wedi gwella | Ddim yn gymwys |

*Gwybodaeth gymharu ddim ar gael tan 29.10.18

# Atodiad 1:
# Gosod Amcanion Lles 2017-18



# 1. Cyflwyniad

Yn dilyn yr etholiadau llywodraeth leol ar 4 Mai 2017, ffurfiwyd Gweinyddiaeth newydd i'r Cyngor. I amlinellu ei uchelgais am y ddinas, gosododd y Weinyddiaeth raglen bolisi newydd am y pum mlynedd nesaf, dan y teitl Uchelgais y Brifddinas, a fabwysiadwyd yn dilyn penderfyniad gan y Cabinet ar 6 Gorffennaf 2017.

Yng ngwanwyn 2018 mabwysiadodd y Cyngor Gynllun Corfforaethol newydd, sy'n troi blaenoriaethau'r Weinyddiaeth yn amcanion sefydliadol y gellir eu cyflwyno. Ar yr un pryd, mabwysiadodd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus y ddinas (a'i bedwar aelod statudol) Gynllun Lles newydd i Gaerdydd, sydd yn gosod allan flaenoriaethau y cytunwyd arnynt ar y cyd ar gyfer partneriaid gwasanaethau cyhoeddus y ddinas dros y pum mlynedd nesaf.

Mae'r Cynllun Corfforaethol a'r Cynllun Lles yn rhannu saith amcan lles:

- Prifddinas sy'n gweithio i Gymru
- Caerdydd yn tyfu mewn ffordd wydn
- Cymunedau diogel, hyderus sydd wedi eu grymuso
- Caerdydd yn lle gwych i brifio ynddi
- Cefnogi pobl allan o dlodi
- Caerdydd yn lle gwych i heneiddio ynddi
- Moderneiddio ac integreiddio ein gwasanaethau cyhoeddus

Mae'r ddogfen hon yn gosod allan sut y datblygwyd yr amcanion lles newydd hyn ac y cytunwyd arnynt, yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy fel y'i diffinnir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Y Ddeddf).

# 2. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Nod y Ddeddf yw sicrhau lles economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol Cymru ac y mae'n gosod dyletswydd statudol ar gyrff cyhoeddus i weithio tuag at gyrraedd saith nod lles cenedlaethol a gwreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

Mae'r Ddeddf yn gosod saith nod lles cenedlaethol:

- Cymru Ffyniannus
- Cymru Wydn
- Cymru Gyfartal
- Cymru Iach
- Cymru o Gymunedau Cydlynus
- Diwylliant Bywiog a'r Iaith Gymraeg yn Ffynnu
- Cymru sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang

Rhaid i'r Cyngor gynnal datblygu cynaliadwy trwy wneud y canlynol:

- Gosod a chyhoeddi amcanion lles
- Cymryd pob cam rhesymol i gwrdd â'r amcanion hynny

Mae'r Ddeddf yn diffinio egwyddor datblygu cynaliadwy fel **gweithredu 'mewn dull sy'n ceisio sicrhau yr atebir anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i gwrdd â'u hanghenion eu hunain'.**

Er mwyn ymddwyn fel hyn, rhaid i gyrff cyhoeddus ystyried y 'pum ffordd o weithio'. Dyma hwy:

- **Tymor hir** – pwysigrwydd cydbwyso anghenion tymor-byr gyda'r angen i ddiogelu'r gallu i gwrdd hefyd ag anghenion tymor-hir

- **Atal** – sut y gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gwrdd â'u hamcanion

- **Integreiddio** – ystyried sut y gall amcanion lles y corff cyhoeddus gael effaith ar bob un o'r nodau lles, ar eu hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill

- **Cydweithredu** – gweithredu ar y cyd ag unrhyw unigolyn arall (neu rannau gwahanol y corff ei hun) a allai helpu'r corff i gwrdd â'i amcanion lles

- **Ymwneud** – pwysigrwydd dwyn i mewn bobl â diddordeb mewn cyrraedd y nodau lles a sicrhau fod y bobl hynny yn adlewyrchu amrywiaeth yr ardal mae'r corff yn ei wasanaethu

# 3. Fframwaith Cynllunio a Pholisi

**Uchelgais y Brifddinas: Blaenoriaethau polisi Gweinyddiaeth Wleidyddol y Cyngor**

Yn dilyn yr etholiadau llywodraeth leol ar 4 Mai 2017, ffurfiwyd Gweinyddiaeth newydd i'r Cyngor. I amlinellu ei uchelgais ar gyfer y ddinas, gosododd y Weinyddiaeth allan raglen bolisi am y pum mlynedd nesaf, dan y teitl Uchelgais y Brifddinas, a fabwysiadwyd yn dilyn penderfyniad y Cabinet ar 6 Gorffennaf 2017.

Nododd Uchelgais y Brifddinas bedwar blaenoriaeth:

- **Gweithio i Gaerdydd**: Gwneud yn siwr y gall ein holl ddinasyddion gyfrannu at lwyddiant y ddinas ac elwa ohono.
- **Gweithio i Gymru**: Mae ar Gymru lwyddiannus angen prifddinas lwyddiannus, sy'n creu cyfleoedd trwy fwrw ymlaen â thwf economaidd.
- **Gweithio i'r Dyfodol**: Rheoli twf y ddinas mewn modd cynaliadwy.
- **Gweithio i Wasanaethau Cyhoeddus**: Gwneud yn siwr fod ein gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu cyflwyno'n effeithiol, yn effeithlon ac yn gynaliadwy yn wyneb galw cynyddol a chyllidebau llai.

**Cyflwyno Uchelgais y Brifddinas: Alinio Cynlluniau Statudol**

Mae'r Cynllun Corfforaethol yn ddogfen allweddol o ran cyflwyno Uchelgais y Brifddinas, gan ei fod yn trosi blaenoriaethau'r Weinyddiaeth yn amcanion sefydliadol y gellir eu cyflwyno. Fodd bynnag, y mae ochr yn ochr â nifer o ddogfennau strategol eraill, rhai sy'n ofynnol dan statud, sydd yn cefnogi cyflwyno rhannau penodol Uchelgais y Brifddinas. Err enghraifft:

- **Y Cynllun Corfforaethol:** Canolbwyntio ar y materion a'r gwasanaethau a flaenoriaethwyd gan y Cyngor.
- **Y Cynllun Lles**: Mae'r statud yn mynnu bod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Caerdydd yn cynhyrchu Cynllun Lles erbyn mis Ebrill 2018 sydd yn datgan sut y bydd aelodau'r bwrdd yn gweithio mewn partneriaeth i asio neu integreiddio gwasanaethau cyhoeddus yn y ddinas yn well. Mae BGC Caerdydd, dan gadeiryddiaeth Arweinydd y Cyngor, yn dwyn ynghyd arweinwyr sector cyhoeddus a thrydydd sector y ddinas, ac yn adeiladu ar lwyfan sefydledig gweithio mewn partneriaeth yn y ddinas. Oherwydd y bydd cyflwyno Uchelgais y Brifddinas yn gofyn am gydweithredu gyda phartneriaid gwasanaeth cyhoeddus, mae'r Cynllun Lles yn canolbwyntio ar feysydd o fantais gydweithredol wrth gyflwyno gwasanaethau cyhoeddus.
- **Cynllun Ardal Caerdydd a Bro Morgannwg**: Mae gofyn i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol baratoi a chyhoeddi Cynllun Ardal sydd yn gosod allan ystod a lefel y gwasanaethau y bwriadant eu darparu, neu drefnu i gael eu darparu, mewn ymateb i Asesiad Anghenion y Boblogaeth (AAB). Y Cynllun Ardal a'r Cynllun Gweithredu sy'n ei ategu yw ymateb Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a Bro Morgannwg (BPRhCBM) i ganfyddiadau Asesiad Anghenion y Boblogaeth (AAB) a gyhoeddwyd ar 31 Mawrth 2017. Datblygwyd y Cynllun ochr yn ochr â Chynllun Lles Caerdydd ac y mae'n gyson ag ef.
- **Cynlluniau Eraill**: Dylid cydnabod fod nifer o strategaethau, cynlluniau a phartneriaethau eraill – er nad ydynt oll yn ofynnol dan statud – sydd yn bwysig o ran cyflwyno Uchelgais y Brifddinas. Maent yn cynnwys yr isod, ond nid y rhain yn unig:

- Cynllun Busnes Prifddinas-Ranbarth Caerdydd
- Strategaeth Economaidd Caerdydd (gyda'r Papur Gwyrdd yn sail o wybodaeth)
- Strategaeth Trafnidiaeth ac Awyr Lân Caerdydd (gyda'r Papur Gwyrdd yn sail o wybodaeth)
- Strategaeth Tai Caerdydd
- Strategaeth Cysgwyr Allan Caerdydd
- Caerdydd Ddwyieithog

**Cyflwyno Uchelgais y Brifddinas**

Cymeradwywyd rhaglen bedair blynedd i gyflwyno Uchelgais y Brifddinas gan y Cabinet ar 14 Rhagfyr 2017. Bydd y rhaglen yn rhoi sbardun i weithredu agenda'r Weinyddiaeth, gan ganolbwyntio ar y meysydd hynny lle mae angen newid sylfaenol.

Mae dwy ran ar wahân i Raglen Gyflwyno Uchelgais y Brifddinas:

- **Moderneiddio**: Trawsnewid systemau a phrosesau corfforaethol sy'n cefnogi cyflwyno gwasanaethau
- **Gwasanaethau Gwydn**: Trawsnewid gwasanaethau rheng-flaen

**Olrhain Cynnydd**

Cefnogir pob amcan lles gan y canlynol:

**Dangosyddion deilliant** - mae'r dangosyddion hyn yn rhoi trosolwg o berfformiad y ddinas performance. Ni osodwyd targedau yn erbyn y dangosyddion hyn, ond serch hynny, y mae newidiadau yn y deilliannau yn arwyddion pwysig o berfformiad y ddinas ac y maent yn sail i ymyriadau polisi.

**Camau** –mae'r camau yn rhestru'r hyn y bydd y Cyngor yn wneud, ac erbyn pryd, i helpu i gyrraedd pob amcan lles ac i gadw golwg ar gynnydd.

**Mesuriadau Perfformiad Allweddol** – mae'r rhain yn dangos y perfformiad gweithredol sy'n dweud a yw'r camau mae'r Cyngor yn eu cymryd yn cael yr effaith a ddymunir.

**Targedau** - Gwerth rhifol ar fesuriadau perfformiad, sy'n dangos y swm sydd i'w gyrraedd. Gosodwyd y targedau yn dilyn sesiwn gyda 'r holl gadeiryddion a swyddogion Craffu i esbonio'r broses a wnaed i osod targedau drafft.

# 4. Gosod Amcanion Lles

Mae'r adran hon yn esbonio sut mae'r Cyngor wedi:

- Gosod amcanion lles yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy

**Tymor hir:**

*'Rydym yn wynebu cyfle hanesyddol – cyfle i wneud y mwyaf o'r potensial a dod yn brifddinas fawr o bwys yn y byd, lle mae manteision twf yn cael eu teimlo gan ein holl ddinasyddion, ein rhanbarth a'n cenedl …*

*Yn y pen draw. Rwyf eisiau i holl ddinasyddion Caerdydd, waeth beth yw eu credo, hil neu gyfoeth a etifeddwyd, gael y cyfle i gyflawni eu potensial, a chwarae rhan lawn a weithredol ym mywyd ein dinas.'*

Cyng. Huw Thomas -Arweinydd, Uchelgais y Brifddinas

Mae Uchelgais y Brifddinas, ac Amcanion Lles y Cyngor, yn ymateb i'r tueddiadau tymor-hir sydd yn wynebu'r ddinas ac yn gosod gweledigaeth am sut y mae'n rhaid i'r ddinas a gwasanaethau cyhoeddus ymateb.

Wrth ddatblygu amcanion lles y Cyngor defnyddiwyd nifer o ffynonellau tystiolaeth sydd yn nodi'r tueddiadau tymor-hir sy'n wynebu:

- **Uchelgais y Brifddinas**: Mae'r amcanion lles wedi eu gyrru gan weledigaeth a blaenoriaethau polisi tymor hir y Weinyddiaeth, fel sydd wedi ei ddatgan yn Uchelgais y Brifddinas.
- **Asesiad Lles Caerdydd**: Mae'r amcanion lles yn ymateb i'r sail o dystiolaeth a ddarperir gan Asesiad Lles y ddinas yn rhoi dadansoddiad cynhwysfawr o berfformiad Caerdydd yn erbyn amrywiaeth eang o ddangosyddion deilliant, a gyhoeddwyd gan BGC Caerdydd ym Mawrth 2017.
- **Asesiad Anghenion Poblogaeth Caerdydd** (sydd ei angen dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014) sydd yn gosod allan asesiad anghenion grwpiau bregus o bobl.
- **Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol** a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru a dadansoddiad lleol o **'Dueddiadau'r dyfodol yng Nghaerdydd'** a gynhyrchir gan Ganolfan Ymchwil Caerdydd ar ran BGC Caerdydd, gan gynnwys **pwysau'r galwadau** ar wasanaethau sy'n deillio o'r tueddiadau demograffig, economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol tymor-hir.
- Astudiaeth ar **'Anghydraddoldeb y Ddinas'** a gynhyrchwyd gan Ganolfan Ymchwil Caerdydd, ac a gyflwynwyd i'r BGC, Uwch-Dîm Rheoli'r Cyngor a nifer o aelodau staff
- Trwy'r BGC, cyfres a nodwyd o **ddangosyddion deilliant lefel y ddinas** y dymuna'r Cyngor a'i bartneriaid mewn gwasanaethau cyhoeddus eu gwella dros y tymor hir.

**Atal**

*"Mae'n rhaid i ni wneud newid mawr ar lefel y gymuned – uno gwasanaethau ysgolion a chymdeithasol; iechyd a'r heddlu – i gefnogi teuluoedd, a mynd i'r afael â phroblemau yn gynnar, cyn iddynt ddatblygu'n argyfwng."*

**Uchelgais y Brifddinas**

Mae Uchelgais y Brifddinas yn cydnabod, ar draws ystod o wasanaethau, fod angen canoli ar ymyrryd yn gynnar, gan ymdrin  â gwraidd yr achosion ac anelu, lle bo modd i atal problemau cyn iddynt ddigwydd. Bydd hyn yn golygu adnabod plant a theuluoedd bregus a gweithio gyda hwy i osod cefnogaeth yn ei le cyn gynted ag y bo modd, ymhell cyn i argyfwng ddigwydd; bydd yn golygu gweithio i gadw pobl yn annibynnol ac yn iach yn eu cartrefi a'u cymunedau eu hunain cyhyd ag y bydd modd; a bydd yn golygu gweithio i fynd i'r afael â thlodi a chreu dinas fwy cynhwysol, lle mae pob dinesydd yn teimlo eu bod yn gallu cyfrannu at lwyddiant y ddinas ac elwa arno.

Ymysg esiamplau penodol mae:

- **Help cynnar i gefnogi plant bregus**

Mae'r Strategaeth Help Cynnar yn ceisio lleihau nifer y plant, pobl ifanc a theuluoedd sydd angen cefnogaeth gan y Gwasanaethau Cymdeithasol a gwneud atal yn fater i bawb. Mae'r agwedd amlasiantaethol hon yn gosod allan y ffordd y gall gwasanaethau weithio gyda'i gilydd, rhannu gwybodaeth a rhoi plant a theuluoedd yn y canol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn y gefnogaeth maent ei angen ar yr adeg iawn, yn y ffordd iawn. Mae'n cydnabod yr angen i symud y canolbwynt i ffwrdd oddi wrth reoli argyfyngau tymor-byr a thuag at ymyriad effeithiol a chefnogaeth yn gynharach.

- **Gwasanaethau Byw Annibynnol**

Mae'r Pwynt Cyswllt Cyntaf mewn Gwasanaethau Byw Annibynnol yn cefnogi pobl hŷn yng Nghaerdydd i fyw mor annibynnol ag sydd modd na gwella eu lles. Mae'r gwasanaeth yn cynnig ymweliadau cartref sydd yn darparu cefnogaeth holistig i gefnogi pobl hŷn i fyw yn annibynnol. Mae'r Gwasanaethau Ataliol hefyd yn gweithio gyda phobl hŷn i wrthweithio unigrwydd cymdeithasol, gan eu helpu i gysylltu â'u cymunedau trwy'r Tîm Cyfleoedd Dydd. Mae'r gwasanaeth yn gweithio mewn partneriaeth â gwasanaethau iechyd, ein llety gwarchod leol i bobl hŷn a'r trydydd sector i ddarparu ystod o wasanaethau cymdeithasol ac iechyd  bobl hŷn yn yr ardal leol. Helpodd swyddogion adsefydlu tai gyda 115 o bobl a ryddhawyd o ysbytai a nodwyd fel oedi cyn trosglwyddo gofal; defnyddiodd pedwar ar bymtheg o'r unigolion hynny lety camu-i-lawr, gan eu galluogi i adael yr ysbyty ynghynt.

- **Integreiddio Gwasanaethau Cefnogi Cyflogaeth**

Ar draws y ddinas yr oedd dros 40 o wahanol wasanaethau cyflogaeth yn darparu ystod o wasanaethau. Golygodd hyn nad oedd llwybr clir at wasanaethau, dim un golwg unigol ar unigolion na'r gwasanaethau yr oeddent yn eu cyrchu. Yr oedd dyblygu darpariaeth mewn rhai meysydd a bylchau mewn eraill. Yr oedd meini prawf cymhwyster hefyd yn gymhleth, e.e., oedran, cod post, aelwyd ddiwaith, hyd amser ar rai budd-daliadau etc.  I ddatrys y problemau hyn, mae'r Gwasanaeth Cynghori i mewn i Waith wedi ehangu gyda chefnogaeth ar gael i bawb mewn dros 40 lleoliad ar hyd a lled y ddinas.

**Integreiddio**

*“Does yr un ohonom yma dim ond yn “gweithio i’r Cyngor”. Rydym yn gweithio i Gaerdydd.”*

Cyng. Huw Thomas - Arweinydd, araith Uchelgais y Brifddinas i’r staff

Mae Uchelgais y Brifddinas yn ei gwneud yn glir fod yn rhaid i’r Cyngor fel sefydliad symud ymaith oddi wrth ymdrin â phroblemau ar eu pennau eu hunain a dechrau integreiddio timau rheng-flaen sydd â’r grym i ymdrin â’r materion beunyddiol sydd angen eu datrys. Bydd Aelodau Cabinet yn mabwysiadu cyfrifoldeb ar y cyd ar draws eu portffolios, gan yrru ein polisiau ar gyfer newid. Yn yr un modd, ni all cyfarwyddiaethau unigol bellach weithredu fel silos ar wahân: rhaid i’r Cyngor weithredu fel un tîm diwnïad i yrru gwelliant ar draws y ddinas.

- Mae’r amcanion gwella yn canoli ar y deilliannau y mae’r Cyngor (a’i bartneriaid) eisiau eu cyrraedd i bobl Caerdydd, nid dewis gwasanaethau unigol na chyfarwyddiaethau’r Cyngor.

- Yr oedd y broses hunanasesu y gosodwyd yr amcanion a’r camau lles drwyddynt yn ystyried sut y byddai pob cam yn cael effaith (cadarnhaol neu negyddol) ar gyflwyno’r saith amcan lles.

- Mae ‘llinyn aur’ fframwaith polisi’r Cyngor yn gosod allan weledigaeth a blaenoriaethau’r Weinyddiaeth a sut y mae unigolion ledled y sefydliad yn deall sut y gallant gyfrannu at gyflwyno Uchelgais y Brifddinas.

- I ddyfnhau dealltwriaeth o Uchelgais y Brifddinas a sut y gall yr holl staff gyfrannu at ei gyflwyno, sefydlwyd rhaglen ymwneud staff, gan gynnwys:

- Cynhadledd staff lle gosododd yr Arweinydd a’r Cabinet allan Uchelgais y Brifddinas i fwy na 300 o staff.
- Digwyddiadau ymwneud gan yr Arweinydd a’r Prif Weithredwr yn lleoliadau’r Cyngor yn gosod allan Uchelgais y Brifddinas a sut y gall y staff gyfrannu at gyflwyno’r weledigaeth.
- Rhaglen o ymwneud corfforaethol yn canolbwyntio ar faterion strategol, trawsffiniol.
- Ymgyrch hyrwyddo ar draws y Cyngor a’r ddinas yn canolbwyntio ar sut y mae staff y Cyngor yn cyfrannu at gyflwyno Uchelgais y Brifddinas.

- Mae’r ‘Rhaglen Cyflwyno Uchelgais y Brifddinas’ yn sefydlu trefniadau llywodraethiant, cyflwyno ac adrodd integredig (a chydweithredol).

**Cydweithredu**

*'Fel arweinyddion gwasanaeth cyhoeddus fe wyddom nad oes modd delio â llawer o'r materion mwyaf cymhleth a wynebwn gan un mudiad yn gweithredu ar ei ben ei hun. Boed hynny yn amddiffyn ein plant mwyaf bregus, helpu'r sawl sy'n ddigartref, mynd i'r afael â radicaleiddio neu gefnogi pobl hŷn i aros yn hapus ac iach yn eu cartrefi eu hunain, mae pob un ohonom yn gwybod nad oes gennym yr holl atebion, na'r holl ffyrdd i ddatrys yr heriau sy'n ein hwynebu. Rhaid i ni weithio ar y rhain, gyda'n gilydd.'*

Huw Thomas, Arweinydd Cyngor Caerdydd a Chadeirydd BGC Caerdydd
Maria Battle, Cadeirydd, Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro ac Is-Gadeirydd BGC Caerdydd
Cynllun Lles Caerdydd (tudalen 3)

Mae Uchelgais y Brifddinas yn cydnabod y bydd datblygu atebion tymor-hir, integredig ac ataliol i'r heriau sy'n wynebu'r ddinas a'i gwasanaethau cyhoeddus yn gofyn am bartneriaethau gyda'r sector cyhoeddus, y sector preifat a chyda grwpiau cymunedol, ar lefel genedlaethol, dinas-ranbarthol, dinesig a chymunedol.

- Datblygwyd amcanion lles y Cyngor ar yr un pryd ac mewn partneriaeth agos gydag aelodau BGC Caerdydd, a arweiniodd i'r Cyngor a BGC Caerdydd nodi:
    - Cyfres wedi ei rhannu o amcanion lles sydd yn canolbwyntio ar ddeilliannau yn hytrach na ffiniau sefydliadol.
    - 'Ymrwymiadau' neu 'gamau' ategol mewn meysydd **mantais cydweithredol** diffiniedig
    - Dangosyddion deilliant lefel dinas, cysylltiedig â'r amcan lles, a thrwy hyn y bydd y BGC a phob partner o'r sector cyhoeddus yn olrhain perfformiad y ddinas, ac yn ceisio cael effaith dros y tymor hir.

- Cyflwynwyd ar drefniadau cyflwyno sy'n dod â'r partneriaid iawn i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn y Cynllun Lles gan y BGC ym Mai 2018. Cefnogir y byrddau cyflwyno hyn gan raglen Cyflwyno Uchelgais y Brifddinas y Cyngor ac y mae'n cynnwys:
    - Gwella Deiliannau i Blant - ymysg prosiectau allweddol mae cefnogaeth i deuluoedd, Dinas Gyfeillgar i Blant, Dyfodol Anabledd, a lleoliadau plant
    - Gwella Deilliannau i Oedolion – oedi cyn trosglwyddo gofal, adolygu'r Tîm Adnoddau Cymunedol, adolygu gofal a thai, Dinas Gyfeillgar i Dementia
    - Twf Gwydn – ansawdd aer, teithio bywiog, cymunedau newydd cynaliadwy, lleihau carbon
    - Diogelwch Cymunol – cydlynu ac integreiddio, economi'r nos, amddiffyn pobl fregus ac ymdrin ag ecsploetio, cymunedau gwydn
    - Twf Cynhwysol -gwasanaethau cefnogi gwaith, gwirfoddoli, Ymrwymiad Caerdydd, cyllido hyblygrwydd, cyfrifoldeb cymdeithasol

- Partneriaeth yw Bargen Dinas-Ranbarth Prifddinas Caerdydd rhwng deg awdurdod lleol de-ddwyrain Cymru. Disgwylir i'r prosiect gwerth £1.2 biliwn gyflwyno hyd at 25,000 o swyddi newydd a denu £4 biliwn yn ychwanegol o fuddsoddiad y sector preifat dros yr 20 mlynedd nesaf. Bydd y Fargen Ddinesig yn rhoi cyfle i bartneriaid lleol barhau i fynd i'r afael a rhwystrau'r ardal i dwf economaidd trwy wella cysylltedd trafnidiaeth; cynyddu lefelau sgiliau ymhellach fyth; cefnogi pobl i mewn i waith; a rhoi i fusnesau y gefnogaeth y mae arnynt ei angen i arloesi a thyfu. Bydd y fargen hefyd yn datblygu arweiniad cryfach a mwy effeithiol ar draws Dinas-Ranbarth Prifddinas Caerdydd, sy'n galluogi arweinwyr y deg awdurdod lleol i uno gwneud penderfyniadau, cronni adnoddau a gweithio'n fwy effeithiol gyda busnesau lleol.

- Agwedd newydd at integreiddio ar lefel gymunedol – rydym yn gweithio i gysylltu pobl yn well a darparwyr gwasanaethau lleol a gweithgareddau yn eu cymdogaethau. Bydd hyn yn golygu mapio mudiadau/grwpiau/gweithgareddau cymunedol lleol yn ardal pob Hwb trwy gynnal o leiaf un digwyddiad codi ymwybyddiaeth/rhwydweithio/ymgynghori ym mhob Hwb. Defnyddir y gwaith i ddatblygu Cynllun Ymwneud Cymunedol newydd.

**Ymwneud**

*'Gall pob dinesydd hefyd wneud cyfraniad pwysig i fywyd yn ein dinas. Mae pob un ohonom, fel ymgyrchwyr cymunedol, fel rhieni, fel gwirfoddolwyr, fel perchenogion busnesau, yn gallu helpu i chwarae ein rhan i adeiladu dinas lle mae pawb yn gwneud cyfraniad gwerthfawr.*

*Fy ymrwymiad mi, fel Arweinydd y Cyngor, yw gweithio ynghyd a phartneriaid, staff a dinasyddion mewn ymdrech gyffredin i wneud Caerdydd yn lle gwell i fyw i'n holl bobl, wedi gwreiddio yng ngwerthoedd chwarae teg a chyfiawnder cymdeithasol.*

*Trwy wneud hynny byddwn yn creu prifddinas sydd nid yn unig yn uchelgeisiol i'r bobl yr ydym yn eu gwasanaethu, ond yn uchelgeisiol i bobl Cymru.'*

Cyng. Huw Thomas - Arweinydd, Uchelgais y Brifddinas

Mae barn amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys pobl Caerdydd, partneriaid y gwasanaethau cyhoeddus a'r sector preifat, a staff y Cyngor wedi helpu i gyfrannu at ddatblygiad amcanion lles y Cyngor.

Mae hyn yn cynnwys:

- **Holi Caerdydd**: Mae Holi Caerdydd, arolwg trigolion blynyddol y Cyngor, yn rhoi cyfle i bobl ddweud wrth y Cyngor am eu lles eu hunain a'u profiad o wasanaethau cyhoeddus, ac y mae'n help i'r Cyngor ddeall beth sy'n bwysig i drigolion a chymunedau lleol. Gyda thros 5,500 o ymatebion yn 2017, dyma un o'r arolygon mwyaf llwyddiannus o'i fath yng Nghymru neu ar draws Dinasoedd Craidd y DU.

- Ymgynghori ar y saith amcan lles gyda **grwpiau na chlywir eu lleisiau yn aml**, gan gynnwys:

- 20 o ddigwyddiadau lleol ac i bartneriaid dros bob Ardal Cymdogaeth
- Cyngor Mawr Cyngor Ieuenctid Caerdydd
- Grwpiau ffocws Fforwm 50 + Forum
- 2 grŵp ffocws DALIE
- Cyfarfod Clwb Byddar Caerdydd
- Gweithredu Caerdydd a'r Fro dros Iechyd Meddwl
- Grwp Cyfeillion a Chymdogion (Tre-biwt)

- Digwyddiad ymwneud gydag **arweinyddion sifig** y ddinas yn y 'Fforwm Dinas i Fyw Ynddi' a gynhaliwyd yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro.

- Cyngor a dderbyniwyd am y drafft o amcanion lles gan **Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.**

- Adborth a dderbyniwyd trwy raglen **ymwneud staff** Uchelgais y Brifddinas.

- Cafodd Cynllun Lles Caerdydd ei ystyried hefyd gan Bwyllgor **Craffu** Adolygu Polisi a Pherfformiad (APAPh) y Cyngor ar 18 Gorffennaf 2017 (i ystyried y drafft o amcanion lles) ac 15 Tachwedd 2017 (i ystyried y drafft o Gynllun Lles). Mae gan y Pwyllgor Craffu APAPh y cyfrifoldeb statudol dros graffu ar BGC Caerdydd.